

PEBYLL SEION.

HANES YMDAITH
CYNNULEIDFAOLIAETH

YN

Y WATFORD,
GROES WEN,
TONYFELIN,
RHYDRI,

WELSH

CAERFFILI,

GLANDWR TÂF,
SENGHENYDD,

LLANBRADACH,
ABERTRIDWR.

AND
ENGLISH.

Gyda Darluniau o Leoedd Nodedig a Phersonau Enwog.

DAN OLYGIAETH TAWELFRYN AG E. BUSH

PRIS 2/6 NETT.

Caerdydd:

ARGRAFFWYD GAN Y "WESTERN MAIL," CYF.

1904.

PEBYLL SEION.

HANES YMDAITH
CYNNULLEIDFAOLIAETH

YN

Y WATFORD,
GROES WEN,
TONYFELIN,
RHYDRI,

WELSH

CAERFFILI,

GLANDWR TÂF,

SENGHENYDD,

LLANBRADACH,

ABERTRIDWR.

AND
ENGLISH.

Gyda Darluniau o Leoedd Nodedig a Phersonau Enwog.

DAN OLYGIAETH TAWELFRYN AG E. BUSH

PRIS 2/6 NETT.

Cacrdydd:

ARGRAFFWYD GAN Y "WESTERN MAIL," CYF.

1904.

"ADGOF UWCH ANGHOF."


—
CYFLWYNEDIG

I GOFFADWRIAETH FYTH-GYSEGREDIG Y MAMAU A'R
TADAU, YMLADDASANT FRWYDRAU Y GWIR, ARWYR
EGWYDDORION—"Y RHAI NID OEDD Y BYD YN
DEILWNG O HONYNT."

*"Meddyliwch am eich Blaenoriaid fydd y
rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad
hwynt."*



CAERPHILLY CASTLE.



PONTYPRIDD BRIDGE.

RHAGLITH.

TROIR cynwys Pebyll Seion allan o'r wasg er anrhydeddu enwau a choffa lledaenwyr Crefydd Rydd a Chynulleidfaoliaeth yn y rhan hon o Forganwg, a chan fod "y ddau tu i'r afon" yn croesi tiriogaeth yr "Eglwys Symudol," gymysg, lleolwyd genym ddarluniau yr anfarwol Christmas Evans ac addoldy enwog Tonyfelin yn nghorph y gwaith. Heblaw hyny, estynodd y Parch. J. P. Davies (B.) ini ysgrif gref a dyddorus "dros frig y don." Aiff elw y gwerthiad i gyllid y ddiadell Annibynol Seisnig yn *Van Road*—eglwys fechan mewn rhif, ond mawr ei gweithredoedd a'i ffydd. Dalier pob awdwr yn gyfrifol am gywirdeb a chynwys ei ysgrif ei hun. Ar rai pwyntiau dibwys, megis pwy fu yn pregethu gyntaf yn Senghenydd, cydmarer yr ysgrif yn y llyfr hwn, ag ysgrif arall a ymddanghosodd yn y *Dysgedydd*, oddeutu 1896, ar "Hanes dechreuad a chynydd Annibyniaeth yn Mhlwyf Eglwysilan." Cytunwn i anghytuno. Cynygia nifer o'r brodyr fuont yn cludo cerig i'r garnedd, "esgusawd i'r cyhoedd" am nad oes gauddynt (meddant) "ddim neillduol" i'w draethu, dynion yn *guneyd hanes* ydynt hwy, gan orfod dibynu yn awr a phryd arall ar "dystiolaeth y newydd-ddyfodiad a'r gwibiol."

Cwtogwyd lleied ellid ar yr ysgrifau, heb gyffwrdd â'u cenhadaeth, gan gyfyngu yr awdwyr yn benaf i deithio rhwng "yr Areithfa a'r Allor." Ar gyfer y Werin y gelwid arnom i drefnu ein materion. Ymrithiai o'n blaen, gan sefyll rhwng y linellau, deuluoedd a phersonau, llai amlwg efallai, ond nid llai teilwng a rhinweddol. Erys eu gwaith hwythau gyda'u Harglwydd, eu barn gyfiawn, a'u gwobr ddiogel byth gyda'u Duw. Yr oeddynt yn berarogl Crist. Gwasga terfynau gofod a thraul arnom gamu yn fras ar hyd llwybrau angelion, o'r bwthyn gwyngalchog i'r cysegr uchel a dyrchafedig. Ddablygiad gwerth craffu arno a'i olrhain. Heb fradychu unrhyw gyfrinach, gelwir arnom i gydnabod mai "rhannant bruddglwyfus, "Y Llaw yn y Llun;" a haelioni byw y meddyg hanesydd aiddgar o Fryn Derwen, bia y clod am droad allan sydyn y gyfrol ddiymhongar hon. Gan nad oedd ei ddarlun *ef*

wrth law, sicrhawyd genym ddatlun arall, o un wnaeth ei ran yn lew,
yn ei ddydd byr a digwmwl er dwyn barn Annibyniaeth Seisnig yng
Nghaerffili hyd at fuddugoliaeth.

Yn mhell i'r dyfodol fel alarch ar lyn,
Y llithra'u per enw yn esmwyth a gwyn!

C. TAWELFRYN THOMAS.

GROES WEN,
Mai 30ain, 1904.

PREFACE.

THIS volume is published as a souvenir of the visit of the Glamorganshire Welsh Congregational Association to the historic town of Caerphilly, and it contains brief records of the origin and development of Congregationalism (Welsh and English) in this part of the country; records that would be devoid of life and meaning apart from the short biographical sketches of those Godly men and women, who, by their devotion to God, their love to man, and "fidelity" to principle, laid the foundations of a bright and prosperous future on the solid rock of an intelligent faith. "And herein is that saying true, one soweth and another reapeth . . . other men laboured, and Ye are entered into their labours." It may surprise some to find the history of the Tonyfelin Welsh Baptist Church, and the portrait of Christmas Evans inserted in these pages. But the fitness and propriety of this departure from the strict canons of denominational accuracy will be fully appreciated when we inform our readers that, originally, in this locality there existed what is known as "The Itinerant or Moveable Church," which met for worship in Graig-yr-Allt, Ty-fry, and Waengledr, three farm houses that stand in close proximity to each other. Probably some may be inclined to think, in these days of scientific precision, that this was an humble attempt on the part of our spiritual ancestors to solve the problem of "perpetual motion." At any rate they did not believe in stagnation. "Keep moving" was the order of the day. This church consisted of Baptists and Independents, and as the far-famed and venerable "Tonyfelin" is a lineal descendant—we will not say of the "better half" of this early community of believers—we felt that a record of its history would give a touch of completeness and impart a pleasing variety to the work. The inclusion of our Baptist friends possesses also the merit of shielding the volume from the charge of being "too dry." However, we feel deeply indebted to the Rev. J. P. Davies, the worthy and esteemed pastor of Tonyfelin Church, for co-operating with us so heartily in this venture, and for his kindness in contributing an article fraught with general interest and useful information.

The principle of paying "honour to whom honour is due" prompts us to say that the idea of compiling such a work originated with Dr. T. W. Thomas, "Brynderwen"—a sort of spring-tide thought, which, after prayerful consideration and full discussion at a meeting of ministers, constrained one and all to be obedient to the "heavenly vision" of the "beloved physician." Each contributor has endeavoured to be true to the ideal spirit of that vision, although at times the outer garments may appear not to be woven of the finest material. Our united prayer is that the romance which "clings to and hangs round about" many a sacred name and humble cause, "clothing them with a robe of more than glory," will be the means of kindling in our hearts a passion for souls, and making us more loyal to the Church of our choice. The proceeds derived from the sale of this volume will be devoted, by the common consent of the brethren, to the Building Fund of the English Congregational Church, Caerphilly; and our most sincere and grateful thanks are due to them for the Christian charity and brotherly spirit which they have shewn, and for the time, toil and talent which they have so gladly sacrificed for the extension of the Kingdom of God in our midst. To us who are the humble, yet honoured, recipients of such fragrant and graceful generosity, it is gratifying and encouraging to realise that our efforts to provide religious accommodation for a growing population and to meet the pressing, spiritual demands of a new era have met with the cordial approval and elicited the practical sympathy of the ministers and laymen who have contributed to this volume. Such kindness on the part of those who live "next door" may be the means of influencing the "more distant inhabitant of Zion" to cast his or her mite into the treasury, and thus aid us in our great and necessary undertaking. To the brethren and all who have so kindly helped to give to the saints and heroes of the past "a local habitation and a name," we would commend the promise: "For God is not unrighteous, to forget your work and labour of love which ye have shown towards His name, in that ye have ministered to the saints and do minister."

We beg to gratefully recognise the splendid services rendered by Mr. T. Pickering, photographer, Van Road, Caerphilly, for the artistic manner in which he has got up the illustrations. Also our best thanks are due to the Rev. David Davies, Brighton, for his valuable help in connection with the blocks; and last, but not least, to the following gentlemen for their kindness in providing the same:—

Councillor P. Charles, Llanbradach	Mr. W. Bromley Edmunds, Penrhos
The Deacons, Nantgarw Chapel	„ Berish G. Evans, Carnarvon
Rev. David Davies, Brighton	„ Councillor Edmund Evans, Aber

Mr. J. E. Evans, C.C., Brynawel	Mr. Edmud Moses, Rudry
„ R. L. Evans, Llanbradach	„ T. Moses, Council Schools, Llanbradach
„ Abraham Evans, Llanbradach	
„ David Evans, 5, Pearson Street, Cardiff	Mrs. W. Rees, Glandwr
„ Thos. Evans, St. Martin's Road, Caerphilly	Mr. W. Beddoe Rees, Cardiff
„ W. Harris, Rudry	„ Thos. Rossiter, Bryngoleu
„ Edward Hedges, Caerphilly	„ A. J. Rossiter, Bro-Dawel
„ David Howell, Cardiff	„ W. Spickett, C.C., Bronrhiw
„ Edmund Jones, Caerphilly	„ R. W. J. Sutherland, Clyne Villa
„ Tom Jones, Brynglas	„ Alderman Edward Thomas, J.P. (Cochfarf)
„ Jonathan Lewis, Caerphilly	„ Thos. Thomas, Ty'nywen
„ T. Lovell, Cardiff	„ Councillor Wm. Thomas, Caerphilly
„ John Morgan, Brynhyfryd	„ Evan Walters, Cardiff
„ Josiah Morgan, Caerphilly	„ G. L. Watkins (Architect)
„ Joseph Morgan, Rudry	„ John Williams, Abertridwr
„ W. Morgan, Bartlett Street, Caerphilly	„ Editor of "Evening Express."

E. BUSH.

English Congregational Church, Caerphilly.


CYNWYSIAD.

1. YR EGLWYS SYMUDOL	1
(Mr. THOMAS THOMAS, Ty'dywern.)	
2. WATFORD	3
(Parch. D. GWERNYDD REES, Eglwysnewydd.)	
3. GROES WEN A'I GWEINIDOGION	10
(Gan Parch. TAWELFRYN THOMAS, ELVET LEWIS, D. GRIFFITHS, Bethel, a WILLIAM EVANS, Aberaeron.)	
4. MYNWENT Y GROES WEN:—	
IEUAN GWYNEDD	36
("TAWELFRYN.")	
Parch. J. D. WILLIAMS, Caerdydd	40
(Mr. T. LOVELL.)	
Parch. WALTER THOMAS, Llanvaches	43
Parch. D. J. BEYNON, Nantgarw	44
(o "Hanes yr Eglwys")	
Parch. MORGAN HOPKINS, Tongwynlais	45
(Parch. J. THOMAS, Merthyr)	
Parch. W. M. REES, Eglwysnewydd	47
(Prifathraw L. PROBERT.)	
Parch. DAVID RICHARDS, Caerffili	48
(Mr. J. D. HUGHES.)	
Parch. JOSEPH JONES, Bryste	50
("TAWELFRYN.")	
Parch. M. C. MORRIS, Ton Ystrad	51
(Parch. D. GLYN JONES, Caerffili.)	
Parch. LEMUEL SMITH, Pentyrch	53
(Parch. R. G. BERRY, Gwaelodygarth.)	
Parch. JOHN JONES, Rhydri.	54
(Parch. R. G. BERRY, Gwaelodygarth.)	
Parch. DR. GURNOS JONES	55
(Parch. JAMES JONES, Senghenydd.)	

Cynwysiad.

ix.

5. ACHOS ANNIBYNOL, NANTGARW	57
(Mr. THOMAS THOMAS, Tynywern.)	
6. TONYFELIN A'I GWEINIDOGION (B)	62
(Parch. J. P. DAVIES, Caerffili.)	
7. RHYDRI	76
(Parch. D. J. THOMAS, Rhydri.)	
8. BETHEL, CAERFFILI	79
(Parch. D. TAFWYS JONES.)	
9. GLANDWR, TAF	86
(Parch. D. STANLEY MORGAN, Ffynon Taf)	
10. NODDFA, SENGHENYDD	89
(Parch. JAMES JONES (Penlan Cych), Senghenydd.)	
11. Y TABERNACL, LLANBRADACH	92
(Mr. JOSEPH MILLWARD, Abertridwr.)	
12. ABERTRIDWR	93
(Parch. J. JONES, Senghenydd.)	
13. CYMANFAOEDD Y CYLCH	96
(Mr. TOM JONES, Ys. Lleol Cymanfa, 1904)	
14. EIN GWAITH A'N RHAGOLYGN	98
(Parch. D. GLYN JONES.)	
15. ENGLISH CHURCHES:	
(a) SENGHENYDD	102
(Rev. D. B. EVANS, Abertridwr.)	
(b) LLANBRADACH	105
(Rev. D. B. EVANS, Abertridwr.)	
(c) CAERPHILLY	108
(Rev. E. BUSH.)	
16. Mrs. T. W. THOMAS, Brynderwen	111
(Rev. D. TAFWYS JONES.)	
17. Rev. DAVID WILLIAMS, Waenwaelod, Founder of the Royal Literary Fund.. .. .	113



Mr. THOMAS THOMAS, Ty'nywern.



TÝ FRY.



CRAIG YR ALLT.



GWAEN GLEDR.

Yr Eglwys Symudol.

(THE ITINERANT CHURCH.)

MAE trôad allan y "ddwy fil" o offeiriaid dysgedig a duwiol o'r Eglwys Wladol yn 1662 wedi ei oruwchlywodraethu nes profi ei hun yn un o'r gweithredoedd mwyaf ffrwythlawn er daioni yn hanes crefydd ein gwlad. Oblegid bu y weithred hon, yn nghyd â'r ymdrechion newydd a'i dilynodd i bregethu i'r werin-bobl, yn foddion i ddeffroi y cyfryw o'u cysgadiwydd a'u difaterwch ysbrydol. Bu y trôad allan yn foddion felly i gychwyn pregethu mewn pob math o leoedd heblaw mewn eglwysi, megis mewn tai annedd ac ysguboriau, &c. Trwy hyn ffurfiwyd llawer cynulleidfa o addolwyr yn nglyn ag annedd-dai ein gwlad, heb fod yn perthyn iddynt un capel.

Yr oedd sefyllfa crefydd yn gyffredinol yn yr amseroedd hyny yn dra isel yn Nghymru. Cyfranogai y werin o ddifaterwch ysbrydol yr offeiriaid; cyrchai y bobl i'r Eglwysi Gwladol ar foreuau Sabboth, ond nid yn gymaint er mwyn addoli ag er mwyn ymuno yn y chwareuon annuwiol a gynhelid ar ddiwedd y gwasanaeth boreuol. Unai offeiriaid a phobl yn y chwareuon hyny, megis chwareu pêl wrth dalcen yr eglwys, neu gicio pêl droed ar y maesydd cylchynol. Yr oedd ymladd ceiliogod a chwareu bando hefyd mewn bri-mawr, a chaffai y dydd sanctaidd ei derfynu mewn cyfeddach a dawn.

Pobl yn sefyll yn erbyn yr arferion llygredig a nodwyd oedd y Ddwy Fil a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig yn 1662. Rhai o honynt hwy fuont yn foddion i gychwyn Eglwysi Symudol mewn annedd-dai, &c., yn ein gwlad. Mewn modd cyffelyb i hyn y cychwynwyd yr Eglwys Symudol sydd dan sylw yn yr ysgrif hon. Arferai pobl yn ardaloedd Caerffili a'r cyffiniau gyd-gyfarfod mewn annedd-dai i'r amcan o addoli Duw. Eglwys gynysg o Annibynwyr a Bedyddwyr oedd yr un y soniwn am dani. Ac arferent gyfarfod yn yr annedd-dai canlynol yn yr ardal, sef yn Waen Waelod, Craig yr Allt, Gwaen Gledr, a'r Ty Fry, a hyny ar gylch. Yn y nos, fynychaf, y cyfarfyddent gan fod rhywrai yn eu gwylled, er mwyn eu cyhuddo gerbron yr awdurdodau gwladol o dori y deddfau a geisient gyfyngu addoliad i'r Llanau yn unig, yn y cyfnod hwnw. Ac nid anfynych y cafodd rhyw rai o honynt eu dwyn gerbron yr ynadon, a gwelwyd aml un o ustusiaid diegwyddor ac

annuwiol y cyfnod yn ymhyfrydu mewn dirwyo dynion da a duwiol yn drwm am iddynt addoli Duw yn ol eu cydwybodau.


Ond yr oedd yr adeg hono yn mhlith yr ynadon, rai boneddwy'r tég a chyfiawn. A bu rhai o'r cyfryw yn help mawr i'r praidd bychan hyn dan erlidigaethau y gelynion.

Un y mae ei enw a'i goffadwriaeth yn fendigedig ydyw y Cadben Evans, o'r Dyffryn Ffrwd, Nantgarw. Bu ef yn swyddog ym myddin Cromwell, a safodd yn wrol o blaid y saint gorthrymedig yn ardal Caerffili. Noddwr arall gwerth ei nodi ydoedd y Cadben Pritchard, o Lancaich.

Wedi i'r Eglwys Symudol fod yn cydaddoli o dy i dy am lawer o amser yn y lleoedd a enwyd genym yn barod, symudodd ei lluest i Hendre Evan Prosser, a gwnaeth yr amaethdy hwnw yn gartref ei haddoliad am dymor. Rywbryd yn ystod ei thrigfa yn yr Hendre ymwahanodd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Aeth y rhan Fedyddiedig allan i Llanharan, ac oddiyno i Hengoed, ond ymsefydlodd yr Annibynwyr yn ardal y Watford. Cafodd y ddiadell hon ei noddi, ei harwain, ei phorthi, a'i dyddanu gan balwar o weinidogion a gawsent eu troi allan o'u bywiolaethau yn amser y ddwy-fil sef, Walter Cradock, William Ebery, Ambrose Mostyn, a Henry Walters. Yr oeddynt wedi eu hawdurdodi i chwilio i fewn i gymwysder prögethwyr a benodasid i leoedd amddifad o bregethwyr yr efengyl gan lywodraeth Cromwell.

Dywedai Walter Cradock nad oedd yn nhair-sir-ar-ddeg Cymru yn 1646, gymaint a thri-ar-ddeg o bregethwyr cymeradwy a duwiol yn mhlith holl offeiriad y Dywysogaeth i gyd! Ac fe erys y cyhuddiad heb ei wrthbrofi hyd heddyw. Ond yn mhen rhyw chwe' blynedd arall (1652) cyfrifir fod canoedd o bregethwyr da, selog, a thanllyd eu hysbryd, ar y maes ac yn gwneyd gwaith rhagorol. Ond cafodd y rhai hyn eu dirmygu yn fawr gan uchelwyr ein gwlad, er hyny bendithiodd Duw eu llafur yn ddirfawr.

Y mae clywed son am "Ddeddf Goddefiad" yn swnio yn ddieithr yn ein dyddiau ni; ond o dan y ddeddf hon y mae holl Ymneillduwyr Prydain yn mwynhau eu rhyddid hyd y dydd hwn. Nid oedd y ddeddf hon yn rhoddi boddourwydd ond i'r rhai oedd wedi ac yn cael eu curo gan ystormydd erlidigaethau. Iddynt hwy yr oedd fel cysgod craig fawr mewn tir sychedig. Nid rhaid iddynt bellach ymgynull dan leni y nos mewn cilfachau anghysbell, rhag ofn cenedlaeth o waedgwn erlidgar. Ac er nad yw y "Ddeddf" y peth a ddymunwn yn ei chysylltiad ag addoli Duw, y mae ychydig o olouni yn well na thywyllwch y nos.



WATFORD.

Watford.

GELWIR y capel ar yr enw uchod oddiwrth Watford-fawr, enw y fferm ar ran o dir pa un yr adeiladwyd ef. Mae hen Balasdy y Watford-fawr yn lle dyddorol i'r hanesydd. Yma y preswyliai Thomas Price, Ysw.—“Price, yr Ustus,” fel y geilw “Williams Pantycelyn” ef—aelod a swyddog yn Eglwys Annibynol Watford, ac yr oedd ei dŷ bob amser yn agored fel “lletty ffordolion” i bregethwyr o bob llwyth, iaith, ac enwad. Yma y bu yr enwogion George Whitfield, Daniel Rowlands, Wm. Williams, Pantycelyn, Howell Harris, ag eraill yn cael lluniaeth ar adeg cynhaliad Cymdeithasfa gyntaf y Methodistiaid Calfaidd yn Nghapel y Watford. Oddiyma y priododd George Whitfield y foneddiges Elizabeth James, o Abergafeni, yr hon a fu yn “ymgeledd gymwys” iddo am flynyddoedd. Ac y mae marwnad Williams, Pantycelyn, i Grace Price (gwrraig Cadben Price, a merch yng ’ngyfraith yr “Ustus”), un o aelodau amlycaf Eglwys y Groes Wen, wedi anfarwoli y lle. “Y *Potffordd* yr ysgvifenuir yr enw mewn rhai hen lawysgrifau, a thua thebyg mai ystyr y gair yw *Bodffordd*,” ond *Potffordd* yr ysgrifena Mr. Thomas Morgan (ychydig o hanes yr hwn a geir ar ddiwedd yr ysgrif hon) yr enw. Dywed awdwr “Methodistiaeth Cymru,” wrthym am gapel M. C. Llanfairmuallt, “Galwyd ei enw Alpha i ddynodi ei flaenoriaeth ar bob capel arall o ran amser.” Yr un fath gellir galw Capel y Watford yn Alpha, oblegid efe yw y cyntaf o holl gapelau y cylch. Saif ar ochr orllewinol Mynydd Caerffili, ar fin y ffordd sydd yn arwain i'r Eglwys newydd a Chaerdydd. Yr oedd y Tadau Ymneillduol yn ymgynull at eu gilydd i addoli Duw i dai-annedd cyn fod yr un capel wedi ei adeiladu, a bernir gan rai fod yma Eglwys Gymysg wedi ei chorffoli mor foreu a 1660 neu 1662.† “A flourishing congregation existed here (sef Watford) since the days of the ejected Ministers.‡ Dywed y diweddar Mr. Daniel Davies gynt or Ynysgau, Merthyr, mewn papyr a ddarllenwyd ganddo yn Ngyfarfod Gweinidogion yn y lle hwnw Mehefin y 13eg, 1849. “Watford hefyd, ger Caerphili, sydd yn ganghen o Gwm-y-glo. Dywedir fod llawer o Gaerphili a phlwyf Eglwysilan yn gyffredin yn myned i Gwm-y-glo, hyd oni ddarfu iddynt ymrhanu yn ganghenau, pa'r yr ymgorffolasant yn Gynulleidfa yn Watford,” ac yr

* Hanes Eglwysi Annibynol Cymru gan Rees a Thomas. † Congregational Year Book. ‡ Phillip David's M.SS.

oedd hyn cyn 1735, oblegid yn ol papyr Mr. Davies, symudwyd y Fam Eglwys o Gwm y-glo i Ynysgau yn 1735. Dywed rhai fod y capel cyntaf wedi ei adeiladu tua'r flwyddyn 1666, yn amser Deddf y Pum' Milldir, ac mai dyna y rheswm ei fod wedi ei adeiladu yn y lle y mae. Beth bynag nid ydym yn gallu cael sicrwydd am gapel yma hyd y flwyddyn 1739. Yn mhlith rhai hen ysgrifau perthynol i'r lle mae yna gyfeiriad at lês ar ddarn o dir dyddiedig Rhagfyr 29ain, 1733, ag un arall yn cyfeirio at y lês roddwyd gan Thomas Price, Ysw., i Mr. David Williams, Pwllpant, y gweinidog, am fil o flynyddoedd, wedi ei dyddio Gorph. 30ain, 1739. Mae y capel oddiar pan adeiladwyd ef gyntaf wedi myned drwy gyfnewidiadau lawer. Codwyd ef yn adeilad cadarn y muriau yn mesur dros ddwy droedfedd o led, a'r trawstiau yn dderw trwchus, a'r seddau o'r defnydd goreu. Yr oedd hefyd yn helaeth a'r seddau yn ddwfn iawn, fel na allasai y gwrandawyr pan yn eistddd weled neb yn eglur ond y pregethwr yn y pulpud, ac nid llawer gyda phen hwnw allasant ei weled. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf yr oedd yr eglwys yn llewyrchus a chyfoethog a'r gynulleidfa yn lluosog, oblegid ymgasglent o'r cylch filldroedd o bellder, fel yr oedd yn ofynol cael lle helaeth; ond wedi gwyrriad y gweinidog, ac ymraniad gymeryd lle, a'r achos newydd yn y Groes Wen yn cynyddu, fe wanhaodd yr Eglwys yn fawr, aeth y gynulleidfa yn denu iawn, fel yr oedd y capel yn rhy helaeth, a gwnaed ef yn llawer llai, tynwyd yr oriel i ffwrdd a throed rhan o hono yn annedd-dy. Bu am flynyddoedd lawer ag iddo lawr o bridd a chalch, a chan mor lleied oedd yn ei fynychu, yr oedd y mwsogl yn tyfu yn wyrddlas, a llwybr fel llwybr defaid, ar hyd yr hwn y cerddai yr ychydig oedd yn dod i addoli iddo i'w gwahanol seddau. Ond ymwelodd Duw â'r "winwydden hon, a'r winllan a blannod ei ddeheulaw a'r planhigyn a gadarnhaodd iddo ei Hun." Adfywhaodd yr achos yn fawr, ac yn y flwyddyn 1842 adnewyddwyd y capel, a gwnawd y seddau yn fwy cymhedrol o ran dyfnder.

Yn y flwyddyn 1877 gwnawd amryw gyfnewidiadau ynddo drachefn, pa rai a gostiodd £250. Ac yn mhen tri-ar-ddeg o flynyddoedd ar ol hyny, sef y flwyddyn 1890, helaethwyd ef etto, drwy ei estyn allan amryw latheni, a chodi oriel yn cynnwys eisteddleoedd i 140. A chostiodd dros £500. Dyma ei ffurf yn bresenol, cynnwysa le i rhwng tri a phedwar cant i eistedd.

Mae yr holl ddyled wedi ei thalu, a'r capel, tri annedd-dy, mynwent, a darn o dir yn ymyl yn rhyddfediant i'r eglwys. Nid oes llawer o amser oddiar pan gwnawd ymchwiliad gan awdurdodau neillduol gyda'r amcan o hawlio yr eiddo ac i orfodi yr eglwys i dalu ardreth; ond methwyd cael sylfaen i hawlio dim, oblegid yn 1797 prynodd yr ymddiriedolwyr eu hawl yn y capel, a'r fynwent, a'r tai



WATFORD FAWR—CARTREFLE GRACE PRICE.

am y swm o ugain punt; ac heblaw hyny, yr oedd Deddf y "Quiet Possession" yn rhwystr iddynt hawlio, ac felly mae yr holl eiddo yn parhau yn rhyddfeddiant i'r eglwys. Gweinidog cyntaf yr eglwys oedd Mr. Rice Protheroe, gwr genedigol o gymydogiaeth Llanymddyfri, addysgwyd ef yn Athrofa Abergafenni, bu am dymhor yn athraw yr Ysgol Rydd a sefydlwyd gan Vicar Pritchard yn Llanymddyfri. Meh. 16eg, 1702, ordeiniwyd ef, gyda saith eraill, i waith y weinidogaeth yn Warrington. Yn mhllith eraill oeddynt bresenol ac yn gweinyddu ar yr achlysur ceid Matthew Henry, yr esboniwr enwog, a Dr. Charles Owen. Llafuriodd yn Sir Drefaldwyn am ddeng mlynedd. Derbyniodd alwad oddiwrth Eglwys Annibynol Caerdydd, a gofalai am Watford yn gysylltiedig a hono. Bu farw yn 1733, nid oes dim hanes am ei alluoedd pregethwrol; etto, ceir amryw gyfeiriadau ato fel ysgolhaig gwyh.* Ysgrifeniir ei gyfenw gan rai yn Prytherch, a thebyg yw ei fod yn fab neu ryw berthynas agos i'r enwog Rhys Prytherch, o Ystradwallter.

Ar yr un flwyddyn ag y bu Mr. Protheroe farw, neu yr un ganlynol, urddwyd Mr. David Williams, o Bwllypant, yn weinidog i Eglwysi Watford a Chaerdydd. Ganwyd ef yn 1709 yn Pwllypant, lle ychydig filldroedd i'r gogledd o Watford, ond cyfeiria rhai atto fel gwr o Sir Gaerfyrddin. Dechreuodd ei weinidogaeth yn Watford yn 1733. Bu am flynyddoedd yn weithgar a selog iawn, a chryfhaodd y ddwy eglwys, cafodd weled llawer "yn rhoddi eu hunain i'r Arglwydd ac i'w bobl yn ol ei ewylllys." Yr oedd yn llawn o ysbryd y diwygiad oedd wedi tori allan yn Nghymru, a bu yn offerynol i gael Howell Harris i dalu ymweliad a'r lle ac i bregethu i'w bobl ac i eraill mewn amryw fanau. Mae amryw o'i lythyrau i'r Diwygiwr mawr hwnw ar gael heddyw, oddiwrth pa rai y gwelir amryw bethau yn amlwg:—

1. Fod David Williams yn cymeryd rhan flaenllaw yn y mudiad diwygiadol.
2. Ei fod ar y telerau goreu a mwyaf cyfeillgar â Howell Harris.
3. Ei fod yn trefnu ac yn chwilio am gyhoeddiadau i Howell Harris.
4. Ei fod ei hun yn cynnal ac yn arolygu Seidau, &c.†

Rhoddodd fenthyg ei gapel yn Watford i'r Methodistiaid Calfinaidd i gynnal eu Cymdeithasfa gyntaf, ar y 5ed ar 6ed o Ionawr, 1743. Yn y Gymdeithasfa hono etholwyd George Whitfield i fod yn llywydd, ac yr oedd yn bresenol Daniel Rowlands, John Powell, Wm. Williams, Pantycelyn, Howell Harris, John Cenrick, a Joseph Humphreys.

Yn yr adeg hon nid oedd yr un gweinidog Ymneillduol yn fwy selog, diwyd ac adnabyddus na gweinidog Watford; ond rhywsut

* Jenkins' "History of the early Nonconformists of Cardiff."


† Diwygwyr Cymru," gan Beriah Evans.

dywedir iddo wyro mewn athrawiaeth, ond daliodd yn bur ei gymeriad hyd y diwedd. Wedi symud o Bwllypant bu yn byw yn agos i'r capel mewn lle o'r enw "Y Cwm," ac heblaw cyflawni ei ddyledswyddau fel gweinidog, cadwai ysgol ddyddiol yn ei dŷ, a roddai addysg rad i blant tlodion yr ardal—un o'i ddisgyblion oedd David Williams, yr hwn ddaeth yn un o lenorion enwocaf ei ddydd, ac yn sylfaenydd "Literary Fund" Prydain Fawr.

Bu farw yr 8fed o Ebrill, 1784, yn 75 mlwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent y Watford, a phregethwyd ar yr achlysur gan Mr. Wm. Morgan, Cymer, a dywed rhai i Mr. Philip Dafydd, Penmain, hefyd bregethu. Ond yn nydd-lyfr Mr. Philip Dafydd am Ebrill yr 8fed, 1784, darllenwn fel y canlyn:—"Heddyw bu'm yn hebrwng gweddillion marwol y Parch. Mr. David Williams, o'r Watford, i'r bedd. Buasai yn gyfaill anwyl a hoff i mi am lawer o flynyddau; ond er ys llawer o amser bellach, yr oedd wedi myned yn oer a disylw iawn o honof fi; ac ereill o'i gymydogion agosaf, tra yr oedd yn hoff iawn o weinidogion Sir Gaerfyrddin, y rhai, fel yr ymddengys, a darawent ei archwaeth yn well; etto, yr wyf fi yn credu nad enillodd ef ddim wrth gyfeillachu â hwy. Yr wyf yn gobeithio ei fod yn ddyn da o'i ieuentyd, a defnyddiol iawn yn ei genhedlaeth, fel ysgolfeistr a gweinidog yr efengyl am yr yspaid maith o 55 neu 56 o flynyddau. Rhagorai ar lawer yn ei ddoniau a'i ras, ond yr oedd yn tueddu yn fawr at Ariaeth a Sosiniaeth yn ei ddyddiau diweddaf, fel yr wyf yn ofni, yn ol yr hyn a glywaf gan ereill am dano, ac fel yr wyf fi fy hun yn casglu oddiwrth gymeriad y rhai a ddewisid ganddo fel ei gyfeillion. Mr. William Morgan o'r Cymer a draddododd ei bregeth angladdol oddiwrth Act. xiii., 36. Pregeth dda ydoedd, ac efe a roddodd iddo gymeriad da gyda golwg ar ei ymarweddiad, yr hyn a haeddasai; ond am ei athrawiaeth a'i egwyddorion bu y pregethwr yn ddistaw. Yr oedd efe yn 75 mlwydd oed, sef tri mis yn hŷn na mi. Yr Arglwydd a'm gwnelo innau yn barod erbyn fy ngyfnewid." Mae carreg goffadwriaethol iddo i'w gweled yn awr yn mur y capel.

Canlynwyd ef fel gweinidog y lle gan ei fab Thomas! ond nid oedd ei weinidogaeth ef mor dderbyniol a llwyddianus a gweinidogaeth foreuol ei dad, ac nid hir y bu cyn troi ei gefn ar Ymneillduaeth, gan ymuno ag Eglwys Loegr.

Ar ol hyn, bu Mr. Wm. James, o Llanllwyni, Sir Gaer, yn gofalu am y lle yn gysylltiedig â'r eglwys yn Ngaerdydd, a bu yn llwyddianus am dymhor; ond yn y flwyddyn 1826 rhoddodd y gofâl i fyny gan gyfyngu ei lafur i Gaerdydd yn unig. Yr oedd Mr. James yn hynod ar gyfrif *hyd* ei bregethau; clywais hen bobl yn dweud y byddai yn aml iawn yn pregethu yn mhell dros ddwy awr o amser, fel y byddai



GEORGE WHITFIELD.

wedi un o'r gloch ar y cyfarfod yn gorphen, er wedi dechru am ddeg!! Pan gyhoeddid Mr. James i bregethu byddai y bobl yn annog eu gilydd i ddod a rhyw gymaint o luniaeth ganddynt, oblegid ni wyddent pa amser y gollyngid hwy ymaith. Bu efe farw tua'r flwyddyn 1845, a chladdwyd ef yn ymyl y capel, ac y mae y capel presenol wedi ei estyn dros ei fedd, a'r garreg goffadwriaethol wedi cael ei hesgeuluso. Yn adeg ymadawiad Mr. James yr oedd Mr. Daniel Davies, gynt o'r Ynysgau wedi symud i fyw i'r Cwm, hen gartref Mr. D. Williams, ac ysgrifena ef ei hun fel y canlyn:—"Yr oeddwn i yn byw yn y Cwm yn y cyfamser, a chan nad oedd ond ychydig aelodau yno, ac yn analluog i gynnal gweinidog, mi a'u gwasanaethais hwynt am rai blynyddoedd. Y maent yn awr (1849) yn cael gweinidogion yn gysson, oblegid fod y gynulleidfa wedi cael mawr gynorthwy trwy i Miss Williams, merch yr hen weinidog, adael tri chant o bunau tuag at gynaliaeth yr achos yno." Ar fur y capel ceir carreg yn cyfnodi y flath.

Mae ymddiriedolwyr yr arian wedi eu newid droion, ar unig rai sydd yn fyw yn bresenol ydynt Dr. Wm. Edwards, Caerdydd, Dr. D. Edwards, Ffynon Daf, a Mr. T. Thomas, Ty'nywern. Symudodd Mr. Davies o'r Cwm, a rhoddodd y lle i fyny. Tua'r flwyddyn 1831 neu 1832 rhoddwyd galwad i Mr. Lewis Roberts o Athrofa Neuaddlwyd, ac urddwyd ef yma. Llafuriodd yn ddiwyd a chymeradwy iawn am chwech neu saith o flynyddoedd, ond ymddyrysodd yn ei amgylchiadau ac ymollyngodd i ddiotta fel y bu yn rhaid iddo adael y lle. Wedi hyny bu yr achos dan ofal Mr. E. C. Jenkins, Salem, Thomas Ll oyd, a J. Jones. Rhydri, yn olynol. Bu Mr. Thomas Jones yn weinidog yma o 1852 hyd 1870, pryd y rhoddodd y gofal i fyny ac y symudodd or ardal.* Yn fuan wedi hyn rhoddwyd galwad i Mr. B. Davies, Glandwr Taf (Dr. B. Davies, Castellnewydd Emlyn yn awr), i gymeryd gofal, yr eglwys a bu yma am bum' mlynedd yn gymeradwy iawn. Hoffid ei weinidogaeth yn fawr fel yr oedd yn anhawdd gollwug gafael ynddo, a bu yntau yn gofalu am Watford am flwyddyn wedi symud i Treorci. Yn y flwyddyn 1877 rhodd yr eglwys alwad i Mr. D. G. Rees, Eglwysnewydd, i gymeryd ei gofal yn gysylltiedig â Beulah, a dechreuodd yntau ei weinidogaeth yn y lle yn mis Ebrill y flwyddyn hono. Gohiriwyd cyfarfod sefydliad hyd agoriad y capel, ar ol ei gyfnewid, yr hyn gymerodd le Hydref y 9fed a'r 10fed, pryd y gweinyddwyd gan Dr. W. Rees (Hiraethog), J. Morgan Evans, Caerdydd, J. Davies, Taihirion, B. Davies, Treorci, R. Thomas, Glandwr, D. Richards, Caerphili, T. G. Jenkins, Llwynypia, D. Evans, Pentre, a'r Mri. T. Lovell, Watford, a John Phillips, Eglwysnewydd, ac y mae wedi bod yn llwyddianus a chysurus yma am flynyddoedd, ac yn parhau felly hyd yn bresenol. Nid

* Hanes yr Eglwysi.

oes hanes am bethau rhyfedd iawn wedi cymeryd lle yn nglŷn â'r Eglwys hon yn y ffurf o ddiwygiadau nerthol. Y cyntaf ydoedd yr hwn a gymerodd le trwy ymweliad Howell Harris â'r adal. Cafwyd diwygiad grymus, adfywiodd yr eglwys, a chafwyd cynydd mawr a chyflym mewn aelodaeth a gweithgarwch. Fel hyn y dywed hanesydd o fri yn y *Western Mail*, Tach. 18fed, 1897, pan yn cyfeirio at ymweliad Howell Harris â'r lle, "Ymddengys fod yr Eglwys Annibynol yn y Watford wedi ei hadgyfnerthu felly fel pe tai gwaed newydd yn ei gwythienau ac wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o adeiladu iddi ei hun addoldy newydd." Ysgrifena Mr. D. Williams yn ei adroddiad at Howell Harris (Mehefin, 12fed, 1738):—"Mae llwyddiant angyffredin wedi cyd-fyned â'r gwasanaeth am ddau ddiwrnod gyda ni." Etto, Tach. 17eg., 1738:—"Mae pethau yn edrych yn gysurus yn bresenol. Sefydlir cyfeillachau gweddio yn mhob man. Derbyniwyd dau-ar-bymtheg i gymundeb y tro diweddfaf; mae ychwaneg wedi cael eu cynyg." Ar ol hyn y gwelodd yr eglwys hon ar lawer i adeg yn ei hanes flynyddoedd deheulaw yr Arglwydd. Clywais hen bererinion y lle yn adrodd gyda blas am adegau cynhyrfus yn ei hanes, ac am gyfarfodydd bendigedig gafwyd yma pan y byddai y bobl yn nedio ac yn gorfoleddu hyd ganol nos. Cerddent gyda'u gilydd am filldroedd i gynnal cyfarfodydd gweddio mewn tai annedd, a dychwelent yn dorff gariadus dan ganu ar hyd y ffordd.

Nis gallwn gael hanes ond am dri wedi eu cyfodi i bregethu yma, sef:—Mr. JENKIN MORGAN, yr hwn a fu yn weinidog Rhosymeirch, Sir Fôn, am ugain mlynedd. Urddwyd ef yn Watford, lle yr oedd yn aelod, yn y flwyddyn 1746, a hyny gyda'r bwriad iddo weinidogathu yn Môn.

Mr. THOMAS MORGAN, yr hwn fu yn gweinidogaethu yn Henllan, Sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn ardal Bedwas yn y flwyddyn 1720; dychwelwyd trwy weinidogaeth Howell Harris; yn 1738 ymunodd â'r eglwys yn Watford; addysgwyd yn Ngoleg Caerfyrddin; urddwyd yn Henllan, Mehefin, 1746; symudodd i Saddleworth, Swydd York, yn 1760, ac i Morley, yn agos i Leeds, yn 1763, lle y bu farw Mehefin 2fed, 1799. Yr oedd yn weinidog parchus, duwiol a thalentog.* Mae darllen ei gyfnodion am ei gyd-fyfrwyr, ei destynau a'r lleoedd y pregethau arnynt, a'i brofiad yntau ar yr adegau hyny, yn ddyddorol a llesol.

Mr. DAVID WILLIAMS, yr hwn yn ei ddydd oedd yn un o brif lenorion Ewrop, ond gan y ceir ysgrif arno gan arall ni ychwanegwn. Nis gellir disgwyl eglwys luosog yma, mae y trigolion yn y cylch uniongyrchol yn hytrach yn lleihau, a chapeli wedi cael eu

* Thomas Morgan's MSS.

hadeiladu yn fwy cyfleus i'r bobl; ond etto mae yr eglwys yn dal ei thir, a chynulleidfda dda, ag ystyried yr amgylchiadau yn dod at eu gilydd i addoli Duw ein tadau.

Mae rhai ffeithiau hynod yn gysylltiedig â hanes yr hen eglwys hon a allont fod o ddyddordeb i'r oesau a ddol i gael cipdrem ar "Gymru Fu." Nodwn un:—Yr oedd Mrs. Morgan, Watford-fawr, yn aelod ffyddlaw a pharchus o'r eglwys—cyfranai bunt y mis at yr achos, a chiniaw da ynghyd â pheint o ddiol frâg bob Sabbath i'r pregethwr, ac yn ol ei syniad hi yr oedd y ddiol yn llawn mor angenrheidiol a'r ciniaw. Aeth rhai yn naturiol i gredu os oedd peint o ddiol yn anghenrheidiol ar y pregethwr gyda chiniaw y buasai yn dda iddynt hwythau i gael peint os ewyllsient cyn neu ar ol y gwasanaeth. A thrwy ddylanwad gwr cyfrifol yn y gymydogiaeth, yr hwn, er nad oedd yn aelod, oedd yn rheoli llawer ar yr eglwys trwy gyfringau: codwyd trwydded i werthu diol gadarn, a gwnawd un o'r tai oedd yn yr ymyl yn dafarndy, a byddai rhai gweiniogion yn troi iddo cyn ac ar ol yr oedfaon. Ond wedi gwneud hyn ffromodd Mrs. Morgan i'r fath raddau fel yr ataliodd ei chyfraniad misol, y ciniaw, a'r ddiol, ac nid aeth byth yn agos i'r lle. Llwyddodd Mr. B. Davies, yn amser ei weinidogaeth ef yn y lle, i gau y tafarndy yn gyfangwbl ar y Sabbath. Gwnawd ymgais droio ar ol hyny i'w gau yn hollol; ond yr oedd yr hen bobl a'u cadwai yn rhai pur eu buchedd, ac yn cadw trefn dda ar eu tŷ, ac wedi bod ynddo yn ddifai am flynyddoedd lawer, ac heb ddim i'w cynal ond a enillent oddiwrth y fasnach. Passiodd y mwyafrif iddynt gael aros ynddo, fel yr oedd; ond ar ol eu dyddiau hwy, nad oedd i fod mwyach yn dyfarndy ar un cyfrif. Ond mae y weddw yno heddyw, a'r tafarndy, fel y cyfryw, wedi ei gau yn llwyr ac am byth. Er clod i'r eglwys dylid hefyd nodi ffaith arall cysylltiedig a thrafodaeth y tafarndy. Am rai blynyddoedd cyn ei gau gwnawd cynygion profedigaethus iawn i'r gweinidog a'r eglwys (a thu ol i'r cynygion hyny yr oedd dylanwad rhai diaconiaid o eglwysi eraill) am iddynt ganiatau i'r drwydded gael ei symud i le arall. Un tro cynygiwyd £500 i'r eglwys i wneud â hwy yn ol fel y buasai da yn ei golwg. Ond er ei chrol gwrthododd. Cynygiwyd dro arall dalu yr hyn o ddyled oedd yn aros yr adeg hono, sef £150, a chodi ysgoldy yn ochr y capel; ond gwrthodasant hyny hefyd, er yn cael eu hannog i dderbyn y telerau gan swyddogion eglwysi eraill. Llefara hyn yn uchel am eu syniadau iach a phur—am arian wedi cael eu casglu trwy y fasnach feddwol. Ymataliwn rhag cofnodi dim ychwaneg o herwydd prinder lle.

Eglwys, Gweinidogion, a Mynwent y Groes Wen.

SAIF pentref bychan glanwedd y Groes Wen ar lethr y bryn uwchlaw dyffryn Caerffili, lle gaiff ei hynod yn benaf, efallai, ar gyfrif ei gastell, ei gawcwn a'i gaws. Wrth gefn y Groes, er ei diogelu rhag palf ac oerni yr arth, ceir rhimyn o fynydd noethlwm, a thremia ei gwyneb hyderus haf a gauaf i gyfeiriad toriad y dydd. Deilliodd sylfaenywyr Eglwys Annibynol y Groes Wen o Watford, a hyny ar gyfrif tri rheswm, heblaw diddymiad Deddf y pum milltir. Yn gyntaf, cydymdeimlent ag yspryd bywiog y Diwygiad Methodistaidd; yn ail, Calfiniaid oeddynt o ran eu credo duwinyddol; ac yn olaf, gwahaniaethent mewn barn oddiwrth y Parch. David Williams, gweinidog llafurus yr eglwys hono. Dyn sydd hyd yn hyn heb ddyfod i'w etifeddiaeth.

Corpholwyd hwy yn Eglwys gan yr Hybarch Edmund Jones, Pontypool, neu Yr Hen Brophwyd, yn y flwyddyn 1742. Wrth ranu yr ordinad, trodd at y praidd bychan, gan eu cysuro gyda'r geiriau:—"Wel, gyfeillion, peidiwch a llwfrhau, er mai nifer fach ydych yn dechreu yr achos, *dim ond un-ar-ddeg!*" Oherwydd un-ar-ddeg ydoedd nifer y *gwir* ddisgyblion yn cyfranogi gyda'r Arglwydd Crist yn y cymundeb cyntaf. Gan hyny, byddwch galonog. Ceir gweled y fechan yn fil, y wael yn genedl gref, a'r Groes Wen yn fam i dyrfa fawr."

Gweinidog cyntaf yr eglwys ydoedd—Y Parch. WILLIAM EDWARDS, bachgen o'r lle, wedi ei eni yn y Ty Canol, ffermdy cyfagos. Torwyd y corn olew ar ei ben, yn unol â chyfarwyddyd dyn Duw o'r Trans—un o gymeriadau rhyfeddaf a goreu ei oes a'i genedl. Caiff Mr. Edwards ei adnabod ar faes hanesiaeth arwrol wrth yr enw cymwys a tharawiadol "Adeiladydd at ddeufyd"—"The builder for both worlds." Ganwyd ef yn y flwyddyn 1719, a bu farw ei dad tra nad oedd efe ond dwy flwydd oed. Pan oddeutu un-ar-bymtheg dechreuodd ymhoffi yn y gwaith o adgyweirio y gwàliau cerig oedd yma a thraw ar hyd tyddyn ei fam weddw. Enillodd ei waith sylw a chymeradwyaeth y cymydogion yn ddiymdroi—a gwelai y manylgraph fod yn y llange dalent neillduol at adeiladu. Daeth yn fuan yn bengwaliwr yr ardal, a rhoddai ddiwrnod am gyflog i hwn ac arall. Gwaith sych oedd gan William hyd yma,



No 1



No 7



No 2



No 3



No 8



No 4



No 5



No 6

WM. EDWARDS.
MOSES REES.
WM. NICHOLSON.



GRIFFITH HUGHES.
W. CALEDFRYN WILLIAMS.
C. TAWELFRYN THOMAS.

Groes ŷden ai Gweinidogion,


o 1745 hyd 1904.




No 1



No 2



No 7



No 8



No 3



No 4



No 5



No 6

WM. EDWARDS.
MOSES REES.
WM. NICHOLSON.

GRIFFITH HUGHES.
W. CALEDFRYN WILLIAMS.
C. TAWELFRYN THOMAS.



acw, fel yr arweinid ef gan ragluniaeth, yr oedd yn adeiladu y saint, mewn rhyw pwlpudd neu gilydd, lle bynag y caffai ddrws agored ar y Sabboth. Ordeiniwyd ef yn y Groes Wen oddeutu y flwyddyn 1745, a pharhaodd yr undeb dedwydd rhwng yr eglwys ac yntau am ddeugain mlynedd. Tueddai at fod yn Galfnaid o ran ei ogwyddiadau duwinyddol. Pregethai yn gyfan a threfnus. Estynai ei law i'r tylawd, a safai fel y dur o blaid yr hyn a gyfrifa yn gyfiawn. Yr oedd yn Ymneillduwr cryf a phenderfynol, a chofnodir ei enw ef yn mysg yr 125 enwir o Gymru ar faes brwydr iawnderau yr athraw a'r pregethwr. Bu farw ym Mryn Tail ar y 7fed o Awst, 1789, a chladdwyd ei weddillion cysegredig ym mynwent Eglwys Ilan, pryd y gwnaed cyneu mawr o'i ôl, gan gerfio y llinellau canlynol ar ei fedd-gist:—

In Memory of
The Rev. WILLIAM EDWARDS,
of this Parish, who departed this life, August 7th, 1789
Aged 70 years.

“One loved of Christ that lieth here,
The Cross of Christ his heart did cheer
The cause of Christ he did maintain,
To live was loss, to die was gain.”

Hunodd ei gydlafurwr—

Y Parchedig THOMAS WILLIAMS.

Dyn doeth a da arweiniai gyfarfodydd yr wythnos yn y Groes Wen ar gyfrif absenoldeb mynych Mr. Edwards, wrth ddilyn y gressff symudol o adeiladu pontydd yma ac acw; ychydig o flwyddi o'i flaen ef. Beth ydoedd galwedigaeth fyddol y gwr hwnw, nis gwyddom i sicrwydd—ond erys traddodiad ar lufar gwlad, mai efe wnaeth y sffram bren leolid ar y cychwyn o dan fwa enfawr Pontypridd. Claddwyd yr hyn oedd farwol o Thomas Williams, yn mynwent Capel Annibynol y Cymer, fel y gwelir yn y darlun o “Anibynwyr y Groes Wen o 1746 hyd 1900.”

A flaith hynod yw, mai ar ddydd angladd y Parch. W. Edwards, yn mynwent eglwys y plwyf y torodd y syniad newydd a beiddgar o sicrhau Claddfa Ymneillduol wrth eu capel hwy eu hunain ar feddyliau hen grefyddwyr eiriasboeth y Groes Wen. Ar y pryd, meddis, meddienid y gwyddfodolion yn y cynhebrwng gan deimladau drylliog a chyffrous. Canent, neidient, a gorfoledent o gwmpas yr elor a'r arch. Tebyg i hyn gynhyrfu hen ddyd y curad—gwr o'r enw Jacob—oedd yma ar y pryd yn gwasanaethu o dan ac yn absenoldeb y periglor, y Parch. Thomas Richards, Coychurch. Wedi methu ymatal yn hwy, ebai un o'r diaconiaid wrtho:—“Os cawn lonydd genych ni a'i claddwn ef ein hunain, ac os myn Duw, ni ddeuwn i ymofyn eich gwasanaeth anharchus chwí mwy!” Pan wrth y gorchwyl o arloesi Tir Claddfa y

Groes Wen, “THE WESTMINSTER ABBEY OF WALES,” fel y cyfenwid hi yn y *Morning Leader* y dydd o'r blaen.

“Hen fynwent y cyfiawnion—y llanerch,
Lle huna enwogion;
Rhyw wely i anfarwolion
Yw enw tir y fynwent hon.”

Safai Dr. David Edwards, Caerffili (un o disgynyddion yr hen weinidog) ar ei farch gyferbyn a'r mur, a gwaeddodd:—“A yw y lle yn barod? Gwnewch frys, fechyn, bydd arnaf fi eisieu man i orphwys un o'r dyddiau nesaf!” A syndod meddwl, efe gafodd ei gluddu gyntaf yn ei gweryd, fel blaenffrwyth i'r “marwolion anfarwol,” ys dywedai Emrys, ag sydd wedi ei chysegru.

“Llwythog yw'r pridd bob llathen—o lwch beirdd,
Gloewach byd; mae'r Awen
A rhyw barch i'r dywarchen,
A'r gro sy' ar y Groes Wen!”

Yn yr argyfwng rhwng marwolaeth y gweinidog cyntaf ac urddiad yr ail, bu yr eglwys fel llawer i weddw ieuangc anturiaethus o'i hol mewn gohebiaeth garwriaethol frwd gydag aml i ymwelydd gwibiog. Yn y cyfamser, daeth ysgolfeistr i'r ardal, yr hwn oedd grachfeddyg dan yr un a gyfenwid “Dr.” Prosser. Dywedodd wrth y swyddogion, ac eiliwyd ef gan Rhys Davies (glún bren) fod yno ryw fachgen wedi dechreu pregethu gyda'r Annibynwyr, rhwng Sir Gaer ac Aberteifi, o'r enw GRIFFITH HUGHES, yn sicr o lanw yr adwy—

“Swyn ei araeth yn synu, - a'r uchaf
Ei archwaeth yn gwenu—
Ffraethineb o neb nabu—
Dyn o'i fath mewn dawn ni fu.”

Anfonwyd i gynyg Sabbothau iddo. Daeth yma, gwelodd, a gorchfygodd;—

“Wrth ddyd siaradai, ie, siarad wmai;
Y goraf air ar gael mewn iaith bob tro,
A hwnw mewn aceniad chwyrn a chryf.
Siaradai fel meddyliai, gyda rhwysg;
Siaradai fel y teimlai, gyda gwres;
Siaradai'r rhaiadr yn rhaiadr mawr ei hun;
Siaradai Sinai pan yn Sinai'r oedd;
Siaradai wawl y nef pan yno'r iai;
Siaradai uffern fel bydd Etna'n gwneyd.”

Ganed y gwr parchedig rywbryd yn y flwyddyn 1775, mewn bwthyn bychan ar dyddyn Penywaun, Cwmifor, Plwyf Llandeilo Fawr. Ceid yno y pryd hwnw bump o dai, y rhai sydd wedi diflanu fel mwlwg

erbyn heddyw, a'r canol o'r rhestr a gyfenwid yn Dŷ'r lloi. Safai mewn pantle, llaith, cleiog, oddeutu deg neu ddeuddeg modfedd islaw arwynebedd y ffordd. Yr oedd gardd braf o'i flaen, a llwybr o ddrws y tŷ, rhwng yr adeilad a hithau i'r brif heol. Adeilad pridd ydoedd Tŷ'r lloi, gyda muriau isel, a dwy ffenestr i'r perwyl o'i oleuo. Un ystafell oedd yr anedd hono, heb na llofft na siamber. Yr oedd pen mawr gan y tŷ, a simddeu o ddellt fel *box hat* ar ei wegil! "Yno y ganwyd hwn." Aelod o Eglwys Annibynol Crug-y-bar oedd ei fam, a thebyg iddo gladdu ei dad yn mlodau ei oes. Trwy nad oedd hi yn credu mewn byw yn foethus, gan fwyta bara seguryd, prentisiodd ei mab gydag ystarniwr neu banelydd (saddler yn awr) o Llansadwrn, er dysgu y grefft o wneyd cewyll gwial a chyfrwyau coed, wedi eu clustogi oddifewn gydag asgell uchel, fwäog, yn ol a blaen, er eu haddasu at y gorchwyl o gario pynau. Enw ei feistr ydoedd Evan Rhydderch, tad Mrs. Ann Jones, Godreu'r-mynydd, neu Nancy Crugybar, fel câ ei ferch ei hadnabod oreu, gan fod "Guto bach Tŷ'r lloi" yn ddarllenwr o'i febyd, aml ofyr iddo fe ymgymeryd a'r gwasanaeth o ddarllen penod ar y ddyledswydd deuluaid, ond yr oedd ei anianawd gregwrus lawned o aspri a mellith, fel, pan geisid ganddo ddarllen Salm fer, ond odid mai un o'r pennodau hwyaf yn y Bibl ddetholid ganddo, ac erys traddodiad pell, iddo ddarllen y Salm fawr o'r Aleph i'r Tau, un boreugwaith yn amser y fedel wenith! Ond bu y brophwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo, yn ogystal a'i hymarweddiad cyson, fel dwy ganllaw er ei ddiogelu rhag afonydd y fall. Tra yn cyfaneddu o dan y gronglwyd hono, gan ddilyn moddion gras o dŷ i dŷ, cafodd y fraint o ymgynabyddu â rhai o gymeriadau hynotaf ei oes a'i genedl, megis Dafydd Sion Emwnd a Nancy Jones, personau ag y mae persawr eu coffadwriaeth yn glod i Anghydfurfiaeth Gymreig. Adwaenid Esgob Annibynol Crugybar ar y pryd wrth yr enw syml Isaac Price, Llanwrtyd. Breintiwyd ef â chorff lluniaidd, wyneb prydferth, gorlawn o fynegiant, trwyn Rhufeinig, llygad byw, eryraidd, a llais fel udgorn Sinai. Arferai gerdded llawer yn droednoeth, ei hosannau yn ei logell, a'i esgidiau yn hongian ar ei ysgwydd, wrth gadw ei gyhoeddiadau. Pan dramwyai drwy bentref Llangammarch un diwrnod, gwaeddodd Thomas Prees y Crythor o'i ol: "Isaac Price, aroswech!" "I ba beth?" ebai yntau. "Wel, yr ydych wedi dwyn y bobl oddi arnaf eisoes" oedd yr ateb, "a waeth i chwi bellach fyn'd a'r *fiddle!*" ac anrhegodd ef yn y fan a'r lle gyda'r crwth! Iddo ef y canodd Dafydd Jones o Gaio, cyfieithydd emynau Watts i'r Gymraeg—yr hên driiban cellwaigrnôawl:—

"Pan ddeuai Isaac gynta',
Cawn ganddo ambell oedfa;
Ond 'n awr mae pob proffeswr neis
Yn myn'd a Price oddi arna'!"

A rhyw noson o'r wythnos, mewn amaethdy gwledig ar lan afon Towy, o dan weinidogaeth Isaac Price, pryd yr oedd tanllwyth ar aelwyd Sion:—

"Roedd gwynt diwygiad ar ei daith,
A deri Cymru'n gildio;
Tra sain gorfoledd yn y dail,
A swn canghenau'n cracio!"

Yn laslanc gwael yr olwg, gyda'i lygaid yn gochion a dolurus, am ei fod yn darllen cymaint yng ngoleuni'r tân, ar ei orwedd ar y llawr, ei draed at y drws a'i ben yn ymyl y twll lludw, ar aelwyd ei fam, am y rheswm da nad oedd ganddi hi nag yntau fodd i brynu canwyllau, y cafodd Guto bach y cipdrem gyntaf ar ei gyflwr. "Nid pigad draen," eb efe wedi hyny, "ydyw edifeirwch; ond mae o'n frath cleddyf!"

Ac os gweithiodd nebun erioed werth tamaid o swper, croesaw gwr y tŷ, a noson esmwyth o gwsg, yn bendifaddeu yr oedd Isaac Price, Llanwrtyd, wedi gwneyd hyny yng Nglan Towy y noswaith hono. "Yno y ganwyd hwn." Ac os na fedrai ein harwr ddweyd fel Paul, ar ol croesi bwch yr adenedigaeth, "A minau a fŷm farw," gallai dystio yn ddios gyda'i gyfoed Harris o'r Morfa, "A minau a fŷm yn *sâl* iawn, iawn!" Ac yn y salwch hwnw, yn hogyn pymtheg oed, ar noson cyfeillach yng Ngodreu'r Mynydd, er gwaethaf bychandra ei gorph, ac iselder ei amgylchiadau, fenderfynodd fwrw ei goelbren gyda saint y Goruchaf. Edrychwech arno, yn dynesu at y drws, ychydig yn ddiweddar, o dan leni y tywyllwch, yr un fath a Nicodemus, "Yr hwn yn gyntaf a ddaethai at yr Iesu liw nos," a rhwng yswildod ac ofn yn methu agor y gloig! Fel y digwyddodd o du'r ddaear, ac fel yr arfaethwyd o du'r nef, gorfu i Mrs. Jones (gwraig y tŷ) fyned allan i'r buarth, ac er ei syndod gwelai egwyddorwas ei thad yn ystelcian o gwmpas y beili. Cydiodd yn ei fraich fel ceisbwl, arweiniodd ef i'r parlwr, a chyflwynodd ef i'r frawdoliaeth, yn garcharor ofnus mewn mwy nag un ystyr, gan sibrdw yng nghlust Mr. Price, "Gofynwch i'r bachgen bach hyn pa beth mae e'n geisio?" Ac nid hir y bu yntau yn aelod o'r eglwys hono cyn argyhoeddi pawb ei fod *yn ceisio* rhywbeth! Er cael mantais i'w adnabod yn y tŷ yn ogystal ag yn y capel, gwahoddodd y gweinidog ef am fis i'w gartref, nes y trodd y farn uchel a goleddai am ei disgybl yn rhywbeth cynesach a mwyfwy cysegredig, a phan ddaeth tro Mr. Price i fod yng Nghrugybar drachefn yr oedd ganddo bregethwr newydd danlli i'w gyflwyno i'r dorf. Gan fod yr oedfa hwyrol i'w chynnal yn Mhistyll Gwyn, lle yr oedd boneddwr o gryn gyfrifoldeb yn trigianu. Cynghorai y gwr hwnw a'r hen ddiaconiaid eu gweinidog i anfon ei gydymaith i Jericho, er i'w farf dyfu, yn hytrach na'i osod ar waith mewn man ac ar achlysur mor bwysig. Ond nid corsen yn siglo gan

wynt ydoedd Isaac Price. Yr oedd Guto bach wedi ei gyfoeddi i bregethu, a phregethu oedd i fod! Aeth yntau drwy ei brawf mor syml, effeithiol, a diymhongar oddiar y frawddeg, "*Mana yw,*" nes yr enillodd ei holl wrthwynebwyf i'w gefnogi, yn arbenig felly Mr. Lloyd, yr hen amaethwr bonheddig a rhadlon o'r Pistyll Gwyn.

O ran ei ymddangosiad corphorol, dyn bychan, byr, ac eithriadol o dew, ar ol iddo orphen prifio ydoedd Hughes o'r Groes Wen. Ceisiodd rywbrdy yn Nhreforris osod y Parch. J. Taihirion Davies (wedi hyny) i eistedd ar ei lin—ond trwy nad oedd ganddo lin ar ei elw, troes yr ymgais yn fethiant chwerthinus i'r eithaf. Efe dorodd i lawr wrth bregethu yn Rhydybont, Chwefror yr 22nd, 1797, pan dorodd y newydd brawychus ar gysegrwydd y gwasanaeth crefyddol "fod y Ffrancod wedi glanio yn Abergwaun!" ac yr achubwyd pen yr oedfa gan Nancy Jones gyda'i hemyn parod a chymwys:—

"Duw, os wyt am ddybenu'r byd," &c.,

hyd nes yr ail-enynodd dawn Duw, meddai yr hanes. Hebryngodd y wraig dda hono ef o Sir Gaerfyrddin bod cam i'r urddiad yn y Groes Wen, Morganwg, a chlywid hi yn gorfoleddu yn un o'r oedfaon gan floeddio—"Yr wyf wedi cyfarfod âg aml i groes *ddu* mewn bywyd, ond dyma i chwi Groes *Wen* o'r diwedd! Gogoniant!" Traddodid siars i'r pregethwr ieuangc gan ei hen weinidog, ac eb efe, yn mysg pethau eraill:—"Byddwch gall, oblegid tra y mae-gras yn bwysigach na synwyr cyffredin i ddyn fel Cristion, y mae synwyr cyffredin yn bwysigach na gras i ddyn fel gweinidog. Byddwch yn gall!"

"Nid oedd yr eglwys," ebai y diweddar Barch. Df. Jones, Aber, "yn ymfyn am un i'w llywodraethu, ond i'w dysgu, ei dyddanu, ac i dori iddi o fara y bywyd. Yr oedd wedi arfer cadw disgyblaeth heb gynorthwy gweinidog. A da iawn fyddai i'r eglwysi Cynulleidföol oll gymeryd yr un dull, a pheidio gosod eu gweinidogion yn sathrfa i bawb fyddo yn cael eu dwyn dan ddisgyblaeth." Ac er cymaint ddisgywyld oddi wrth ein harwr ar ei gychwyniad, ni chafodd neb achos i fod yn siomedig ynddo ar gyfrif ei ymdrech na'i gynydd. "Bu yn fraint fawr iddo," meddai Williams, Troedrhiwdalar—mewn gohebiaeth at Ty'nywern—"gael myned i letya i dŷ yr hen weinidog, braidd cystal a myned drwy y Coleg; yr oedd felly yn cael gwasanaeth llyfrgell yr hen bererin oedd yn y bedd! Yr oedd yr Edwardsiaid yn ddynion talentog—wedi cael manteision addysg . . . Fel yr oeddynt hwy yn dalentog a hawddgar i gyfranu dysg, a Mr. Hughes yn dalentog i'w derbyn, felly daeth yn un o enwogion penaf ei oes." Dysgodd y Geiriadur Cymraeg a Saesonaeg o'r A i'r Y ar ei dafod leferydd! Adroddai y diweddar Dr. Rees, Abertawe, wrth ddarlithio ar "Griffith Hughes a'i gyfoedion"—am dano ei hun yn fachgen tlawd anwybodus

yn cerdded o Graigybargoed at Mr. Hughes, gyda llon'd ei logellau o eiriau Saesneg mawr a diethr i ofyn am eu hystyr. Wedi eu cyfieithu yn syml a dirodres, dywedodd ein harwr o dan chwertthin, iddo ef gael cryn drapherth wrth drysori y Geiriadur yn ei gôf. Ond raid i chwi ddim ymgymeryd â'r gorchwyl hwnw byth;" ychwanegai, "ac er mai fi o'r awr hono allan, ydyw meistr y geiriau mawr yna, Sally yma," meddai, gan gyfeirio at ei briod, "pia hi o ddigon gyd golwg ar y *small change*?" Ar ddyfodiad Christmas Evans i Gaerfili, myntumiai engyl y newyddion drwg yr edwinai seren lachar y Groes Wen yn ei ymyl, ac y boddid mawl yr Annibynwyr ar lethr y bryn, gan ferw gyroedd yn neidio i'r tonau wrth ei droed yn Nhonyfelin. A bu rhywun yn dligon prysur i gario yr ofnau gartref i'r Tŷ Newydd, preswyl Mr. Hughes. "O! raid i chwi byth," oedd yr ateb. "Gwerthu rhubanau y mae ef, ond y brethyn goreu, *West of England*, sydd genyf fi, ac am y bobl, welais i wyau ier erioed eto yn troi yn gywion hwyaid." Cwrddodd y ddau gawr yn y Tŷ Isaf i gyd-bregethu ryw noson, a chan fod Mr. Hughes ychydig ar ol ei amser yn cyraedd i dŷ, gofynodd y Trochwr iddo braidd yn ddreng: "Lle buost ti efd, Guto?" "Yn y fan a'r fan" oedd yr ateb, "yn bedyddio'r baban." "Welast ti arwyddion edifeirwech arno fo, dywed?" "O! do," meddai yr Annibynwr, "yr oedd e'n llefain dros y tŷ i gyd!" Adroddai y diweddar Dr. John Lewelyn wrthyf am dano yn pregethu i'r clwb ryw dro yng nghapel enwog Tonyfelin, wedi ymadawiad yr hen Christmas, pan oedd y Parch. John Williams, Drefnewydd (Rhosllanerchrugog wedi hyny) yno a'r brawf. Yr oedd Hughes wedi darllen ei destyn ac yn gollwng ffrydlif o fraethineb o hyawdledd allan cyn i'r gŵr diethr ddod i'r capel; ond pan ddeallodd efe fod Cyfieithydd "Yr Oraclau Bywiol" yn ei wrando—newidiodd ei dôn, gan ddechreu siarad fel athronydd, ffurfio *definitions* cywrain a galluog o bethau dyrus a dyfnion, nes oedd yr ymwelydd ysgolheigaidd, modd y cydnebydd Cynddelw yn ei gofiant, wedi synu! Wrth dynu at y terfyn, troes at y gwrandawyr, gwenodd; ac eb efe: "O ran hyny, wyddoch chwi ddim beth own i'n ddweyd yn awr, ond mae nhw ar y *gallery*," ychwanegai, gan nodio ar Mr. Williams, "yn gwybod o'r goreu." "Y dyn mawr hwnw" y galwai J. P. Davies (B) Tredegar, ef wrth un o'i hen aelodau—a thystiai Morgan Howells, na wyddai efe "am neb oedd yn ail i Hughes o'r Groes Wen." "O ran ei arddull," ebai Griffiths o Lanharan, "yr oedd ei ddrychfeddyliau disglaer a'i ymadroddion detholedig yn cynyg eu hunain i'r pregethwr, ac yn cael eu cynyg eilwaith gan y pregethwr i'r dorf fel pe am y cyntaf. Yr un fath a gollyngiad argae. Yn debyg iawn fel y gwelsoch yrr o ddefaid yn ochrau eu gilydd ac ar gefnau eu gilydd, yn ymwrthio drwy fwelch mewn clawdd." "I well remember," ysgrifennai Dr. T. W.

Jenkins, F.R.G.S., F.G.S., yn yr "*Homilist*," Vol. III, p. 210, wrth adolygu Cofiant Saesonaeg Kilsby ar ol Williams o'r Wern, "one of his first visits to South Wales. I attended a large 'assembly' held either at Llanwrtyd or Troedrhwdalar in 1808 or thereabouts, when I myself was a boy-preacher, and the 'famous Williams of Wern'—the 'Pelagian' was to be one of the preachers. At that meeting the Rev. Griffith Hughes of Groes Wen, an eloquent man, an able divine, and a high Calvinist, preached on 'God worketh in you to will, &c.' The sermon was a masterly demonstration of the sovereignty and arbitrariness of divine influences, and of the perfect passiveness of man in conversion." Rhydd y difyniad fantais ini farnu safle Mr. Hughes fel pregethwr a duwinydd ar y cyfnod hwnw o'i oes. Enillwyd ef wedi hyny i dir llawer mwy cymedrol. Beth oedd yn cyfrif am y cyfnewidiad, nis gwyddom, ond mae genym le i dybio fod llawer iawn a wnelai Mr. Williams o'r Wern gyda'r gorchwyl dan sylw. Yn fuan iawn wedi'r digwyddiad yna, aed i ddechreu ei ddrwgdybio a'i ddrwgliwio yn y fargen, ei fod wedi llyngcu Fulleriaeth, neu y system newydd—Calafiaeth gymedrol, fel yr adwaenir hi bellach, a gorfuyd ef i ddiodeff cryn sarhad ar y pen hwnw mewn cynadledd Cymanfa yng nghylchoedd Abertawe. Ym mhrig yr hwyr arweinid ef i bregethu yng Nghapel cysegredig Mynydd Bach, a digwyddodd ddifynu ar weddi y frawddeg ogleisiol yn yr oes hono—"Ac Efe a fu farw dros bawb." Wedi arafu gronyn fel dyn mewn dyryswech, ychwanegodd eil-waith, "Chaen ni ddim dweyd peth fel yna yn y gynadledd gyneu, ond bendigedig y ho, mi allwn anturio d'weyd yr un fath a'r apostol, o dan ein hanadl ym Mynydd Bach yma heno, 'Ac Efe a fu farw dros bawb'!" Yng ngwanwyn 1811, er atal Eglwys Annibynol Llantrisant i fyned i'r clawdd, aeth ar daith gasglyddol drwy'r Gogledd; a rhyw foren Llun, mewn cwrdd gweinidogion, aeth Williams o'r Wern i'r areithfa o'i flaen, gan ddechreu pregethu yn deilwng o hono ei hun; ac wedi iddo brin agor ei fater, gan ranu ei destyn, dywedodd, "Chwi welwch fod yma wr dieithr o'r Deheudir i ddwad ar fy ol i. Yr ydw' i wedi ei ganlyn o am wythnos, ac mi dybies yn siwr yr aethe fo i waelod ei sâch yn Ninbech neithiwr, ond yn lle hyny yr oedd hi cyn llawnd ag erioed! A 'dw'n i ddim pwy enw i'w roi arno fo, os nad 'Hughes dragwyddol'!" Ar un o'i deithiau olaf i Forganwg, anfonodd yr Efenglydd mwynher o'r Wern ei gyhoeddiad i'r Groes Wen, am un-ar-ddeg boreu dydd gwaith, er canu yn iach i Mr. Hughes a'i ddiadell, cyn i Yspryd yr Arglwydd ei gipio ef ymaith. Pan gyrhaeddodd yr hen chwaer adroddai yr hanes wrthyf i'r capel, gyda brawd iddi oedd yn wrandawr goleu a chraff, yr oedd y cwrdd ar waith, a boneddwr eiddil, enillgar a golygus yn anerch y gynulleidfa, ac

yn siarad yn ddaiil. Eisteddai henafgwr brigwyn wrth ei gefn, yr Hybarch Michael Jones, Llanuwchllyn, a chasglodd ei brawd a lithau mai Mr. Williams ydoedd hwnw. Wedi i'r pregethwr gynhesu, troes Francis at ei gyfnasaf gan sibrd, "Mi gaiff Williams o'r Wern *job* i dd'od fynu â hwn." "Williams o'r Wern ydyw hwn," oedd yr ateb. "Mae yr hen wr mawr tew yna wedi mynu pregethu o'i flaen." Ar ol yr oedfa cychwynodd Mr. Williams ar ei geffyl i gyfeiriad Dyffryn Tâf, a hebryngodd Mr. Hughes ef ar ei gaseg fonglwyd i ben y rhiw, ffordd yr eir i Nantgarw. Yma saif y ddau gadfridog, fel y cawn ni ddarlun o Wellington a Blucher yn sefyll wyneb yn wyneb ar faes Waterloo, ar bobo geffyl, a llaw y cyntaf yn llaw y diweddfaf. Edrychodd Williams yn llym ar Hughes, ac eb efe, "Ffarwel, frawd anwyl, hyd ddydd mawr yr ymweliad," a thorodd i lawr gan wylo yn hidl. "O! na," meddai'n harwr, gyda llynynau ei wyneb yn llacio, a'i wefus isaf yn crynu, "gobeithio y cawn ni gwrrd eto maes o law." "Na chawn byth," oedd yr ateb, "hyd ddydd mawr yr ymweliad," ac aeth ef i'w daith gyda'i deimlad wedi ei lethu, gan adael Hughes a'r ardalwyr mewn edmygedd hiraethus i sylldremio o'i ol. Pe yn *artist* buasai yn hyfrydwch pruddaidd genyf daflu yr olygfa a nodwyd ar ganfas. Cyn i'r dorf ymwasgaru daeth ceidwad yr athrawiaeth i'w mysg gan gyfarch y gweinidog gyda'r frawddeg, "Ticyn o Fuller oedd e'r boreu yma hefyd." "Beth wed'soch chi," ebai Hughes, fel dyn wedi deffro o lesmair, "mai ticyn o Fuller oedd y pregethwr heddyw." "O! ie," oedd yr ateb, "un *full* iawn oedd Mr. Williams erioedd!" Dranoeth galwodd udgorn arian Castellnedd, yr anfarwol Daniel Griffith yn y gymydogeath, ac eb efe wrth y ddiweddar Pegg Adams (coffa da am dani), yr hon a'n cynys-gaeddodd a'r hanes, "Mi fu Mr. Williams o'r Wern yn y Groes ddoe, do fe ddim?" "Do, syr," ebai lithau. "Beth oedd ei destyn, Pegg?" "Cyfraith yr Arglwydd sydd berphaith, yn troi yr enaid." "Oh!" meddai yntau yn sychlyd, gydag ysgorn, "Y fo oedd yn eu troi nhw acw?" Tebyg mai testyn Mr. Williams yn Soar un o'r nosweithiau blaenorol ydoedd, "Fy mrodyr anwyl, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn oddiwrth y gwirionedd, a throi o ryw un ef," ac fod y bregeth hono yn rhy Arminiaidd i ateb archwaeth llaweroedd. Mewn ysgrif feistrolgar ar fywgraphiad Christmas Evans yn y *Beirniad* am Ionawr, 1864, dywed yr adolygydd, "Ymddengys i'w angylechiadau gwasgedig ef, yn hytrach na chyfyngu cylech ei ddefnyddioldeb, ei eangu yn fawr. Dichon pe buasai ei goelbren yn syrthio mewn eglwys liosog a chyfoethog, neu pe buasai yn briod â gwraig waddolog, y buasai yn llechu mewn rhyw gongl am ei oes, ac y cawsai ei athrylith ogoneddus ei chadw byth allan o olwg y genedl. Felly yn gywir y digwyddodd gyda y gwr tebygcaf iddo, sef yr athrylithgar Griffith Hughes o'r Groes

Wen. Yn ei alluoedd areithyddol, ehediadau dychymyg, a thân barddonol, nid oedd Hughes un gradd yn is na Christmas Evans. Ac mewn pereidd-dra llais a ffraethineb, yr oedd yn ddigon o'i flaen. Ond nid oedd nemawr o'r tu allan i derfynau rhanau o Forganwg a Mynwy yn gwybod dim am enw Hughes, tra y mae enw Christmas Evans drwy holl Frydain ac America. Pa fodd yr ydym i gyfrif am hyn? Fel y canlyn:—Aeth Hughes yn llange tylawd unieithog, ond yn gronfa ferwedig o athrylith a ffraethineb, at eglwys barchus a chref, ac ewyllysgar i'w gynal yn gysurus. Cafodd yno ar ol ei ragflaenor yn y weinidogaeth, o ddau i dri chant o gyfrolau gwerthfawr, gan mwyaf oll yn yr iaith Saesneg. Ymroddodd ar unwaith i ddysgu yr iaith hono, mewn trefn i allu defnyddio y llyfrau; aeth yn fyfyrwr diail, ac yn bregethwr na chredai y bobl fod ei well yn y byd. Cafodd nŷth gynes, ac yn hono y llechodd drwy ei oes. Nis gwyddom iddo ymweled a Gogledd Cymru ond unwaith yn ei fywyd; ac anfynych iawn yr ymwelai ag un parth o'r Deheudir, ond y rhanau nesaf ato o Forganwg a Mynwy. Gosododd ei ganwyll oleu i raddau mawr o dan lestr; ac felly syrthia ei enw, er rhagored dyn ydoedd, yn fuan i ebar-gofiant. Nid felly Christmas Evans. Gorfodwyd ef gan dylodi i deithio y rhan fwyaf o Gymru unwaith bob blwyddyn, naill ai i gasglu at gapeli a adeiladasai, neu i werthu rhyw lyfryn, er estyn tipyn ar ei gyflog fechan. Trwy hyn gloewodd ei ddoniau, bendithiodd ei genedl, a gwnaeth yn ddifwriad iddo ei hun enw anfarwol. Yr ydym yn teimlo yn ffin, wrth ddarllen am y gwasgfeuron a'r tylodi y treuliodd ei oes ynddynt; ond ar yr un pryd, nis gallwn lai na diolch i'r Hwn a oruchlywodraethodd drallodion ei was ffyddlon er lles tragwyddol i filoedd o eneidiau . . . Byddai ameu fod *gwir sawredd* yn Christmas Evans yn wrthdarawiadol i farn gyffredinol y genedl, ac i ffeithiau anwrthbrofiadwy. Ond fel pregethwr yn unig yr oedd yn fawr, ac mewn un peth, a dim ond yr un peth hwnw—sef ei ddychymyg hedegog, y tra rhagorai ar bawb o'i gyd-oeswyr galluog. Nid oedd i'w restru yn agos i John Elias, fel areithiwr; nac i Williams o'r Wern fel athronydd, duwinydd ac ymresymwr. Ond am ehedeg ar adenydd dychymyg, gan roddi darluniadau bywiog o bethau, nes llwyr orchfygu teimladau ei holl wrandawyr, y callaf yn gystal a'r ffolaf, nid oedd y naill na'r llall o'r ddau gawr hyny, na neb arall yng Nghymru, yn gyfelyb iddo, oddi eithr Griffith Hughes o'r Groes Wen. Buasai y gwr hwnw, pe gwr-teithiasai ei dalent, ac ymddangos yn fynychach ger bron y cyhoedd, yn sicr o allu ehedeg yn llawn mor uchel a'r eryr mawr o Fon."

Cafodd Mr. Hughes oedfa i'w chofo i rhawg mewn ffermdy o'r enw Senni Uchaf, Brycheiniog, wrth bregethu ar "Iawn Crist," gan ei ddis-grifio fel yr oedd yn cyfiawhau Duw wrth bardynu yn euog. "Nid

cyfiawnhau dyn (meddai) mae yr Llaw yn y testyn; ond cyfiawnhau Duw! Fel y byddai *efe yn gyfiawn*, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Ar y diwedd rho'es y penill dilynol allan:—

"Beth yw'r cynwrf rhyfedd iawn sy'n y goedwig?
Ydyw'r arfaeth fawr ei dawn ddim yn ddiddig?
Nis boddlonir mo'ni 'n llawn nes ceir gweled—
Y rhai a brynwyd un prydawn o'u caethiwed."

Pryd y gwaeddodd rhyw bererin gorfoleddus—"O! brynu! O! brydnawn!" nes gosod y marwydos yn fflam! Ar hyn, dyna enethig wylaidd, heb yn wybod iddi ei hun, yn dechreu perori:—

"Cerubiaid sy'n ymgrymu gyda seraphaidd barch,
O drugareddfa'r Arglwydd i waered at yr arch;
Yn synu! yn rhyfeddu! 'n ymgrymu wrth ei draed—
Wrth weled eu Creawdwr un waith yn gwisgo gwaed!"

Carai Rees Powell o'r Brychgoed adrodd darn o bregeth draddodasid gan Hughes o'r Groes yn ei glywedigaeth mewn rhyw Gymanfa ar "Y Ddeddf," pryd y darluniai y pechadur yn dal tyddyn oddi tani, ar lechwedd mynydd; ac wedi iddo fod am flynyddau yno, heb dalu yr un geiniog o rent, ac heb dalu unrhyw sylw i'r rhybuddion mynych a anfonasid iddo, y mae ei feistres un boreu, yn dyfod at ei dŷ â'r swyddogion gyda hi. Heria y tenant hi, gan foltio y drws yn ei herbryn, a llechu ei hunan yn y tŷ. Gwthia y swyddogion cedyrn y drws yn agored, er cadarned y byllyt a'r cloion rhydlyd. Wedi myned i fewn, y mae Cyfiawnder, y prif swyddog, yn ymaffyd yn y dyledwr gan ei lindagu, a'i lusgo allan, gan fyned ag ef i garchar. Yntau, ar ol dechreu teimlo gafaelion ofnadwy y swyddog, a waedda allan mewn llefain torcalonus am gymorth a thrugaredd. Addefa yn awr ei holl ddyled, ond cwyna nad oes ganddo ddim i'w dalu. Pan ar y ffordd i'r carchar y mae ei lefain truenus yn tynnu sylw, ac yn cyffroi tosturi boneddwr hardd yr olwg arno, yr hwn sydd yn troi at feistres y tenant tlawd gan ofyn iddi, 'Pa faint yw y ddyled?' Wedi ateb, y mae yn talu y swm i lawr drosto mewn aur pur. Yna, gwaedda y foneddiges ar y swyddog, 'Gollwng ef yn rhydd, myfi a gefais iawn!' Gyda bod y methdalwr yn teimlo fod gafaelion y swyddog yn gollwng, rheda at ei gymwynaswr gan ymaffyd yn ei draed, syrthia ger ei fron mewn pang-feydd o ddiolchgarwch, a gwaedda allan, 'Arglwydd, beth a fyndi di i mi ei wneuthur?' A chyda fod y pregethwr yn gwneyd cymwysiad o'r darlun a dynesid mor gelfydd ganddo, mae yr holl dorf yn tori allan mewn banllef o orfoledd—rhai yn canu, eraill yn wlo, ac eraill yn syrthio i lewygfeydd, gan angerdd eu teimlad!" A ganlyn sydd gof plentyn, o un o'r pregethau olaf draddodwyd ganddo foreu Sabboth yn ei bwlpud ei hun. Darlunio "Y ddafad golledig" wnelai, ebai y

cofnodydd, "wedi gadael ei chynefin, nid yn y Dwyrain ond yn ardal y Groes Wen. Dywedodd rhai o'r cymydogion wrth blant ei pherchen, iddynt glywed rhywberth tebyg i ddafad ddieithr yn brefu yn y nos, ond mai ym mlaen yr aeth. Heibio i'r Waren a Thyllau Crwth, o'r nailldu i eglwys y plwyf, nes cyraedd comin y Garth. Yr oedd erbyn hyn wedi dyrysu yn drwyadl, a chŵn yr amaethwyr yn ei hanos, ym mhellach, bellach, a dacw hi dros y wâl i'r mynydd! Ow! Ow! Duw a wŷr i b'le yr â hi mwy! Clywodd y perchen ei hynt, a phenderfynodd fyned ar ei hol—"Hyd onis caffo efe hi." Ac un boreu, gyda'i fion onen yn ei law, a'i gorgi blewog wrth ei sawdl, aiff i chwilio am dani. Clywodd iddi fyned dros Graig Smith; aeth yntau ar hyd yr un llwybr. Cwrddodd â ffermwr bychan yn y pellter, a holodd:—"Welsoch chwi ddim dafad imi ffordd yma?" "Do," meddai hwnw, "ar y pryd a'r pryd, a rhyngoch chwi a minau, mi welais wr y tŷ nesaf yn hysio y ci, *Shep*, ar ei hól." Cynhyrfodd hyn yspryd y gwr a'i collasai, ac aeth ar garlam heibio yr anaethdai cyfagos, a chomin y Garth, i fynydd Eglwys Ilan. Cadwodd ar yr aswy i'r Foel Ddu, aeth drwy y Mawn Duon, dros y Garn Foel, a heibio'r Cernydd Llwydion, "Hyd onis caffo efe hi." Wedi goresgyn crib uchaf y bryniau, cerdded gwaelodion Cwm Elen Deg, gan groesi gwâr y Pant Du, canfyddodd ryw hwdwch yn y pellter mewn llwyn o ddrynsi. Yr oedd ei awydd aniwall am y golledig y fath fel y tynai wrth reddf at y fan lle goreddei; ac ni bu yn hir, wrth ei throï a'i throï, cyn cael ei argyhoeddi yn hollol mae ei ddafad ef ydoedd. Yn wael ei gwedd, rhy wan i sefyll, ei gwlan a'i chroen yn hongian ar bob twmpath, ac ôl ymlid tost arni, a thorodd allan i waeddi, gyda deigr yn ymhob chwerthiniad, "Fy nafad I yw hi! Fy nafad I yw hi!" "Ac efe a'i dyd hi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen." Yr oedd y darlun mor naturiol, mor gartrefol, ac mor fyw, nes ffaglu y dorf, a phan droes y pregethwr i son am y Bugail Da, yn chwilio yn ddyfal a diorhwys am golledigion pechod, yn darganfod un o'u nhifer yn y lleidr edifeiriol yng nglyn isaf cwm colledig-gaeth, gan bortreidiu balchder ei fron wrth ei *hantlo* 'n dyner, gan dd'weyd, "Heddyw y byddi gyda mi ym Mharadwys," ac yn bloeddio yn berorus, "Fy nafad I yw hi! Fy nafad I yw hi!" gan ei thaffu ar ei ysgwydd, pryd y tafodd yntau ei ffinen logell dros ei ben—o gwmpas ei war—wrth berpheithio yr act, nes llwyr ysgubo pobpeth o'i flaen. Pan yn anterth ei boblogrwydd estynodd ef ac ychydig o henuriaid yr eglwys ganiatad i ryw deulu perthynol i'r gynulleidfa i gladdu gwedd-illion gwraig o'r gymydogiaeth yn y capel, heb osod y mater i gychwyn ger bron y cwrdd eglwys—nefocedd dynion cas—a chyrchfan pob ymyrwr—lle y mae gorseddfainge trais a chroesni—y neb a fo dda gan Dduw a waredir oddi wrth y cyfryw. Y Sabboth dilynol i'r angladd aeth oraclau

y cwrdd eglwys, pe cawsid un, yn un glymblaidd anfoddus i le o'r enw Tŷ Llwyd, er ffurfio achos annibynol newydd. Pan gyrhaeddodd Mr. Hughes at yr oedfa foreol, cafodd y praidd wedi ymwasgaru, un fintai ar y ffordd yn darogan dinystr, a'r fintai arall wedi ymddeol, ac yn cyhwan baniar gwrthryfel. Wedi cymeryd y sefyllfa i ystyriaeth, galwodd ein harwr y swyddogion ato, gan eu gorchymyn i'r Ty Cwrdd. "Dechreuwch y gwasanaeth," eb efe, "ac mi ddychwelaf finau mor fuan ag y gallaf." A chan anwybyddu barn a theimlad ei bleidwyr, heb ymgynghori gronyn â chig a gwaed, anelodd ar ol y sawl aethent ar ddisberod. Wedi cyraedd Tŷ Llwyd yr oedd dau frawd wedi gweddio eisoes, ac ar ol canu emyn, pan alwyd y trydydd, a chyn i'r pedwerydd gael ei enwi, neidiodd yntau i'r adwy, yn llawn aspri a serchowgrwydd, a dywedodd, "Ië, deuwch, frawd, a deuaif finau i'ch dilyn. Y mae dau yn ddigon mwy, gael ini fyned i'r gorlan gyda'n gilydd, oblegid fy nefaid i ydych chwi." Ac erbyn iddo ef godi oddiar ei liniau, gyda goleuni byd arall yn disglario ar ei wyneb, yr oeddynt un ac oll yn eithaf parod ac aeddfed i'w ddilyn i ba le bynag yr elai, "Heb gofio'r camwedd mwy." Fe laddodd y sarph yn y plisgyn, gan wneuthur heddwch. Hunodd yn yr Iesu ddydd Mawrth, Gorphenaf y 30ain, 1839, yn 64 mlwydd oed, wedi bod yn gweinidogaethu yn y Groes Wen a'r canghenau am y cyfnod hir a gloew o ddwy-a-deugain o flynyddoedd.

"Odiaeth heddychyd ydoedd,—ac enwog

Enaid cyfeillachocedd;

A'i anadl ef, heb ddadl, oedd

Fywyd i'n Cymanfaocedd."

Efe oedd gweinidog cyntaf Ebenezer, Aberdar; yr oedd ganddo law amlwg yng Nghorpholiad Soar, Merthyr; ac efe weinyddai ar y Cymun am y waith gyntaf yn hanes Saron, Tredegar. Yn bendifaddeu, nid yn ofer y llafuriodd; ac nid am ddim y treuliodd efe ei nerth.

Y Parch. Moses Rees.

GANED ef, meddis, mewn lle o'r enw Penybanc, plwyf Hen Fynwy, Ceredigion, yn y flwyddyn 1796. Gogwyddwyd ei feddwl at grefydd yn fore iawn, a dechreuodd bregethu ar gais ei frodyr a'i chwiorydd crefyddol yng nghylchoedd Llanarth gyda'r glas-ddydd. Bu yn derbyn ei addysg dduwinyddol yn Athrofa Neuaddlwyd. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar Eglwys Annibynol Talybont, Sir Aber-teifi, yn y flwyddyn 1822, yn 26 mlwydd oed. Byr fu ei arhosiad yno. Priododd âg Elizabeth, merch ei hen athraw enwog, Dr. Phillips, a dychwelodd eilwaith, er cynnorthwyo ei dad-yng-ngyfraith gyda'r ysgol. Derbyniwyd genyf y llythyr canlynol yn dal cysylltiad â'i hanes oddi wrth yr Hybarch. William Evans, Aberaeron; a theimlwn erbyn heddyw ei fod yn siarad â ni fel "llythyr o'r nef."

ABERAERON,
Hyd. 8, 88.

Anwyl Frawd,

Yr oedd y diweddar Barch. M. Rees gwedi gadael yr ardal hon flynyddau cyn imi ddyfod yma, ac nid oes yma yn bresenol neb a all roddi dim o'i hanes boreuol. Mae yn ddigon tebyg fel y crybwyllwch iddo fod am ychydig yn cynnorthwyo ei dad-yng-ngyfraith gyda'r athrofa yu y cyfamser rhwng ei symudiad o Talybont a'i fynediad i Pen Cader. Ni allasai hyn fod ond dros ychydig, dwy flynedd fu yn aros yn yr ardal cyn myned i Pen Cader, ac yn yr yspaid hwnw bu yn cadw ysgol ei hun yn ardal Nebo, o gylch wyth milltir oddi yma. Ni bu yn gynorthwywr i'r Dr. fel gweinidog, ychwaneg na'r myfyrwyr eraill oedd yr un pryd ag ef yn yr athrofa. Am dano fel gweinidog a phregethwr nid oes genyf ddim mwy i'w ddweyd nag a geir yn hanes yr Eglwys Annibynol, yr hwn sydd yn eich meddiant yn ddiau. A phe buasai genyf rywbeth o werth i'w anfon i chi, byddai yn bleser mawr genyf i wneyd hyn. Yr oeddwn yn byw yn Talybont pan y cafodd efe ei urddo yno, ac er nad oeddwn ond tra ieuangc, mae genyf eithaf côf am hyn, ac am ei ymadawiad buan oddi yno. Cefais lawer cyfle i'w weled ac ymddiddan âg ef tra yn Pen Cader. Yr oedd yn gyfaill didwyll a charedig, a'i gymdeithas yn wastad yn bur ac yn adeiladol. Amcanai yn gyffredin yn ei ymddiddanion â dynion i gyfeirio at grefydd.

a chredaf iddo wneyd llawer o ddaioni er enill eraill yn grefyddol trwy ymddiddanion personol. Meddai ddawn arbenig at hyn, a gwnaeth ddefnydd da o hono. Yr oedd yn dyn gwerthfawr, ac yn meddu llawer o elfenau cyfeillgarwch. Teimlaf barch dwfn i'w goffadwriaeth.

Ydwyf, anwyl frawd,

Yr eiddoch yn gywir,

W. EVANS.

Sefydlwyd Mr. Rees ym Mhencader, Chwefror y 10fed, 1825, a bu yno "yn diwyd hau" am un-flynedd-ar-bymtheg. Yn 1841 derbyniodd alwad i'r Groes Wen fel olynydd i Mr. Hughes—atebodd hi yn gadarnhaol—a llafuriodd yma yn effeithiol a pharchus hyd derfyn ei oes. Hunodd yn yr Iesu, Awst 31ain, 1856, yn 60 oed. Dyn tal, glandeg, a boneddigaidd ydoedd; pregethwr cryf, sylweddol, yn iawn gyfranau gair y gwirionedd. Yr oedd o flaen y rhan fwyaf o'i oes, ebai y Diweddar T. Rees, D.D., Abertawe, mewn dysg a gwybodaeth. Gohebai yn fynych i'r cychgronau—gwelid ffrwyth ei ysgrifell gyfoethog yn ymddangos drwy'r wasg; ac efe ddewiswyd i ysgrifenu Cofiant ei Dadyngnghyfraith—un o enwogion penaf ei ddydd a'i genedl. Tra yn bugeilio Eglwys y Groes Wen, preswyliai fel ei flaenorydd yn y Tŷ Newydd—ffordd yr eir oddi yma i gyfeiriad Caerffili. *Cymeradwyo Crist* (ar bob cyfle, "gan brynu yr amser) yn bersonol i ddynion ydoedd ei hyfrydwch penaf. "Clywais Mr. Rees yn gweddio droswyf drachefn a thrachefn, bron wrth fy enw!" ebai un o henuriaid yr eglwys wrthyf y dydd o'r blaen. Diameu iddo deimlo yn awr a phryd arall, mai cryn anturiaeth i ddyn gyda theulu liosog, a lechyd sigledig, ydoedd dyfod i'r maes ar ol brenin, pan ydoedd arglwyddi newydd a chyfreithiau newydd yn blaguro ar bob llaw. Mewn llythyr cyfrinachol anfonwyd ganddo at un o'i gyfeillion ffyddlonaf—boneddwr o waed a gwehelyth teyrngar i'r Groes ac i'w gweinidogion—tywalltai ei enaid allan, wrth apelio arno wasgu ym mlaen er maint ei wyleidd-dra er cadw yr arch ar ysgwyddau teilwng! Yr oedd efe yn gwir ofalu am yr achos. Enilloedd y rhan fwyaf o ben teuluoedd yr ardal yma at grefydd, a theimla'u disgynddion barch mawr iddo byth. Cwrddodd a gwas fferm un diwrnod yn dychwelyd o ffair Caerffili, gan d'wyso ceffyl wrth denyn; ond yn lle siarad âg ef am y tywydd a'r ffair, siaradodd âg ef yn syml a charuaidd—er heb ei weled erioed yn flaenorol—am y pethau a berthynent i'w dragywyddol heddwch. "Cwyd ti grefydd a'r capel, fy machgen i"—eb efe—"ac fe gwyd crefydd a'r capel dithau!" Meddylodd y llange am y peth, "ac am y gŵr bonheddig hardd" a'i cymellasai i ymddwyn felly. Ymunodd âg Eglwys Dduw gyda'r Methodistiaid heb fod ym mhell oddi yma, a phrofodd ei hunan wedi hyn yn ddyn, cymydog a blaenor crefyddol ambrisiadwy!

Adroddai yr hen frawd gwreiddiol Hopkin Morgan wrthyf am Mr. Rees newydd ddychwelyd gartref, wedi bod am dymor yn gofalu am rai o'r Eglwysi Cymreig yn Llundain, yn adrodd ar ei bregeth un o'r Suliau dilynol am dano ef i'r gydymaith, y dawnus Griffith o Alltwen, yn lettya yn yr un gwesty gan dderbyn parch a gwarogaeth y gwasanaethyddion, pryd yr oedd mab y tŷ yn cael ei basio yn bur ddisylw, gan orfod *tendio* arno'i hunan; ond wrth ymadel, ychwanegai y pregethwr, yr oedd yno *fyl* i fi a Griffiths, ond yr oedd y bachgen yn eithaf rhydd! Cwrddodd yntau lawer iawn o dywydd garw a thralodion, ond gan ei fod o nifer y plant cafodd, ar ddiwedd oes, fyned yn fythol rydd!

“Eisteddodd mewn cystuddiau,—a duaf

Dywydd cysgod angau;
Duw o'r nef fu 'n cadarnhau
Y dyn grasol dan groesau.”

Y Parch. W. Caledfryn Williams.

GANWYD ef yn y flwyddyn 1801, yn Ninbych, yr un dref a Syr H. M. Stanley, A.S. Enw ei dad ydoedd Thomas Williams, gwelydd wrth ei grefft, ac yn cadw *shop* yn y dref hono. Y Parch. Thomas Jones, Moelfre wedi hyny, oedd ei ysgolfeitr cyntaf, a Robert Owen y *nailer* a gyfeiriodd ei feddwl at lwybrau yr Awen, ac efe oedd y disgybl goreu a chyflymaf oedd ganddo. Urddwyd ef yn fardd yn Eisteddfod Caernarfon yn 1821; ac o'r pedwar cyfansoddiad fernid yn gyfartal gan Dafydd Ddu Eryri ar destyn un o'r cadeiriau blaenaf wedi hyny—ar “Ymweliad Sior IV. âg Ynys Môn”—yr oedd ei eiddo ef yn un.

Ei englyn arobryn cyntaf ydoedd un i'r “Enfys” yn Eisteddfod Gwent.

“Enfys yn ddilys a ddyd—iawn arwydd
Fanerawg i'r holl fyd,
Na ŷr Ión unrhyw ennyd
Ddwr barn i orchuddio'r byd.”

Dyma'r adeg y cyhoeddwyd ganddo gyfrol o'i waith, o dan yr enw “Grawn Awen,” ac ymgystadlodd yn lew am gadeiriau Powys a Siluria, a rhestrid ef ym mhlith y rhai oeddynt yn ymyl enill y gamp. Ond yn Eisteddfod Beaumaris yn 1832 y daeth efe i'w etifeddiaeth fel un o dywysogion yr Eisteddfod, pryd y cipwyd ganddo y wobr o £20 a'r tlws cadeiriol, am yr awdl oreu ar “Ddrylliad yr Agerlong *Rothsay Castle*,” ac yr ystynwyd iddo dlws ychwanegol gan y Dduces o Kent â'r Dywysoges Victoria.

Yr oedd yn feistr hollol ar holl fesurau cerdd defod; a rhifai y diweddar Llew Llwyfo ei awdl ar “Yr Adgyfodiad” yr oreu a'r flaenaf ym mysg awdlau Cymru, ac y mae ambell i ddarlun byr, pert gaiff ei dynu ganddo mor fyw, mor naturiol, ac mor orphenedig nes ein swyno a'n synu:—

“Anhyfryd boenau afrif
Yr Ardd un angel ni rif;
Ei ing Ef ni anghofir,
Na'i ddwys gri na'i weddi wir;

Pan oedd y Gwr, Prynwr prid
 Yn ufudd yn ei ofid,
 Ar ei wyneb eirianwawr,
 A'i ddwy lin ar y gwyrdd lawr.
 A dagrau brwd, o gur bron,
 Yn ei liwgar olygon,
 A'i waed yn treiglo wed'yn
 Ar y gwellt drwy'r barug gwyn."

Methodistiaid oeddynt ei deulu ef, a Methodist ydoedd yntau ar gychwyniad oes; ond rhoed argraph ar ei feddwl, eb efe wrth hen gydnabod i mi, fod tuedd yn arweinwyr yr enwad parchus hwnw rai adegau i gydnabod yr hyn sydd *am* ddyn yn hytrach na'r hyn fo *ymddo*; ac yn sydyn iawn, heb ymgynghori a neb o'i hen gyfeillion, ag eithrio y Parch. Moses Parry, ffarweliodd a'r *militia*, ys dywedai Dr. Arthur Jones, Bangor (wedi ymddwyn yn gyffelyb), ac ymunodd â'r *regulars*! Derbyniwyd ef gan y Parch. David Roberts ac Eglwys Annibynol *Lone Swan*, Dinbych, â breichiau agored. Yn 1827 pasiodd i fewn i Goleg Duwinyddol Rotherham; ond byr fu ei arhosiad yno, am fod ei iechyd wedi ei amharu, a chawn ef yn pregethu i'r Cymry yn Gartside Street, Manchester, am naw mis yn absenoldeb y gweinidog, y Parch. J. Griffiths, Bwcle wedi hyny. Ni chaniata gofod i mi ei ddilyn yn Llanerchymedd, Caernarfon, Llundain, a Llanrwst, maesydd toreithiog ei weinidogaeth gyhoeddus, cyn iddo ymsefydlu yn y Groes Wen, ei gylch olaf a mwyaf dedwydd. Yr oedd wedi ei eni i wisgo'r goron, ym mha gylch bynag y troai, a chwrddai ynddo yr anrhydeddus, y cynghorwr, y crefftwr celfydd, a'r areithiwr hyawdl. Talodd Mr. Hughes, Crafnant, boneddwr llengar o Wynedd, ymweliad â'r Groes Wen ychydig cyn ei farw, fel ymwelydd gwibiog un prydawn, a thystiai drwy ei ddagrau wrth sefyll ar fin ei fedd: "Efe oedd y siaradwr goreu glywais i erioed a phenderfynais os byth y deunw i i'r De y mynwn i gael y pleser trist o weled man gysegredig ei wely olaf." Fel awdlwr, yn sicr dylid ei restru ym mysg cedyrn Cymru, ac fel beirniad gonest ac un gwyneb, eisteddai yn benaf.

"Dyn a'i lon'd o ffyddlondeb,—ei galon
 Gilia rhag pob geudeb;
 Dyn oedd na niweidiai neb,
 A dyn gonest un gwyneb."

Edrychai Islwyn i fynu ato fel ei arweinydd a'i athraw yn llwyni bythwyrddion Ceridwen, ac eb efe:—

"D'wed i fi, Dad fy awen,—a'i'th reol
 A'th athrawes addien
 Oedd y nant, neu gerdd y nen—
 Nos loyw, neu ëos lawen?"

Fel boneddwr gonest, dorai dir newydd, daeth i'w ran swm enfawr o siom, dioddefaint, a phoerodd, yr un fath a'i Feistr, a gwelsom aml i asyn (ar ol ei gladdu wrth gwrs), ar lwyfanau y Dywysogaeth, yn ymdrybaeddu yn dost, wrth gicio y llew marw!

Buom mewn gohebiaeth bwysig er's rhai blynyddau yn ol gyda'r diweddar Dr. A. B. Grosart Dulyn, mewn cysylltiad â chân gysylltir ag enw Caledfryn, sef yr un i'r "Gôg." Yr oedd rhyw lenor Cymreig, a hanesydd clasurol wedi cyhuddo Caledfryn wrtho ef o fod yn llenleidr, a chyhuidd ef drachefn o'r unrhyw drosedd ganddo yntau; ond pan y danghoswyd iddo raglith yr awdwr i'w gyfrol o farddoniaeth, pryd y cyfeiriai at y gân hono ac eraill fel cyfiethiad, bu tawelwch mawr! A dylai y sawl ganant gymaint ar gorn Islwyn, y dysgybl ardderchog, gofio, ystyried, a chydabod ei rwymedigaeth fythol i Galedfryn, ei athraw a'i brif gefnogydd.

"Ar lawer cyfrif," ebai yr Hybarch D. Griffith, Bethel, "un o'r dynion hynotaf welodd Cymru ydoedd Caledfryn. Dinbych gafodd yr anrhydedd o roddi eychwyniad iddo . . . Cyfarfu â thywydd garw, ond daliai i fynu fel oedryddden gref, ym mhob rhyferthwy. Ni raid dweyd ei fod yn ddyn o ddoniau hyawdl, yn gystal ag o yspryd annibynol. Llauer brwydr ymladdodd, a llauer gelyn a loriwyd ganddo erioed. Gallai wrth achos draethu geiriau llosgedig megis â thafod ysgorpien. Yr oedd ei *sarcasm* ar brydiau yn ofnadwy. Digiai llauer wrtho oblegid ei ddull didderbynyneb o draethu y gwirionedd. Er hyny, yr oedd yn enwog a phoblogaidd o hyd. Fel llenor a phrif-fardd, edrychai mawrion i fynu ato; ac fel pregethwr, pwy ym mhilith y werin a edmygid yn fwy? Yr oedd yn barablwr diail; a thra yn nodedig o hardd a mawreddus yr olwg arno, ceid fod ei feistrolaeth ar iaith yn ddiderfyn, a'i hyawdledd ar amserau fel llifeiriant tonog, yn llamu ac yn rhuthro, gan ysgubo y cyfan o'i flaen . . . Bu llauer o son drwy y wlad am bregeth a draddodwyd ganddo ym Methel, yn fuan wedi ei ymsefyliad yng Nghaernarfon. Ei destyn oedd, "Canys nid fel ein craig ni y mae eu craig hwynt; a bydded ein gelynion yn farnwyr." Yr oedd yn bresenol lawer o'r bobl fwyaf tanlyd eu hysprydoedd o'r ardaloedd oddeutu, a rhai hefyd o ardal Bethesda, fel yr aeth yr oedfa yn hwyliog anarferol. Yr oedd y gynulleidfa wedi codi i fynu; curai rhai eu dwylaw, chwarddai eraill yn uchel, ac ymddanghosai pawb fel wedi ymgolli mewn mwynhad." Mynegid wrthyf gan fy hen gyfaill caredig, y Cynghorwr Hugh Owen (Voelas), am dano yn pregethu gyda'i gyfoedion, J. R. ac Ap Vychan, yn Gerizim, ger Penmaenmawr, oddi ar y testyn, "Anrhydedd Duw yw dirgelu peth," pan oedd y ddau wr enwog gyd-bregethent âg ef yn dadlu ar "Etholedigaeth." A sylwai fod gan y Goruchaf lawer o *bethau dirgel*, ym mhob pwynt mewn creadigaeth,

rhagluniaeth a gras. Synu ac addoli wnelai Abraham a'r patriarchiaid, Moses a'r prophwydi. Gwaeddi "O! ddyfnder!" yr oedd Paul. Myfyrio arnynt yn nhrefn iachawdwriaeth gras, ac heb eu mesur na'u plymio, y canfyddid prif feddylwyr yr oesau, Luther, Jonathan Edwards, Dr. Owen, &c., a chyda thaffiad chwyrn, gwawdus ei law, ychwanegai, "a rhyw loi blwyddi fel hyn, yn *settle*'r cyfan ar ddalenau y "Cronicl Bach!" Yr oedd ei watwareg yn ysol. Dychwe'odd mab i weinidog gweithgar a llwyddianus odiaeth yn Lerpwl adref o Gymru, wedi bod yn gwrando ar Gwalchmai ac ynte yn rhywle yn cyd-bregethu. Yr oedd y Parch. R. Parry ar y pryd a'i lais yn lled gras, wedi cracio, ac anwyd yn ei boeni ar gefn hyny! "Nhad," holai y llange, "beth ydyw dywalgwn, dywedwch?" "Beth wnaeth iti ofyn hyny?" ebai y tad, gan gyfieithu yr enw i'r Saesneg. "O!" oedd yr ateb, "Caledfryn ddwedodd wrth bregethu ar ol Gwalchmai, oddiar y testyn, "Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais." "*Hyfryd* lais sydd gan yr efengyl bobl, serch fod rhai yn ysgrechian fel dywalgwn wrth ei phregethu hi!" Yr oedd yn caru gosod pawb a phob peth yn eu lle, gan eu cadw, costied a gostio, yn y lle hwnw. Un noson wrth bregethu ar ei deithiau ym Môn, gwelai rhyw amaethwr mawr yn pwnio un o'i weision a'i benelin yn y sêr, i'r dyben o'i gadw yn effro. Safodd ar unwaith, gan edrych i'r cyfeiriad hwnw, ac eb efe, "Gadewch lonydd i'r dyn gysgu. Yr ydych yn codi eich gweithwyr ym Môn yma, cyn codi cŵn Caer, gan eu gweithio ar y maesydd ac yn llygad yr haul, wedi i'r huan fachludo, ac wedi hyny yn eu stwffio hefo uwd, fel nad oes disgwyl idynt gadw yn effro! Gadewch i'r dyn gysgu!"

"Caledfryn oedd wyn awenydd,—croew 'i farn,—
Cywir fyw barablydd;
Gwronol gysegr weinydd,
A'i fawr ddawn yn fri ei ddydd."

Y Parch. William Nicholson.

ETHOLEDIG weinidog nesaf Eglwys y Groes Wen ydoedd y Parch. William Nicholson, Treflys a Salem, gerllaw Bethesda, Arfon. Brodor o Gaergybi, Môn. Dyn ar dân ac yn tanio pawb a phobpeth o'i gwmpas. Dygwyd ef i fynu yn ysgolfeistr. Dechreuodd ei yrfa fel gweinidog yn Rhoslan a Llanystumdwy. Yr oedd wedi ei eni yn bregethwr; yn gerddor gwych; yn fardd perygius, ac yn llenor galluog. Byr a disglair fu ei ddydd gwaith. Symudodd o'r Groes Wen i Grove Street, Lerpwl, fel olynydd i'r anfarwol Barch. W. Rees, D.D. (Gwilym Hiraethog); blinodd ar y byd, a ffoes ei yspryd fflamlyd i le mwy cydnaws. Claddwyd ei weddillion cysegredig yng Nghladdfa Gyhoeddus Smithdown Road. Ymddiriedwn y gorchwyl o "draethu ei oes ef" i law fedrus y Parch. H. Elfed Lewis, Llundain:—

"W. N."

Y peth cyntaf ddaw i'r meddwl wrth ysgrifenu W. N. yw, y dylai, yn ol mesur oed, fod yma gyda ni yn fyw, yn lle ei fod wedi croesi'r trothwy diadlam i fyd yr adgofion. Y mae ei eisieu arnom. Y mae ein pwlpud heddyw yng Nghymru mor ieuange, buasai ychwaneg o'i oed ef, pe'n fyw, yn gymorth dirfawr i'n huchelwyliau. Ond croesodd, a'n cynysgaeth heddyw yw yr adgof o hono. Yr wyf fi yn ei gofio yn dda, pan oeddwn i newydd gyraedd Coleg Caerfyrddin. Cofiaf am dano yn dod i'r dref hono, ac yn cael oedfaon nodedig; ond y cof mwyaf gafaelfgar o'i oedfaon i gyd genyf yw am dano yn pregethu yn urddiad y diweddar Barch. W. R. Williams yn Llanfachraeth a Llanelltyd. Yr oeddwn i yn digwydd bod yn casglu dros y coleg yn y rhan hono o Sir Feirionydd ar yr adeg; a chan mai myfyriwr o'r coleg oedd Mr. Williams, naturiol oedd imi wneyd llwybr i'r cyfarfodydd urddo. Teimlaf byth yn ddiolchgar am imi fyned, er mwyn yr hyn a gaed gan Mr. Nicholson wrth draethu ar "Eiddo'r Arglwydd yw y rhyfel." Mewn brawddeg ac ymadrodd yr oedd ei ddyllanwad yn orchfygol, gwnai fel y mynai â'r gynulleidfa; gwenai drwy ei dagrau, ac ailwylai yn ei gwenau. Yr oedd ei eglurebau mor dlws ac mor fyw, a'i hanesyn am un o ddiwygiadau Caergybi mor ddigymar, ei apeliadau mor gywir

eu nhôd, ei ddawn a'i lais mor gydnaws, fel nad oedd gan y gynulleidfa ond ymollwng yn llwyr i'w yni a'i danbeidrwydd. Ie, tanbaid, yn anad neb a glywais i. Yr oedd ei hyawdledd fel tonau disgleirfor—y môr *phosphorescent*. hwnw welir mewn manau, yn lasliw ac yn ruddfflam gyda'u gilydd. Os llosgodd neb ei hun wrth bregethu, W. N. oedd hwnw. Pa ryfedd wedi'r cyfan iddo farw'n gynnar, pe dim ond gan angerdd y tân oedd yn ei gorph a'i enaid. Byddaf weithiau'n meddwl fod mesurau einioes dynion yn nes at fod yn gyfartal nag y tybiwn, a bod bywyd cymharol fyr yn gyfhyd â'r bywyd cymharol faith pan y mae angerddolrwydd y cyntaf fel yn estyn mesur y blynyddoedd. Cafodd W. N. ei le fel pregethwr tra yn fyw. Ond pa bryd y caiff ei le fel bardd? Trueni mawr na cheid casgliad bychan o'i gerddi, mewn odl a chynghanedd. Ar wasgar y maent, a rhai mewn llawysgrif yn unig. Ceir amryw o'i ganeuon yn y *Cenad Hedd*. Ac am ei gywydd i'r "Ystorm," nis gallaf synio byth am drysorfa o gywyddau yr awen Gymreig heb weled hwnw yno, ac yn un o'r pethau mwyaf adeinfyw o honynt i gyd. Y mae ei dân ym mhob llinell bron; nid llaw yn ysgrifenu sydd ynddo, ond yspryd yn ymhoewi; weithiau yn suddo i isterau dystawrwydd, weithiau'n esgyn ac yn hedfan ar ruthr i ddilyn "Duw fel yn diofalu." Byddai Cymru ar ei cholled o anghofio un fel hwn, yn bregethwr a bardd. Coder ei golofn ym meddwl ac awen cenedl.

Sefydliad y Gweinidog Presenol.

DERBYNIODD ef alwad o'r Groes Wen wedi ei harwyddo gan y "Diaconiaid" canlynol:—Thomas Davies, Ty Fry; William Protheroe, Groes Wen; Thomas Isaac, Fferm y Castell; William Smith, Cwrt-y-celyn; Evan Morgan Thomas, Nantgarw; Thomas Thomas, Tynywern; Gorph. 22ain, 1879.

Maent hwy wedi huno ond un, ond eu coffa a'u gwaith yn aros!

Atebodd hi yn gadarnhaol, a dechreuodd ar ei weinidogaeth gyda dechreu y flwyddyn ddilynol. O herwydd nas gallai yr hen athraw duwinyddol fod yn bresenol ar yr uddiad, anfonwyd ganddo i'r Eglwys y llythyr a ganlyn:—

BALA,

Ionawr 2, 1880.

Anwyl Frodyr a Chwirydd,

Mae y dygiedydd, C. Tawelfryn Thomas, yn aelod rheolaidd gyda ni yn y Bala, ac yn ofalus yn wastadol am bob moddion crefyddol. Mae yn bregethwr grymus a defnyddiol, ac wedi bod yn gyson yn ei ymarweddiad yn mhob cylch yn ein plith. CREDU yr wyf fi v bydd efe yn weinidog da yn y Groes Wen, ac y byddwch fel cynulleidfa yn falch o hono. Nid yw eto ond ieuange, ac y mae lle i obeithio y cynyddu beunydd mewn gwybodaeth, profiad, a defnyddioldeb. Gweddiwch lawer drosto; ac os gwnewch hyny, chwi a wnewch bob peth arall.

Ydwyf, eich brawd yn y rhwymau goreu,

R. THOMAS (Ap Vychan).

Cynhelid gwyl y sefydliad ar y Llun a Mawrth, Ionawr 5ed a'r 6ed, 1880. Nos Lun dechreuwyd gan y Parch. T. D. Evans, Victoria, Mynwy, a phregethodd y Prifathraw Thos. Lewis, B.A., Coleg Annibynol y Bala, a T. Rees, D.D., Abertawe. Am 10 o'r gloch dranoeth dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. J. Machreth Rees (Llundain yn awr). Traddodwyd y gynaraeth ar "Natur Eglwys," gan y Prifathraw T. Lewis, B.A. Holwyd y gofyniadau gan y Parch. W. I. Morris, Pont-y-pridd. Gofynnodd y Parch. W. Rees, Glandwr Taf, am yr arwyddion, a dyrechafwyd yr urddweddi gan y Parch. D. Richards, Caerfili. Pregethwyd sias i'r gweinidog gan Dr. Wm. Rees (Gwilym Hiraethog), a siars i'r eglwys gan Dr. Thomas Rees. Cymerid y rhanau arweiniol yn y

cwrdd am ddau gan y Parch J. Hughes, South Ferndale, a phregethid gan y Parchn. E. Jenkins, Llansamlet, a J. T. Evans, Caerfyrddin. Darllenwyd am chwech yr hwyr gan y Parch W. E. Evans, Carmel, a phregethwyd gan y Parch. E. Jenkins a Dr. William Rees. Yr oedd yn bresenol heblaw a enwyd y Parchn. J. H. Jones, Ton; Richards, Cwmparc; George, Dinas; Thomas, Glantaf; Davies, Llantrisant; Morris, Gwaelodygarth; Rees, Eglwysnewydd; Davies, o'r Maendy; Rees, Nelson, Richards, Crugybar, a J. T. Evans, Brynmawr; gyda myfyrwyr a gwyr llöyg yn arfrifed. "Ni bu yn y Groes Wen o'r blaen," ebai y cofnodydd yn yr *Herald*, "urddiad er ys dros bedwair ugain mlynedd. Torodd yn orfoledd droion, ac amheuthun i lawer o honom ydoedd gwrandio ar Richard Jones, Ty Hen, David John, a Peggi Adams yn molianu am yr uwchaf yn ystod yr wyl!"

Er y cyfarfod hwnw mae yr eglwys wedi talu £1,150 o ddyled oddiar y capel a'r fynwent newydd; ac wedi codi tŷ gweinidog rhydd-ddaliadol, gan dalu am dano y ddimeu olaf ddiwedd y flwydlyn ddiweddfaf, heb son am y llogau. Pâr troad allan gynifer o selodau, er ffurfio eglwysi eraill Annibynol gryn bryder ar adegau, ond cerddwn rhagom gan gredu a sylweddoli fod y gwaith o Dduw. Ymfrostiwn yn y flath, fod a wnelom fel eglwys a gweinidog yn anad neb a chychwyniad yr eglwysi Annibynol newyddion yn Senghenydd, Llanbradach, ac Abertridwr.

Er mantais i hanesydd y dyfodol lleolwn enwau y diaconiaid yma o'r dechreu hyd yn awr mor gywired ag y medrwn:—Dr. Llwyd, Caerffili; David Edwards, Beaupre; Edward Dafydd (stampers), Furnace; Thos. Lewis, Hendredenny Uchaf; John Williams, Dyffryn Isaf; Evan Morgan, Rhydfelen; John Williams, Ddraenen; William Lewis, Pontygwindy; William Richards, Caerffili; William Waters, Caerffili; William Williams, Groes Wen; Hopkin Smith, Cwrtycelyn; John Thomas, Nantgarw; Isaac Williams, Boduchaf; Thomas Davies, Ty Fry; Thomas Isaac, Fferm-y-Castell; Edward Lewis, Hendredenny Ganol; William Edwards, Ty'nyparc; James Protheroe, Penygroes; William Thomas, Gelli; William Protheroe, Groes Wen; Thomas Thomas, Ty'nywern; William Smith, Cwrtycelyn; Evan M. Thomas, Nantgarw; Thomas Thomas, Gwernau; Edward Thomas, Aber Fawr; Samuel Williams, Aber; Thomas Jenkins, Gwernydomen; D. Absolom (Dewi Glan Braenar), Brontridwr; William Morgan, Ty Canol; Thomas Lewis, Hendredenny; Joseph Millward, Nantgarw; Isaac Thomas, Y Shop; Daniel Thomas, P.O.; Moses Evans, Caedyrus; T. Price, Ddraenen Wen; W. Evans, Caerffili.

Cyfodwyd i bregethu yn yr eglwys, y Parchn. Walter Thomas (Olynydd W. Wroth, M.A., yn Llanfaches); John Roberts, Pen-y-Groes; W. Waters, John Thomas, a John Jenkins, Caerffili; John a Richard

Millward (telynau dorwyd yn gynar), Wm. Edwards, Brentford; Evan Jenkins, Walter Road, Abertawe; Thomas Jones, Othery; W. Prothero, Broseley; Joseph Millward, Abertridwr; John Penry Thomas, Coleg Coffadwriaethol Aberhonddu; a D. Davies, Ysgol Ragbarotoawl Pontypridd.

Teg ydyw crybwyll, fod yr Hybarch John Thomas (Nantgarw), wedi dechren pregethu cyn ymsefydlu yma. Gwelir darlun o hono yn Nghorph y gwaith, yn ogystal a chyfeiriad at ei "lafurus gariad" yn yr ysgrif ar "NANTGARW."

"Marwolion anfarwol sy'n mynwent y Groes Wen."

Evan Jones (Ieuan Gwynedd).

GORWEDDA yma yn yr un pentwr nifer enfawr o feirdd a llenorion, megis Walter Coslett ("Shakspeare Eglwysilan") a'i ddau fab, "Talelian" a "Gwyliedydd"; Wm. Prothero; "Dewi Glan Corwg"; Wm. Davies, Tyfry; Samuel Williams, Aber; a'r diweddar David Absalom, Bron Tridwr:—

"Rhoed Dewi i rô daear,—wedi 'i lân

Dawel oes weddigar;

Byw'n ei gylch i bawb yn gâr,

Bu'r hynaws fardd Glan Braenar."


Ni chaniata gofod ini ond eu henwi. Yma hefyd, yn unol â'i orchymyn am ei esgyn, y claddwyd yr hyn oedd farwol o'r gweinidog, y bardd a'r llenor, y dyn a'r gwladgarwr digyffelyb—Ieuan Gwynedd. A ganlyn sydd gynwys rhan o ysgrif yn ymwneyd a'i enw a'i goffiadwriaeth ymddangosodd yn y *Beirniad* oddeutu 1863 ar "Fynwent y Groes Wen," eiddo Dr. Rhys Gwesyn Jones:—

"Beth yw y golofn brydferth yma sydd yn sefyll ar ei phen ei hun, ac uwchlaw pobpeth yn y fynwent, ac ysgrifbin a chorn inc wedi eu cerfio arni? Ah! cofgolofn yr anfarwol Ieuan Gwynedd ydyw. Darllenwch y cofnodion, nid ydynt ond ychydig eiriau:—'Reverend Evan Jones (Ieuan Gwynedd), born 5th September, MDCCCXX.; died 23rd September, MDCCCLII.; aged 32.'"

"Y golofn yma gyhoedda haeddiant
Ieuan Gwynedd, i'w wlad fu'n ogoniant;
Haul oedd i'w genedl, miloedd a gwynant
Ai'n nos o'i golli, tewi nis gallant:
Llanwodd swydd llenydd a sant—sa'i weithiau
Ef i'r oloesau yn ddifawr lesiant."

GWILYM HIRAETHOG.

A fedri di, ddarlennydd, gredu y gallasai bachgen fagwyd yn ardal fynyddig Gymreigaidd y Brithdir, gerllaw Dolgellau, ddyfod yn un o brif lenorion Cymru, yn feirniad barddoniaeth a rhyddiaeth, ac hefyd yn alluog i olygu papyr newydd Seisnig yn Llundain cyn cyrhaedd deg-ar-hugain oed? Onid yw cyflymdra ei gynydd yn ymddangos braidd yn wyrthiol? Ac eto, mae yn eithaf gwir. Dyma ei gareg fedd yn



IEUAN GWYNEDD.

tystio iddo farw yn ddeuddeg-ar-hugain oed; ac o'r rhai hyny treuliodd y tair blynedd olaf agos oll, os nad yn gwbl, mewn cystudd trwm. Er hyny, mae ei ysgrifau Cymreig a Seisnig yn ein cyfarfod ym mhob man, ac yn dangos gallu meddyliol a medrusrwydd eithriadl. Bu yu egniol iawn i amddiffyn y Cymry rhag y sarhad a deflid arnynt gan wyr y Llyfrau Gleision, a danghosodd nid yn unig nad oeddem cynddrwg ag y mynent hwy ein darlunio, ond ein bod lawer yn well nag y tybiai y byd yn gyffredin. Gwyr pawb fod Cymru, ei moesoldeb a'i chrefydd, yn cael siarad am dani yn aml iawn mewn modd parchus gan y Saeson yn bresenol; diau fod dechreuad y cyfnewidiad i'w briodoli i ysgrifau nerthol Ieuan Gwynedd. Mae ei ysgrifau ef ei hun, a'r galarebau toddeddig a ganwyd ar ei ol, yn ddigon i'w ddyogelu rhag syrthio i ebargofiant tra fyddo yr ieithodd Cymraeg a Saesneg yn cael eu darllen a'u deall. Nid dyn un pwngc oedd Ieuan—yr oedd yn flaenllaw gyda phob amcan da. Ymdrechodd yn galed dros ddiddymiad treth yr yd pan yn fyfyrwr yn y Coleg; yr oedd yn ddirwestwr selog a gweithgar, yn awyddus iawn om weled diwygiadau yn y wlad a'r eglwys, a gwnaeth ei ran er dwyn hyn oddi amgylch. Tueddir ni weithiau i ofyn faint o ddaioni wnaethai y dyn yna pe cawsai fyw driugain mlynedd? Ond ni waeth teui, marw wnaeth, ac y mae y cwbl yn dywyll i ni am y dyfodol amhrofedig yn gystal a'r dyfodol disgwylidig. Anrhegwyd ni â'r llinellau canlynol gan Iago Emlyn er cof am Ieuan. Deallwn fod ychwaneg i ymddangos yn ei weithiau barddonol. Dyma'r penill blaenaf a'r olaf:—

“ Far famed Venodician, true son of Parnassus,
Thy splendid muse blazed from the dawning of youth,
Its bright coruscations, the glory of genius,
Shone upright and gilded the temple of truth.”
* * * * *

“ Behold living statues around his grave weeping,
The daughters of Cambria their briny tears shed,
Whilst their great champion is peacefully sleeping,
Until the last trump shall awaken the dead.”

Canfyddir yng nghorph y gwaith hwn ddarlun o'r ddwy gofologfn genedlaethol iddo ef a'i gyfaill Caledfryn, yn cael eu cychynu yn benaf, gan “Gymry Cymreig Caerdydd,” wedi eu tynu gan law gelfgar eu hysg rifenydd (Mr. D. Evans), Ebrill 27ain, 1904.

Heblaw hyny, ceir yng nghorph y gwaith y darlun olaf dynwyd o Ieuan. Benthyciwyd y copi gwreiddiol gan un o'r *bearers* ddydd ei angladd (yr olaf sydd yn fyw heddyw), oddi ar y Parch. J. G. Thomas, Aberdâr; er estyn eileb o hono i'w gyfeillion ar yr amod ei fod i'w ddychwelyd yn fuan ac heb ei faeddu. Pan y cafodd efe ef yn ol o law



COFGOLOFN CALEDFRYN.

Y Llaw yn y Llun.*

(GAN WATCYN WYN.)

Y llaw fu'n cynorthwyo y dyn cystuddiol, gwan,
Pan oedd ei nerth yn gwywo yn dâl ei ben i'r lan;
Mae hon o hyd yn nerthu yr eiddil gwan ei wedd,
Ac yn ei ddal i fynu er gwaetha'r tywyll fedd.

Y llaw fu'n gwylio Ieuan ar wely cystudd maith
Ac yn ei nerthu druan i godi lawer gwaith,—
Y llaw fu'n dyner wrtho pan ar ei "wely gwaed,"
Mae hon i'w gweled eto'n ei gynal ar ei draed!

Y llaw fu'n cynorthwyo cystuddiol blant y byd,
Mae Duw yn cadw hono yn gryf ac iach o hyd;
Mae'r eiddil wedi huno—y cystudd ddaeth i ben,—
Ond dâl o hyd i wyllo mae'r llaw garedig wen!

Mae Ieuan yn y beddrod er's hener canrif llawn,
A'i ddarlun wedi dyfod yn feddiant ini gawn;
Ac yn y darlun hwnw mae ffurf y dyner law
Fel cysgod wedi ei fwrw gan oleu'r byd a ddaw!

* Gwel darlun yn gwynebu tudalen 36.

Argraphwyd Cofiant ardderchog iddo gan ei edmygydd byw Mr. R. O. Rees, Fferylydd Dolgellau, yn cynwys traethawd ar ei gymeriad a'i athrylith gan ei gyd-lafuriwr yn Nhredegar, y Parch. W. Williams, Abercarn, yng nghyd â nifer o'i gyfansoddiadau, yn 1876. Dygwyd llyfryn bychan o'i hanes a'i waith allan yn ddiweddar gan Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychen. Pwrcaser a darllener hwy!

Bu farw ei weddw hoff ddiwedd y flwyddyn 1894. Gwelsom yn ei chynhebrwng, heblaw aelodau'r teuluâ chyfeillion Ebenezer, Caerdydd (lle yr ymaelodai) y Mri. H. D. Jones, Coedmoelfa; Thomas, Ty'nywern; Elfryn; W. Evans, gyda chynrychiolwyr Arglwyddes Llanover (Gwenynen Gwent), y Parch. E. Bevan (E.), Aberdâr; J. Prys, (M.C.); D. Davies, Hanover; H. M. Hughes, B.A., Caerdydd, Tawelfryn a Syr Alfred Thomas, A.S. Claddwyd hi yn ol ei dymuniad olaf, "yn rhywle yn yr un telpyn pridd a Ieuan," yn *ymyl* ei feddrod ef, gan fod dealltwriaeth rhwng Eglwys y Groes Wen a'r genedl nad yw bedd a cholofn "amddiffynwr merched Cymru" i'w cyffwrdd hyd ddydd caniad yr udgorn diweddar. Dodwyd careg dlos ar ei bedd gan yr "Arglwyddes etholedig," ac arni y geiriau dilynol:—

"Er Cof Anwyl am

RACHEL JONES, Gweddwy diweddar EVAN JONES (Ieuan Gwynedd),

Bu farw Rhag. 27ain, 1894, yn 73 oed.

J. D. Williams, Ebenezer, Caerdydd.

Ein Williams oedd seraph golau,—a naw
Y nef yn ei eiriau;
Gwaith Duw wnai drwy'i bregethau,
A Gair Ei hedd garai hau.

YR oedd y Parch J. D. Williams yn un o'r pregethwyr rhagoraf a mwyaf poblogaidd a ymddangosodd yn y pwlpudd Annibynol yn Neheudir Cymru yn nghanol y ganrif ddiweddar, ac er iddo ddyfod yn amlwg yn ieuanc iawn daliodd i gynyddu mewn enwogrwydd fel pregethwr hyd ddiwedd ei oes, yr hon a derfynodd mor gynar Hydref 26 1856, tra nad oedd efe ond 33 mlwydd oed. Ni wyddys nemawr am ei hanes boreuol, ond cafodd ei ddwyn i fynu yn Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin. Daeth yn ieuanc i ardal y Brychgoed, lle y bu am beth amser yn ngwasanaeth rhai o amaethwyr y gymydogiaeth. Gellir casglu oddiwrth hyn nad oedd ond bachgen tlawd, heb gyfeillion i'w gyfarwyddo nac i estyn iddo unrhyw gymorth; ond dibynu yn hollol ar ei ymdrechion a'i ymroad ei hun am hyny o lwyddiant a gyrhaeddodd yn ystod ei fywyd byr. Un o blant Diwygiad 1839 ydoedd efe, ac yn y flwyddyn hono y derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys dan ofal Mr. Stephens. Ar yr un pryd ag y daethai efe yno y daeth hefyd wr ieuanc arall, Mr. John Davies, yr hwn yn mhen blynyddoedd wedi hyny a adnabyddid drwy Gymru oll fel yr enwog Barch. John Davies, Caerdydd, Yr oedd Mr. Davies ac yntau agos yr un oed, a pharhaodd y cyfeillgarwch dwfn a ffurfiwyd rhyngddynt tra yn y Brychgoed yn ddifwlch. Daeth Mr. Williams yn fuan i'r golwg fel dyn ieuanc talentog ac addawol, ac yn meddu ar alluoedd tuhwnt i'r cyffredin. Cymerodd Mr. Stephens, y gweinidog, ddyddordeb ynddo yn union wedi ei ddyfodiad i'r lle. Yr oedd ganddo ddawn eneinol mewn gweddi, a thynodd hyn sylw yr eglwys fel y gwahoddwyd ef yn fuan i ddechreu pregethu. Gymaint oedd ei uchelgais i ragori, fel y gwnaeth ymdrechion egniol yn ngwyneb llu o anhawsderau i fyned i Ysgol Hanover, ac wedi hyny i Goleg Homerton, yn Llundain. Er hyny daeth y fath ffafryn fel y cafodd yn Dr. Jenkyn, Prifathraw Coleg

Coward, noddwr caredig a dylanwadol. Llwyddodd hefyd i weithio ei hun yn ddwfn i serch ei athraw Dr. Pye Smith, yr hwn a'i cynorthwyodd yn fynych mewn ystyr arianol. Cafodd alwad i Benybont-ar-Ogwy, a bu yn olynnydd teilwng fel pregethwr i'r enwog Barch. W. Jones. Nid ymgymeriad dibwys i ddyn ieuanc fel efe oedd dilyn gwr mor alluog ac uwehraddol yn y weinidogaeth. Ond yr oedd ganddo hyder dihysbydd ynddo ei hun, amddifadrwydd o'r hyn sydd wedi bod mor aml o gymaint anfantais i'r Cymro i wneuthur ei ffordd ac i hawlio y safle hono ag a deilynga ei alluoedd. Bu hefyd yn offerynol i godi capel newydd yno, am y teimlai nad oedd yr hen gapel yn deilwng o'r lle; ac er iddo gael llawer o wrthwynebiad, llwyddodd yn ei ymdrech. Yr oedd yn llawn o'r ysbryd anturus a blaenllaw hwnw a lynodd wrtho drwy ei oes, a'r hwn, ar rai adegau, efallai a fu yn brofedigaeth iddo. Arosodd yn Mhenybont-ar-Ogwy bedair blynedd, ac yn 1852 symudodd i Ebenezer, Caerdydd, yn olynnydd i'r Hybarch. Lewis Powell, gweinidog cyntaf yr eglwys hono. Ymdaflodd yma eto i'r gwaith gyda holl yni a brwdfrydedd ei natur gyfoethog. Nid oedd derfyn ar ei weithgarwch, a pha beth bynag a ymaflai ynddo ymroddai i'w gyflawni â'i holl egni. *Credai* mewn gweithio, ac yr oedd yn feddianol ar y gallu prin hwnw o fedru taflu ysbrydiaeth i ereill o'i amgylch. Un o'i weithredoedd cyntaf yn ei glych newydd ydoedd ail adeiladu y capel a wasanaethodd yr eglwys fel lle o addoliad oddiar ei sefydliad yn 1826. Yr oedd yr eglwys yn lled barod at hyn, oblegid teimlid yn ngwyneb cynydd cyflym y dref a'r boblogaeth yn y blynyddoedd hyny fod angen capel helaethach. Yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn Ebenezer, gwelwyd lwyddiant amlwg ar yr achos dan ei weinidogaeth gref a dylanwadol; ac fel prawf o'i boblogrwydd, cynyddodd yr eglwys mewn rhif yn gyflym, a'r fath oedd yr atdyniad fel yr oedd y capel yn llawn bob Sabboth. Hefyd codwyd safle Ebenezer wedi hyn yn llawer uwch yn mhllith eglwysi y dref. Cymerai Mr. Williams ran amlwg yn symudiadau cyhoeddus y dref, yn enwedig yn nglyn â materion crefyddol. Llanwai bob cylch y gosodid ef ynddo gydag urddas, ac nid oedd raid ofni ei roddi yn y lleedd pwysicaf. Pregethai yn Saesneg mor hwylus ag yn Gymraeg, ac mor gymeradwy oedd ei weinidogaeth yn yr iaith hono, fel pe dewisasai droi ei wyneb i'r pwlpudd Seisnig gallasai yn rhwydd gael derbyniad iddo, fel y gwnaed gan lawer o Gymry ieuanc athrylithgar ereill mewn blynyddoedd diweddarach. Traddoddodd ddarlith un tro yn Neuadd y Dref yn Saesneg, nes synu llawer o'r Saeson gan ei hyawdledd.

Yr oedd yn ddyn hardd o ymddangosiad, ac yn foneddigaidd yn ei holl symudiadau. Safai yn syth yn y pwlpudd, gan estyn ei law ddeheu allan mewn dull awdurdodol pan wasgai wioneddau yr efengyl at galonau ei wrandawyr. Doniwyd ef yn helaeth gan natur a gras, a

phregethu ydoedd ei hoff waith. Meddai ar lais peraidd a goslef swynol, ac yn codi yn aml i hyawdledd aruchel. Yr oedd ganddo gyfoeth o iaith, bur, lefn, a gloew, er gwisgo ei feddyliau yn y dull mwyaf effeithiol. Rhesymai yn glir ac argyhoeddiadol, a meddai allu arbenig i elfenu, dadansoddi, a dosbarthu gwirionedd, a'i osod allan mewn dull trefnus a dealedig. Yr oedd ei esboniadaeth yn oleu, a'i eglurebau yn naturiol, ac yn cyfleu y gwirionedd yn ddyddorol i'r bobl. Meistr y gynulleidfa yn wir ydoedd efe. Y fath oedd o ran parodrwydd meddwl fel y dywedir gan rai a'i ha-lwaenent yn dda, y gallai gymeryd testyn a phregethu yn ddifyfyr gyda'r fath fedrusrwydd a hwyl fel nas gellid dirnad nad oedd fel arferol wedi paratoi ym mlaenllaw. Pau ar ei uchelfanau yn pregethu, weithiau gwelid megis ton o syndod edmygol yn ymdaenu dros wyneb ei wrandawyr, a gynyreid gan newydd-deb ac ysplander ei ddrychfeddyliau. Un o'i brif bregethau ydoedd hono ar I Ioan, v., 4, "Ffydd yn gorchfygu y byd," a phregethodd lawer arni drwy wahanol ranau o'r wlad. Darluniai ynddi nerth a godidogrwydd ffydd, yn galluogi ei pherchenog i orchfygu nwydau calon ddrygionus, amgylchiadau anhawdd, a phrofedigaethau bywyd, gyda'r angerddoldeb trydanol a'r dylanwad ysgubol hwnw a'i nodweddi ar ei adegau mwyaf cynhyrfus, pan y cyrhaeddai llifeiriant ei ddawn megis ei ben llanw uchaf.

Profodd ei hun hefyd yn llenor gwych, ac ysgrifennodd ym mhlith pethau ereill lawer o erthyglau i'r *Adolygydd*, oedd dan olygiaeth yr anfarwol Ieuan Gwynedd. Bu Ieuan fyw am rai blynyddoedd yn Nghaerdydd, ond bu farw yn Chwefror 1852, ychydig fisoedd cyn i Mr. Williams ymsefydlu yn y dref. Gweithiodd Mr. Williams yn galed mewn amryw gyfeiriadau yn nglyu â'r *Adolygydd*, yr hwn dros uifer o flynyddau a wasanaethodd ei oes mor ffyddlon.

Priododd a Miss B. Jones, Berthlwyd, Llanilltyd Fardre, a phrofodd iddo yn briod nodedig o rinweiddol, ac yn wraig gweinidog ragoral. Perthynai hi a'i theulu i Eglwys y Groes Wen. Bu cysylltiad agos a thyner rhyngddi âg Arglwyddes Llanofar am flynyddoedd, ar yn un adeg ag y cymerodd y foneddiges wladgarol hono ddyddordeb yn ngweddwr Ieuan Gwynedd.

Ond er ei holl ragoriaethau fel pregethwr, ei wasanaeth i'r efengyl, ac i'w oes, gostyngwyd ei nerth ar y ffordd, a machludodd ei haul a hi eto yn ddydd. Saif yn esiampl o uchelgais teilwng i genedlaethau eto i ddod, a llefara'r proffwyd o'i fedd yn mynwent enwog y Groeswen, ar i ieuencid Cymru gysegru eu heguion goreu i amcanion uchaf bywyd, er dyrchafiad dynoliaeth a gogoniant Duw.

Walter Thomas, Llanfaches.

(O "HANES YR EGLWYSI.")


WALTER THOMAS ydoedd, fel y nodasom eisoes yn aelod gwreiddiol o'r Groes Wen, ac yn y gymydogoeth hono y bu yn cyfaneddu trwy ei oes. Yr oedd yn weinidog yn Llanfaches yn 1798. Nis gwyddom pa un ai yno ai yn rhyw le arall yr urddwyd ef. Er fod llawer o hen bobl yn fyw sydd yn ei gofio yn dda, mae yn hynod cyn lleied o'i hanes a ellir gael ganddynt. Yn ei amser ef yr adeiladwyd y Tabernacle yn Llanfaches. Ei enw ef yw y blaenaf o'r ymddiriedolwyr yn ngweithred y capel, yr hon a lawnodwyd ar y 19eg o Dachwedd, 1802. Mae yn ymddangos iddo roddi ei ofal gweinidogaethol i fyny yn fuan ar ol 1807. Wedi ymadael â Llanfaches cymerodd ofal yr eglwys fechan yn Llangynwyd, Morganwg, a bu yn teithio tuag yno o ardal y Groes Wen am rai blynyddau. Bu farw tua 1816 neu 1817, a chladdwyd ef yn mynwent y Groes Wen. Dywedir ei fod yn weddiwr nodedig o effeithiol, ac yn ganwr doniol yn ol yr hen ddull o ganu, ond ni chyfrifid ef ond pregethwr lled gyffredin. Perchid ef gan bawb ar gyfrif ei dduwioldeb a'i lafur diatal gyda yr achos goreu. Yn Llanelltid yr ymgartrefai.

O.Y.—Bu yn y Groes Wen o oes i oes dywysogion mewn gweddi. Ceir hanes yr hen dadau yn cadw cyrddau gweddi o fan i fan, a chlywsom y diweddar Richard Owen, wedi bod yn gwrando ar y Mri. R. Jones, Edward Williams (M.C.), Baduchaf; Isaac Morgan, E. Morgan, W. Lewis, Henry Thomas, a W. Smith, yn tystio mai dyna "y gweddiwr clyfra glywsai efe yn ei fywyd." Ac un o hen weddiwr mawr yr ardal ydoedd olynydd William Wroth, M.A., yr hybarch Walter Thomas.

David J. Beynon, Nantgarw.

(O "HANES YR EGLWYSI.")

GANWYD ef yng Ngaerfyrddin, yn y flwyddyn 1792. Symudodd yn ieuange i Ferthyr Tydfil, ac yno pan yn aelod yn Bethesda y decreuodd bregethu. Yr oedd ef a Dr. Jenkins yn dechreu yr un pryd, a chyd-deithiodd y ddau lawer pan yn ieuange. Aeth Mr. Beynon i Sir Fôn, ac urddwyd ef yn Peniel, Llanerchymedd, Mehefin 2il, 1814. Bu yno yn dderbyniol dros rai blynnyddoedd. Rhoddodd yr eglwys yno i fynu a chyfyngodd ei lafur i Eglwys Llanddeusant, yr hon oedd cyn hynny dan ei ofal. Priododd yno, ond ni bu y briodas mewn un modd yn un hapus. Ar wahan i'w gilydd y bu ef a'i wraig byw trwy eu hoes. Nid yw yn perthyn i ni ymholi i'r amgylchiadau, ond yn unig grybwyll y flath. Dychwelodd ef i'r Deheudir, a bu am dymor heb gysylltiad rhyngddo âg unrhyw Eglwys. Aeth i Rwsia, lle y treuliodd lawer o flynyddau, ond yn mlynnyddoedd olaf ei oes yr oedd yn byw yn Nantgarw, ac yn aelod yn y Groes Wen, a phregethai pan fyddai galwad am ei wasanaeth. Yr oedd yn bregethwr cynes a bywiog, a phe buasai ei gerddediad wedi bod yn uniawn bob amser, gallasai fod yn weinidog defnyddiol. Yn mlynnyddoedd diweddaf ei oes yr oedd o ran ei gymeriad yn gwbl ddiargyhoedd, ond yr oedd olion y crwydriadau yn amlwg wedi pylu ei feddwl. Yr oedd yn dda ganddo gofio y dyddiau gynt, a'r yspryd a fwynhaodd yn nghychwyniad ei yrfa grefyddol. Bu farw yn mis Mehefin, 1872, yn 80 oed. Ar ol ysgrifeniad yr uchod darlithiodd Mr. Thomas, Ty'nywern, un o'i ddisgyblion mwyaf aiddgar, drwy y cylch, ar "D. J. Beynon, Nantgarw, a'i amserau," a chyflwynwyd cynrych y ddarlith hono er sicrhau cofadail brydferth ar ei fedd.



Parch. D. J. BEYNON.

Morgan Hopkins, Tongwynlais.

YNG Nghwmllynfell, lle sydd wedi cael y fraint o godi cynifer o ddynion amlwg i'r weinidogaeth Annibynol, y magwyd Mr. Hopkins. Yr oedd ei rieni yn aelodau parchus o'r eglwys dan ofal y Parch. R. Price, a'u haelwyd yn cael ei haddurno gan wir yspryd crefyddol. Yn 1850 y ganed ef. Un-ar-ddeg ydoedd pan dderbyniwyd ef yn gyflawn aelod o'r eglwys, ac ym mhen deng mlynedd arall yr oedd yn dechreu pregethu ar gais yr eglwys a'r gweinidog. Yr oedd ei grefyddoldeb a'i ymroad i gasglu gwybodaeth wedi rhoi boddlonrwydd iddynt hwy y gwnai weinidog da i Iesu Grist, ond iddo gael y cyfle a'r cymorth anghenrheidiol, ac ni siomwyd hwynt, ond yn unig yn y flaith iddo gael ei dori i lawr mor gynar. Wedi dechreu pregethu yn 1869 derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn 1871. Yno y cyfarfyddais âg ef gyntaf. Dyn o ddifrif oedd efe pan yn y coleg, dipyn yn drymaidd ac araf ei symudiadau ond o ddifrif o hyd. Nid atto ef yr eid i geisio *help* i chwareu tipyn o "dro" â chydfyfyriwr. Yr oedd yno rai y gellid cyfrif arnynt am hyny. Gwyddid eu bod yn mwynhau gwaith felly yn fawr, ond nid oedd Mr. Hopkins yn eu mysg hwythau ychwaith. Rhodiai yn wastad o ddydd i ddydd, ac nid ymollyngai i eithafion o fath yn y byd unrhyw amser. Nid oedd berygl iddo anghofio ei hunan, yr oedd ei hunan-lywodraeth yn rhy lwyr. Yr oedd yn fyfyriwr diwyd a da, a gwnaeth ddefnydd llawn o'i gwrs athrofaol. Gweithiai yn gyson a rheolaidd o ddydd i ddydd. Nid pawb oedd yno ar y pryd hwnw oedd wedi cael y ddawn hono. Gwell oedd gan ambell un wneyd gwaith dau ddiwrnod mewn un a chael y blaenaf o'r ddau at ddarlleniadaeth gyffredinol neu rywbeth arall. Felly y mae o hyd yn ein colegau debygwn. Ond cyfrifai Mr. Hopkins ar hyn a hyn o waith bob dydd, a mynai ei wneyd, ac yn ddiddadl, dyna'r cynllun goreu. Nis gallai athraw, nac aelod o bwylgor gwyno dim arno am ddiffyg ymrôad, ac erbyn diwedd ei gwrs yr oedd wedi casglu toraeth o wybodaeth fuddiol a da. Nid oes genyf argraph clir am dano fel pregethwr, gan na chefais ond cyfleusderau anfynych i'w wrando oddi allan i'r coleg. Clywais ef yn y coleg fwy nag unwaith, ond nid yw dyn i'w farnu fel

pregethwr oddiwrth a wnaï yn y fan hono yn sier. Yr oedd y difrif-oldeb a nodweddaï Mr. Hopkins yn cael ei daflu i'w gyflawniadau yn y pwlpu. Yr oedd ganddo genadwri dda, gref, un y byddai wedi cymeryd trapherth gyda hi, a thraddodai hi fel un yn teimlo ei phwysigrwydd. Nid ofnai w̄g, ac ni ddybynai ar wên neb, eithr tynai ei nerth o bwysigrwydd anghydmorol y gwaith, ac ai yn ei flaen. Gyrfa fer fu yr eiddo ef yn y weinidogaeth, pum mlynedd yn Aberavon, ac un arall yn Nghongwynlais, a dyna'r oll. Ymaflodd twymyn ynddo yn nechreu y flwyddyn 1882, yn Nghongwynlais, ac er pob ymdrech i'w arbed bu farw Ion. 24ain, yn 32 mlwydd oed. Pe yr estynasid ei einioes yr oedd ynddo ddefnyddiau dyn gwerthfawr. Nid oedd neb yn fwy awyddus i wneuthur daioni, a gwnaeth lawer mewn tymor byr. Yn ddiau, cyfrifa y Meistr mawr y bwriad yn ogystal a'r cyflawniad, os bydd yn fwriad pur, anhunangar, a da, a chredwn fod yr eiddo ef felly. Ddydd ei angladd yn hen fynwent enwog y Groes Wen, lle y tawel huna cynifer o genhadau Duw, dygwyd tystiolaeth gref i'w waith gan rai a'i hadwaenent yn dda. Pan torwyd ef i lawr yr oedd newydd ddechreu cael blas ar wasanaethu yn Saesneg i'r eglwys yn Nghongwynlais, a phethau yn sirioli a bywiogi o'i gylch. Edrychai ym mlaen at gael cynulleidfa dda, ac yr oedd pob arwyddion y cai, oblegid yr oedd wedi dyblu ym mhen ychydig fisoedd. Nid peth hawdd i un fel efe, wedi ei ddwyn i fynu mewn cymydogoeth mor drwyadl Gymreig a Chwmllynfell, oedd troi i'r weinidogaeth Seisnig. Y mae yn wahanol iawn erbyn hyn. Mae y 30ain mlynedd diweddfaf wedi cyfnewid pethau yn fawr, a bellach y mae pob pleutyn Cymreig yn cael cynefino a siarad Saesoneg. Gwahanol iawn oedd pethau 40ain mlynedd yn ol, yn enwedig mewn ardaloedd trwyadl Gymreig fel Cwmllynfell. Ond yr efe wedi llafurio yn galed i feistrolï Saesneg. Dengys ei gyfieithiadau o Seeker a'r "Fodrwy Briodasol," ac o'r llyfr adnabyddus ar Garfield, "O'r Caban Coed i'r Tŷ Gwyn," ei fod wedi llwyddo yn dda. Wrth ei gladdu yn y Groes Wen, yr wythnos olaf o Ionawr, 1882, a chofio ei gymeriad glân, ei gymwys-terau lliosog, ei awydd mawr am fod o wasanaeth yn y Wiullan, a'i ymrodd didor yn ei waith, gofynai aml un, "Wel! Wel! Beth all fod ystyr hyn?" Dyna'r teimlad, yn arbenig wrth ganfod y weddw a'r plant bychain a adawodd o'i ôl.

Wm. M. Rees. Eglwysnewydd.

MAB ydoedd y gweinidog ieuange a gobeithiol hwn i'r Parch. Joseph Rees, Pont-rhydfendigaid, swydd Aberteifi, yr hwn oedd yn weinidog parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a brawd i'r Parchn. Thomas Rees (T.C.), Ffynon Taf; J. Rees, Treherbert; a James Rees, Mere Wether, New South Wales, Awstralia. Ganwyd ef yn Mhontrhydfendigaid Mai 8fed, 1843. Bu yn yr ysgol yn Ystradmeurig, yn y Coleg Normalaidd yn Abertawe, a chyda'r Parch. J. B. Jones, B.A., Penybont-arogwy. Derbyniwyd ef i Athrofa Aberhonddu yn mis Mehefin, 1868, ac wedi iddo dreulio ei dymor athrofaol, cafodd ei ordeinio yn weinidog i'r Eglwysnewydd, ger Caerdydd, Gorphenaf, 1872. Heblaw gwasanaethu yn Eglwysnewydd bu yn pregethu Saesoneg yn lled gyson mewn lle cyfagos yng nglyn a'r eglwys, ac yr oedd yn gymeradwy iawn gan bobl ei ofal, a chan yr holl ardal. Corph gwanaidd a gafodd, ac ymaflodd y darfodedigaeth ynddo, a bu farw yn nhŷ ei fam yn Nreherbert, Mehefin 3ydd, 1874. Claddwyd ef yn mynwent y Groes Wen, lle y gorweddodd llwch llawer o genhadon hedd, a rhoddwyd careg ar ei fedd gan gyfeillion Moriah, Aman, Treherbert, a'r Eglwysnewydd. Er fod yr ysgrifenydd yn llafurio (pan saerniwyd yr ysgrif) yn yr un cyfundeb ag ef, ac yn un yn gweinyddu yn ei angladd, nid oes ganddo ond ychydig i'w ddwyd am dano, gan mai am dymor byr iawn y bu yn y weinidogaeth. Diau, pe cawsai fyw oes faith, y buasai gan rywun lawer i'w grybwyll yn ei gylch. Yr oedd yn weinidog ieuange ymroddgar ei yspryd a dilychwin ei gymeriad. Meddai ar radd helath o ddawn swynol ei berthynasau gweinidogaethol, a phe cawsai fyw i sylweddoli ei amcanion ei hun, a gobeithion ei gydnabod, diameu y buasai yn weinidog adnabyddus a dylanwadol iawn, ond gostyngwyd ei nerth ar y flordd, byrhawyd ei ddyddiau, a siomwyd ei gyfeillion. Ar un olwg, ymddengys yn anesboniadwy i'r eithaf fod gwr ieuange gweithgar, selog, talentog, yn cael ei symud yn mlodau ei ddyddiau; ond pan gofir nad yw amcan y byd hwn ynddo ei hun, ond yn y nesaf, canfyddir mai nid methiant oedd ei farwolaeth gynar, ond ei fod drwyddi yn cael myned i gylch uwch i wasanaethu ei Arglwydd. Yn ngoleuni byd arall y gellir iawn ddarllen y byd hwn.

Allan o "ALBUM ABERHONDDU."

David Richards, Caerphili.

UN o blant Brynberian, Sir Benfro, oedd y Parch. David Richards. Cadwai ei rieni dyddyn o'r enw Rafael, ym mhlwyf Meline, ac yno y cafodd ef a phedwar o frodyr eu hargraph grefyddol gyntaf, o dan ddysgeidiaeth ac esiampl mam dduwiol. Saer llongau oedd ei dad, a bu farw pan oedd y plant yn ieuaine iawn. Parodd hyn i David adael ei gartref yn foreu, er enill ychydig yng ngweithiau Mynwy, i gynorthwyo ei fam i ddwyn y gweddill o'r teulu i fynu. Yn lofa Coalbrookvale, lle y gweithiai, digwyddodd tanchwa, pryd y cafodd ei losgu yn fawr, fel y bu raid iddo orwedd yn ei wely am fisocedd, a dygodd nodau'r ddamwain yn ei wyneb ar hyd ei oes. Parodd y newydd blin ofid mawr i'w fam, a chychwynodd yn ddiymdroi tua Blaenau Gwent, a chan nad oedd y cyfleuserau teithio presenol i'w cael y pryd hwnw, bu yn cerdded mor galed, nes erbyn cyrhaedd pen ei thaith yr oedd ei hesgidiau yn llawn gwaed. Ar ol myned i ystafell wely ei mab, yr oedd yn amheu braidd mae Dafydd oedd yn gorwedd yno, gan fel yr oedd ei wyneb wedi ei anffurfio, ac nid ymfoddlonai mae efe ydoedd hyd nes iddi gael gosod ei llaw mewn man neillduol ar ei ben, pan y llefodd allan "Ie wir, 'y mhlentyn i yw e'." Cyfansoddodd farwnad deimladwy o chwe chan llinell ar ol ei fam. Er yn blentyn yr oedd yn hoff o lyfrau, ac yn ei nychdod bu yn fyfyrar iawn. Yr oedd ei chwaeth at y pur a'r crefyddol yn nodwedd bwysig yn ei hanes. Ar ol ei adferiad bu yn cadw ysgol am beth amser yn ardal ei enedigaeth, ardal oedd yr amser hwnw yn isel iawn o ran breintiau a chyfleuserau addysg. Bu ar ol hyn yn ysgolfeistr gerllaw Aberhonddu. Tueddai yn gryf at y weinidogaeth, a gwelid ynddo gymhwysderau neillduol i'w gymeradwyo i'r gwaith da hwn. Dechreuodd bregethu yn eglwys y diweddar Caleb Gwion yn Aberhonddu, ac o dan ei gyfarwyddyd ef perffeithiodd ei addysg fel ag i'w alluogi i gael derbyniad i Goleg Aberhonddu yn 1851. Yn ystod y pedair blynedd y bu yno dabblygodd fel myfyriwr, yn neillduol yn y Clasuron. Derbyniodd alwad yn 1855 i Llanelli, Sir Frycheiniog, lle cynyddodd ei fri fel pregethwr yn fuan a bu galw mawr am ei wasanaeth. Ar ol saith mlynedd o lafur caled a llwyddianus, symudodd i Bethel Caerphili, yr hon oedd yn eglwys newydd ei ffurfio. O dan ei weinidogaeth helaethwyd y capel yn 1866 drwy draul o £800. Adeiladwyd Saron, Bedwas, yn 1891, pryd y



Parch. D. RICHARDS.

teimlwyd eto angen am helaethu Bethel; ond nid oedd tir i'w gael oddiwrth Ardalydd Bute, yr hwn, er hyny a ddatganodd ei barodrwydd i brynu'r capel am £1,800. Penderfynwyd iddo ei gael, ac adeiladwyd capel newydd ar dir a roddwyd yn rhad i'r eglwys gan y diweddar Henry Anthony, Ysw., Y.H., un o'i diaconiaid fyddlonaf. Agorwyd y capel, yr hwn a saif ychydig allan o'r dref ar heol Nantgarw, yn 1895. Ymfoddlonodd Mr. Richards yn 1898 ar gais amryw o'r aelodau i ffurfio Eglwys Annibynol Seisneg yng Nghaerphili, a chafodd ei foddhau yn fawr gan yr ysbryd brawdol a nodweddai y sefydliad. Yr oedd yn selog dros ben o blaid yr Ysgol Sul, y Gobeithlu, a Chorau'r capel. Cynullai gor y plant yn flynyddol ar foreu Nadolig mewn cyfarfod i adrodd a chanu, a gwobrwyai hwynt a llyfryn ar ei draul ei hun. Cyfrasai yn hael at wahanol achosion. Rhoddodd £50 at yr "Organ," adeiladwyd yn yr addoldy newydd, a chasglodd dros gan punt at y gweddill o'r ddyled mewn llai nag wythnos o amser.

Fel bugail yr oedd yn ofalus, ac yn feddiannol ar synwyr cyffredin cryf, ac yn hynod o ddoeth a medrus i lywyddu. Llanwodd gylch eang yn ei enwad, bu yn Gadeirydd Cymanfa Morganwg, a thraddododd anerchiad gerbron yr Undeb Annibynol Cymreig. Amlygai ei bregethau feddwl treiddgar a byw i ddadgymalu pynciau dyrys a gallu i greu drychfeddyliau cynhwysfawr. Dewisai eglureb darawiadol a thynai ddarlun cain. Yr oedd yn Wleidyddwr goleuedig a gweithiodd yn ddyfal er gwella addysg elfenol y dref; ac mae trigolion y lle yn ddyledus iddo ef a'i gyfeillion "Eurglawdd" a Henry Anthony am yr Ysgol Frytanaidd sefydlwyd yno. Bu o wasanaeth nodedig gyda chaniadaeth y cyssegr, ac erys "Swn Addoli" yn gofologofn i'w lafur yn y cyfeiriad hwn. Ysgrifennodd lawer i'r wasg, ac yn arbenig un ysgrif nodedig o darawiadol a chref, ar "Y Canu Cynulleidfaol" i'r *Beirniad*, 1865-6. Llyfr 7, tudalen 245-263.

Ei blant yn y ffydd ydynt: Dr. L. Probert, Prifathraw Bala-Bangor, y Parch. Edward Bush, Caerphili, a'r Parch. T. S. Davies, Briton Ferry. Yr oedd ganddo barch dwfn i sefydliadau'r Genedl. Cadwai y cyntaf o Fawrth yn ffyddlon er cof am ein Mabsant, ac arlwyai'r byrddau a gwledd i'r Côr a'r plant ar y dydd, ac ar ol arwyddion amlwg fod ei babell yn dadfeilio, bu yntau farw ar Wyl Ddewi 1900. Claddwyd ef ym Mynwent y Groes Wen ar y Mercher canlynol, cafodd angladd barchus, a'r lluosocaf welwyd yng Nghaerphili erioed.

Joseph Jones, Bryste.

I FYNWENT y Groes Wen y daeth y diweddar Barch. Joseph Jones, Bryste (fel yr adwaenid ef), i gadw ei noswyl. Brodor o Llanfaircaereinion, Maldwyn, oedd efe. Dygwyd ef i fynu yn ofn Duw, pasiodd i Goleg y Bala yn foreu iawn yn hanes y sefydliad hwnw. Yr oedd yn weithiwr caled, yn ddyn deallus a chraff, ac yn ysgolhaig Groegaidd uwchraddol. Cyfansoddodd liaws o bregethau, cyhoeddodd amryw, a gwerthai hwy am ychydig o geiniogau. Dyn tal, teneu, yn gwisgo gwydrau ydoedd; yn siaradwr coeth, ond ni fwriadodd y nefoedd iddo erioed godi ei lais. Ordeiniwyd ef gerllaw ei gartref yn Saron a Sardis, Maldwyn; symudodd oddi yno i bregethu a chadw ysgol yn y Rhiw, Nantglyn a Llansanan. Oddi yma cafodd alwad drachefn i Jerusalem, Coed-duon, Mynwy; a maes olaf ei lafur yn y cymeriad o weinidog *sefydlog* ydoedd, gyda'r Cymry yn Lower Castle Street, Bryste. Aeth i Bristol yn y flwyddyn 1857, ar gymeradwyaeth yr Hybarch B. Owen, Soar, Merthyr, ac arhosodd yno, gan nofio yn erbyn y llif am dros ddeng mlynedd. Wedi hyn bu fel pererin gwibiol, yn "galw am oleu"—yn symud o fan i fan, yn rhwymo llyfrau ar yr wythnos, yn eferyglwr teithiol parchus a diabsen, ac yn pregethu ar y Sabboth lle a phryd bynag y gelwid am ei wasnaeth. Bu farw yng Nghaerfili, gan adael gweddw unig i alaru ei cholled o'i ol. Claddwyd ef yn unol â'i ddymuniad mewn rhan o fynwent newydd y Groes Wen, a gosododd eglwys barchus Bethel faen coffa tlws uwchben ei argel wely, ac arno yn gerfiedig:—

In loving Memory of the
Rev. JOSEPH JONES, Congregational Minister,
Caerphilly (late of Bristol),
Who died July 2nd, 1888. Aged 63 years.

"Blessed are the dead which die in the Lord,"

M. C. Morris, Ton, Ystrad, Rhondda.

G ANWYD ef ar y 6ed o Awst, 1845, yn y rhan ogleddol o Sir Aberteifi, ger Salem, Bow Street, ac yn eglwys Salem, Ceredigion, y dechreuodd bregethu. Yn Athrofa Aberhonddu y derbyniodd ei addysg ar gyfer gwaith y weinidogaeth. Ar ol gorphen ei efrydiaeth yn y coleg ordeiniwyd ef yn weinidog i Eglwys Bethlehem, Pentyrch, yn y flwyddyn 1874. Oddi yno symudodd i ofalu am Eglwys Salem, Coedpoeth, yn y flwyddyn 1880. Yn y flwyddyn 1882 derbyniodd alwad eilwaith i ddychwelyd i Sir Forganwg, sef i Ton, Ystrad, ac yno y treuliodd y deunaw mlynedd diweddaraf o'i fywyd, mewn llwyddiant a pharch yn ei faes gweinidogaethol, yn ogystal ac yn nghylchoedd poblog y Rhondda. Nis gwnawn ond bron cyffwrdd â rhai o nodweddion arbenig athrylith y bardd a'r pregethwr.

O ran *ardull naturiol* meddai ar elfen gref o *annibyniaeth meddwl*.—Safai Mr. Morris ar ei wadnau ei hun pob amser; ffurfiar syniad a barn bersonol ar wahanol byngeiau; ac nid ar frys y cawsai ef ei lithio i unrhyw gyfeiriad am fod eraill yn syniad felly; nid oedd barn y lliaws yn cyfnewid nemawr ar ei farn bersonol ef. Yn y peth hwn cyfranogai yn helaeth o natur y *diwygiwr*. *Gwreiddiolder*: eto, yr oedd Mr. Morris yn enwog am ei wreiddiolder, byrlymai ei feddwl cryf a chlir syniadau newydd ar feusydd cyfoethog yr ysgrythyr, a dygai y rhai a'u gwrandawodd am flynyddoedd dystiolaeth ei fod yn rhoddi gwledd barhaol, yn neillduol ar foreu Sabbath, i'w wrandawyr o esboniadaeth newydd a dyddorol; yn gymerai â rhyw epistol, neu ddarn o'r Gwirionedd, a phregethau gyfres o bregethau arno, gan adael argraff argyhoeddiadol a pharhaol ar y gynulleidfa.

Eto, *brwdfrydedd ei ysbryd*.—Llosgai ei enaid mewn brwdfrydedd, a diau fod cynhesrwydd ei ysbryd gwrol wedi bod yn foddion i fyrhau ei einioes. Nis gallai ymasfyd mewn unrhyw orchwyl gyda difaterwech ac oerni, ond mewn llawn gwres ac yni. Molir llawer ar enwogion a phregethwyr poblogaidd Cymru, y rhai fu yn llosgi yn ddisglaer fel y "*berth*," ger bron y tyrfaeodd (ond nid oeddent hwy fel y "*berth*" gynt yn llosgi heb eu difa); a pha bwlpudd sydd a'r fath dân wedi llosgi ynddo a phwlpudd Cymru? A da y gwneir foli coffadwriaeth pregethwyr poblogaidd y genedl. Ond mae wedi bod yn Nghymru

ac i'w cael yma heddyw lu o weinidogion, na thalwyd y deyrnged ddyledus o barch iddynt; y rhai sydd yn llafurio gyda dyfalwch a llwyddiant mawr, ond *o'r golwg* i lygnid y cyhoedd; y rhai sydd a gwres gwirionedd yr efengyl yn eu calon, ac yn ei gyflwyno gyda chynnesrwydd Sabboth ar ol Sabboth i'w cynnulleidfaoedd, llawer o bari sydd yn derbyn y gwirionedd yn aml yn oer a difater; a'r pregethwr felly yn llafurio yn galed heb dderbyn nemawr o folawd ag edmygedd y cyhoedd. Er fod Mr. Morris yn bregethwr poblogaidd, eto llafur y myfyriwr a'r gweinidog selog yn ei faes ei hun ai nodweddai yn benaf. Am y gwr da hwn gellir dyweud, "Llosgodd y fegin; gan dan y darfu y plwm."

Eto yr oedd Mr. Morris yn feddianol ar argyhoeddiadau cryfion. Argyhoeddiadau o wirioneddau ysprydol yr efengyl; argyhoeddiadau hefyd o'r rhwymedigaeth sydd ar Eglwys Crist i ddwyn ei gwaith yn mlaen mewn trefn ac urddas teilwng o'i swyddogaeth uchel yn y byd. Cof genyf un tro i fod yn gwrando arno yn llefaru, a'i enaid wedi ei danio gan argyhoeddiad cryf yn erbyn yr ymgipris am swyddau ac awdurdod yn eglwys Crist, a dynion anghymwys yn ymwithio i gylchoedd cysegredig heb gymhwysder, gan wthio dynion puraf a goreu yr eglwysi o'r golwg ac o'r neilldu. Ceid yn Mr. Morris wrthwynebydd cryf i bob ffurf ar orthrwm, yn neillduol gorthrwm crefyddol. Yr oedd yn fyfyrwr caled ac yn fardd tra adnabyddus. Enillodd y goron am y bryddest arwrol ar "Rhys Ap Tewdwr" yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd yn 1893. Bellach, er ys talm, y mae ef yn huno yn mhlith llu o feirdd a phregethwyr enwog Cymru, ym monwent henafol y Groes Wen; ond y mae ei goffadwriaeth yn fyw, a ffrwyth ei lafur yn Pentyrech, Coedpoeth, a'r Ton yn aros ym mywyd a flydd y rhai a ddechwelwyd o dan ei weinidogaeth ac a adeiladwyd ganddo yn y "gwirionedd."

Lemuel Smith.

GANWYD ef yn 1815, ac yn dra ieuanc derbyniwyd ef yn aelod yn Rehoboth, Brynmawr, lle hefyd y dechreuodd bregethu. Symudodd gyda'i dad i weithio i Dowlais, ac ymaelododd yn Methania. Yn bump-ar-hugain oed derbyniodd alwad o Taihirion a Bethlehem, Pentyrech, ac efe oedd y pedwerydd gweinidog fu ar yr eglwysi hyn. Cynhaliwyd cyfarfod ei urddiad yn Nhahirion, Chwefror 20fed, 1840, pryd y cymerwyd rhan gan y Parchn. Lewis Powell, Caerdydd; W. Jones, Penybont, ac eraill.

Yn y misoedd cyntaf teimlai y gweinidog ieuanc nad oedd dim llwyddiant ar ei lafur, ac un bore Sabboth ar ei ffordd i Taihirion aeth ar ei liniau wrth ymyl camfa i ofyn i Dduw beth a wnaï—myned yn ol i'w hen waith fel mwnwr neu ynte ddal ymlaen? Credai hyd ei ddiwedd iddo glywed llais yn dweud wrtho am beidio diystyru dydd y pethau bychain. Calonogwyd ef gan yr atebiad, ac er mai byr fu ei oes, bu fyw i weled Duw yn llwyddo ei waith.

Dyn bychan, eiddil, o bryd goleu ydoedd, yn meddu ar lais persain a pharabl rhwydd; a diameu, fel y sylwir yn "Hanes Eglwysi Annibynol, Cymru," pe cawsai fywyd ac iechyd, y buasai wedi dod yn boblogaidd iawn fel pregethwr, ond—

"Ei seren deg fachludodd cyn i'w ddydd
Braidd gyraedd y cyhydedd."

O dan ei weinidogaeth, a thrwy ei gefnogaeth ef y sefydlwyd yr achos yn yr Efalifaf, ond ni chafodd weled cwblhau y capel. Pregethai ar nos Fercher mewn ystafell yno, pan y torodd llestr gwaed yn ei ddwyfron. "Canwyll a losgai y ddeupen," oedd disgrifiad y Parchn. W. Griffiths, Llanharan, o hono. Bu farw Mawrth 6ed, 1842, yn 27 mlwydd oed, ac ar gareg fechan ei fedd mae'r penill canlynol:—

"Na wylwch ddim, na fyddwch drist,
Am neb sydd wedi huno'n Nghrist;
'Does yma ond y corph o glai,
Mae'r enaid fry yn llawenhau."

Y Parch. John Jones.

DYWED "Hanes yr Eglwysi" am ei dad, y Parch. Methusalem Jones, "na fu nemawr o weinidog yn Morganwg wnaeth gymaint at helaethu terfynau yr enwad Annibynol," a chyfranogai y mab o'r un yspryd gweithgar.

"Y da wneir ydyw ein hoes,
Ac wrth hyn bydd gwerth einioes"

Ganwyd John Jones yn 1813, a dechreuodd bregethu yn eglwys ei dad, Bethesda, Merthyr. Yn Ebrill, 1838, urddwyd ef yn y Rhydri. Am rai blynyddoedd bu'n gofalu am y Watford ynghlyn a'r Rhydri. Yna rhoddodd Bethlehem, Pentyrc, ei hun dan ei ofal, ac ymhen ychydig dilynodd yr eglwys yn Nghongwynlais esiampl ei mam eglwys. Yn 1867 rhoddodd Mr. Jones y Rhydri i fynu, a chyfyngodd ei hun i'r ddwy ddiweddf. Cymerodd ran flaenllaw yng nghychwyniad yr achos yn Nghongwynlais; efe hefyd draddododd y bregeth gyntaf pan y dechreuwyd achos Annibynol yr Eglwysnewydd. Ymgasglai yr Annibynwyr at eu gilydd yn Nantrhydwathle, yn y tŷ bychan fu gynt yn efail gof. Yno y pregethodd ar brydnawn Nadolig, 1848. Ffurfiwyd eglwys yn y lle tua'r un adeg, a bu ei gofal ganddo am rai blynyddoedd.

Helaethwyd Bethlehem ddwywaith dan ei weinidogaeth, a phan y gwelwyd fod yn rhaid cael capel newydd mewn man mwy manteisiol, efe sicrhaodd y tir, er na chafodd fyw i weled dechreu adeiladu. Teimlir dylanwad ei fywyd a'i waith hyd yn awr yn y cylchoedd y llafuriodd ynddynt, ac erys ei goffiadwriaeth yn anwyl a pharchus ymhlith teulu'r fflydd yn y gym'dogaeth.

Bu farw Mehefin 14eg, 1872, yn 59 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn y Groes Wen. Traddodwyd pregethau angladdol gan y Parchu. Dr. Rees, Abertawe, a Price, Siloah, Aberdar.



Dr. E. GURNOS JONES.

E. Gurnos Jones, Ll.D.

MEWN ysgrif mor fêr a hon y mae yn amhosibl i ni allu gwneyd mwy na phrin gyffwrdd â phrif ffeithiau a digwyddiadau bywyd, a phrif nodweddion athrylith a chymeriad y gwr enwog a galluog hwn.

Ganwyd y Parch. E. Gurnos Jones, Ll.D., yn y flwyddyn 1840, mewn amaethdy o'r enw Hendre Llywarch, ger Gwernogle (neu Gwernogau, fel y mynai ef ei alw), ym mhlwyf Brechfa, Sir Caerfyrddin. Bu farw ei fam pan ydoedd tua deuddeg oed, a cholodd ei dad ym mhen tua phedair mlynedd wedi hyny. Felly cafodd flas dyfroedd March yn gynar iawn.

Symudodd i Ystalyfera pan yn ieuanc, a bu yn gweithio yn y gwaith alcan yno am beth amser. Ond darllen a myfyrio oedd hyfrydwch penaf Gurnos er yn ieuanc iawn. Hoffai farddoniaeth, a rhoddodd brofion cynar ei fod yn un o blant yr awen, ac yu 1857 ennillodd ei wobwr gyntaf mewn cystadleuath farddol. Yn fuan wedi hyny, cawn iddo ddechreu pregethu, ac yr oedd ei ymdrechion cyntaf, meddir, yn addewidion am ddyfodol llwyddiannus. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn Ysgol Ragbarotoawl y Parch. Thomas Jones, Brechfa, pasiodd i Goleg Caerfyrddin. Bu yno bedair blynedd, ac yu 1867 ymsefydlodd yn weinidog Eglwys yr Annibynwyr yn Nhrefrei, a llafuriodd yn ddyfal yno am rai blynnyddau.

Symudodd o Dhrefrei i gymeryd gofal yr Eglwys Annibynol yn Nhalysarn, a bu yno am oddentu pedair blynedd yn gweithio yn gydwybodol. Tra yno, daeth rhai o'r nodau pereiddiaf, a rhai o'r mwyaif lleddf, i Salm ei oes; oblegid yno yr ymbriododd, a bu ei anwylyd ieuanc farw ym mhen blwyddyn, gan adael Giraldus yn faban bychan yng ngofal ei dad.

Yn fuan wedi hyny dychwelodd Gurnos yn ol i Ddenddir ei wlad; ac o herwydd rhyw resymau, ymunodd âg enwad y Bedyddwyr. Oddeutu y flwyddyn 1899 cymerodd ofal yr Eglwys Annibynol yn Lower Castle Street, Bristol.

Yn 1900 cymerodd ofal Eglwys Annibynol Gymreig Llanbradach, ac yno y bu hyd nes y gorphenodd ei yrfa. Bu farw yn sydyn boreu dydd Mercher, Rhagfyr 16eg, 1903, yn ei gartref yn Llanbradach. Claddwyd ef y dydd Mawrth dilynol ym mynwent y Groes Wen. Bu farw Mrs. Jones, yr hon a fu yn priod tyner i'w gwr, yn Blaenau, Mynwy, pan a'r ymweliad a rhai o'i hen ffryndia, ar Dydd Sul, Mehefin 12, 1904.

Enillodd Gurnos safle uchel iddo ei hun fel siaradwr cyhoeddus meistrolgar iawn. Medrai gyffwrdd â gwahanol dannau y galon yn rhwydd, a gyrru y gwrandawyr i wlo a gwenu bob yn ail. Rhoddodd sylw mawr i reolau areithyddiaeth, a medrai adrodd a darllen yn effeithiol iawn.

Yr oedd yn bregethwr gwir dda, a'i holl bregethau yn llawn o amrywiaeth di-dor. Yr oedd ei ddrychfeddyliau cryfion a barddonol, ei ddesgrifiadau bywiog, a'i ddull cyffrous a dramayddol o draddodi y genadwri yn enill sylw y cynulleidfaoedd yn naturiol. Pregethodd mewn llawer o gyfarfodydd pwysig yn Neheudir a Gogledd Cymru, ac yn rhai o brif wyliau yr enwad. Pregethodd yn Nghyfarfod Chwarterol Dwyrain Morganwg, a gynnaliwyd yn Nghilfynydd yn 1901; ac yng Nghymanfaoedd Morganwg yn y Barry, Crwys, ac Ynysybwll. Yr oedd bob amser yn ddifyr, dyddorol, a gwir addysgiadol, ac weithiau pregethai gyda dwysder a difrifoldeb mawr.

Darlithiodd lawer ar y testynau, "Dynion Od," "Caru, Priodi," "Glaniad y Ffrangcod yn Abergwaun," &c., ac yr oedd bob amser yn wir dderbyniol.

Fel Arweinydd Eisteddfodol yr oedd yn anhawdd cael ei well. Yr oedd ei bresenoldeb mewn Eisteddfod yn sicrywdd am gyfarfod hwylus a byw. Meddai allu neillduol i gadw cynulleidfa yn dawel a boddlon, a hyny yn fynych mewn amgylchiadau anffafriol. Llwyddodd i dawelu cynhwif blin mewn llawer cyfarfod, a dwyn y bobl allan o'r ysturm i'r heulwen.

Fel bardd cyrhaeddodd safle anrhydeddus ym mysg beirdd goreu ei wlad. Canodd lawer yn y mesurau caeth a rhydd. Cyfansoddodd amryw ddarnau adroddiadol difyr ac addysgiadol, rhai telynegion swynol, caneuon ac englynion duchanol, a rhai darnau tyner a thoddedig. Cystadleuodd lawer, a bu yn llwyddiannus iawn yn rhai o brif Eisteddfodau ei oes. Ei brif fuddugoliaethau oedd y rhai canlynol:—Cadair Genedlaethol Bangor, 1874, am awdl, "Y Beibl"; Cadair Eisteddfod Caerdydd, 1876, am awdl, "Greddf"; ennillodd wobr hefyd am Pflugchweil yn yr un Eisteddfod; Cadair Genedlaethol Rhyl, 1892, am awdl, "Y Cenhadwr"; Cadeiriau Abercarn, Alltwen, Maesteg, a'r Rhondda, ynghyd a llawer o wobrwon pwysig ereill yn Eisteddfodau Cymru a'r Amerig. Yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1877, enillodd wobr am y Ddrama Gymreig oreu, y testyn oedd "Owen Tudor." Cyfansoddodd awdliau, a darnau dramayddol ereill o deilyngdod uchel iawn.

Ym marwolaeth Gurnos, collodd Cymru un o'i meibion mwyaf adnabyddus, athrylithgar, gwladgarol, caredig, diniwed, a gwasanaethgar, ac un o'i beirdd goreu.



THE MANSE, GROES WEN.
Residence of Rev. C. TAWELFRYN THOMAS.


Nantgarw.

PENTREF prydferth ar lan y Tâf ydyw Nantgarw, yn sefyll tua milldir a chwarter i'r Dé o'r Groes Wen. Nid oedd ond tua dwsin o dai yno ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif; yn cael eu gwneud i fynu o shop gôf, melin, a dau dafarndy, ac ychydig o dai gweithwyr. Agorwyd Camlas (*canal*) Morganwg yn y flwyddyn 1797, ac adeiladwyd gweithfa *china* enwog yno yn nechreu 1800 gan Meistri Blesley a Pardoe. Yn fuan daeth y weithfa hono yn enwog dros gyfaudir Ewrop, a dywedir gan y tadau fod cerbydau prif foneddigion y deyrnas i'w gweled yno yn fynych yn dyfod i brynu y llestri *china* a wnaed yn y weithfa hono. Telid symiau mawrion am y llestri hyn ar gyfrif prydferthwch eu gwneuthuriad a rhagoroldeb eu defnydd. Bu hyn yn symbyliad i adeiladu rhagor o dai yn y lle. Agorwyd yn nechreu y ganrif hefyd waith glo Craigrallt gan Mr. Morgan Thomas, Ynysgau; yr hwn a roddodd waith i ugeiniau o'r trigolion, a chynyddodd y pentref yn gyflym. Fel y dywedasom yr oedd tua milldir a chwarter o'r Nantgarw i'r Groes Wen, a theimlai yr hen bobl fod y ffordd ym mhell i gerdded i fynu i'r tylau ddwy waith bob Sabbath i'r addoliad; felly penderfynasant gymeryd ystafell, yr hon oedd yn gwynebu Pont y Gamlas (*canal*) er cynal Ysgol Sabbothol, cwrdd gweddi, neu bregeth nos Sul, a chyrrddau gweddi a chyfeillachau crefyddol yn yr wythnos.

Parhawyd i gynnal cyfarfodydd yn y dull hwn am rai blynyddoedd; yr oedd y cyfarfodydd a'r cynullïadau yn cynhyddu yn barhaus, ac aeth yr ystafell yn rhy fechan a chyfyng. Penderfynodd y frawdoliaeth yn awr i godi capel. Fel y dywedasom, arferent fyned i'r Groes Wen foreu Sabbath, ond cadwent Ysgol Sul yu y prydawn, a chyfarfod gweddi neu bregeth yn yr hwyr yn yr ystafell. Cymerasant ddarn o dir ar *lease* am 99 o flynyddoedd gan Henry Williams, Ysw., Dyffryn-Ffrwd, ar Gae'refail, am y swm o *haner coron* yn flynyddol o rent. Adeiladwyd y capel yn 1829. Enwau y rhai sydd wrth y brydles ydynt y rhai canlynol:—Y Parch Griffith Hughes, a'r Meistri William Lewis, Pont-y-gwindy, William Richards, Caerphili; William Waters, Caerphili; William Williams, Groes Wen; Hopkin Smith, Cwrtycelyn; John Thomas, Nantgarw; John Roberts, Nantgarw; John Morgan, Ffynon

Dáf; ac Evan Jenkins, Nantgarw. Llawnodwyd y weithred ar y Iaf o Fai, 1829. Yr oedd henaint wedi dal yr hen frodyr John Williams, Dyffryn Isaf, a David Jones, Ty'nywern, fel y barnwyd mai gwell oedd cael brodyr ieuengach na hwynt i arwyddnodi y weithred; ond cymerasant hwy ill dau at y gorchwyl o gasglu at y capel, a buont yn offerynol i gasglu y rhan fwyaf o'r arian at yr adeilad. Aethant o gylch yr amaethdai cymydogoethol, a buont yn llwyddianus iawn. Clywsom y diweddar Henry Thomas, Ffwrnes, yn adrodd yr hanesyn canlynol; sef ei fod ef yn fachgenyn ieuanc yn gwasanaethu yn Caerllwyn, Aber, ac yn cofio yn dda iddo weled y ddau hen fonheddwr yn dod heibio i'r lle; ac yn union wedi iddynt fyned ymaith, cafodd ar ddeall mai eu neges oedd casglu at Gapel Nantgarw. Wedi clywed hyn rhedodd ar eu hol i lawr i'r cae o dan y tŷ er mwyn iddo yntau gael rhoddi swllt iddynt; a phan welsant un mor ieuanc yn dangos y fath ysbryd haelionus, ac yntau heb fod yn enill ond cyflog fechan iawn, torodd y ddau hen bererin i wylo, a dywedasant, yr "Arglwydd a'th fendithio." Dywedai, Henry Thomas wrthyf "ei fod yn teimlo fod rhoddi y swllt hwnw wedi bod yn fendith iddo drwy ei oes."

Bu cynydd mawr yn y boblogaeth yn fuan ar ol hyn, ac yr oedd y cynulliadau ar nos Sabbathau yn fawr. Yr oedd amryw o deuluoedd o Ffynon Tâf, Collen Frengig, Tongwynlais, a gwaith Pentyrech yn cyrchu yno i addoli. Yr oedd y gwasanaeth ar y Sul fel y canlyn:—Aent i'r Groes Wen erbyn deg o'r gloch yn y boreu; Ysgol Sabbathol yn Nantgarw am ddau, a chyfarfod gweddi neu bregeth yn yr hwyr. Yr oedd y lle yn orlawn bob nos Sabboth; cafwyd cyfarfodydd hwyliog iawn yno lawer pryd. Deuai y Parch. G. Hughes yno mor aml ac y caniatiai ei iechyd, nid oedd efe yn gryf iawn ym mlynnyddoedd olaf ei fywyd, dioddefai yn dost oddi wrth y gymalwst. Nid oedd y capel cyntaf yn Nantgarw wedi ei godi yn y ffurf a hoffai Mr. Hughes. Yr oedd y mynediad i mewn i'r *gallery* o'r tu allan gyferbyn a'r pwlpudd, yr hyn a barai anhwylysdod mawr i'r pregethwr, ac yr oedd y capel yn ymddangos yn ddwfn ac anghyfleus; yr oedd Mr. Hughes yn ei alw yn *winch*, ac arferai ddyweud "ei fod yn dost am wythnos cyn dod yno, ac hefyd am wythnos ar ol bod yno." Ond er y cwbl cafwyd llawer oedfa nefolaidd yno. Nid oedd Mr. Hughes am rai blynyddau yn gallu myned oddi cartref er fod pawb yn orawyddus am ei wrando; ond o'r diwedd daeth ei boenau yn sydyn i ben, a bu farw yn 1839, er galar mawr i bobl ei ofal, a hiraeth dwfn drwy yr oll o Went a Morganwg, canys machludodd y seren ddisgleiriaf o ffurfafen Eglwys Dduw yn y Deheubarth. Ar ol marwolaeth Mr. Hughes, rhoddodd yr Eglwys alwad i'r Parch. Moses Rees, Pencader, i ddyfod i'w bugeilio; a bu yn llwyddianus



CAPEL NANTGARW.

iawn am flynyddoedd; ychwanegwyd ugeiniau at yr achos yn y Groes Wen a Nantgarw; a phan glywodd ei Eglwys fod yn ei fryd i fyned i Lundain am dair wythnos, er gwasanaethu ei gydgenedl yn yr efengyl; mynasant ei anrhegu a phâr o ddillad o'r gwneuthuriaid goreu, ac o'r toriad diweddfaf gan dalu esgidiau a *het* i fewn er gwella y fargen! Rhoddodd ei iechyd ffordd a bu farw yn Awst, 1856. Y mae ei goffadwriaeth yn barchus ac anwyl gan lawer hyd y dydd hwn. Wedi marwolaeth Mr. Rees, rhoddwyd galwad i'r Parch. W. Caledfryn Williams, a derbyniodd hi, a symudodd i'r lle Ionawr Iaf, 1858; a bu yn fawr ei barch hyd 23ain o Fawrth, 1869; cyfnod hynod o ddedwydd a llwyddianus oedd y cyfnod hwn yn hanes yr Eglwys, ymunodd ugeiniau lawer a'r ganghen hon, sef Nantgarw, yn ystod ei weinidogaeth, o'r rhai a fyddant byth gadwedig. Yr oedd ei sel danbaid a'i hyawdledd digymhar yn foddion i newid ansawdd foesol a chrefyddol yr ardalwyr. Sobreiddiwyd y meddwon, darostyngwyd y cablwyr, a dychwelwyd y rhai garwaf yn cylchoedd drwy nerth ei weinidogaeth, ac o dan fendith Duw. Efengyleiddiwyd a gwareiddiwyd yr holl wlad o gylch. Bu farw Caledfryn yn y flwyddyn 1869, yng nghanol teimladau o alar dwfn a hiraeth cyffredinol. Teimlai pawb fod tywysog a gŵr mawr wedi syrthio yn Israel. Yn ystod ei weinidogaeth ef hefyd yr adeiladwyd Capel yn Nantgarw, yr hwn a gostiodd y swm o 700 o bunau, a'r hwn sydd yn addurn i'r pentref. Digwyddodd un peth ag a fu yn golled fawr i'r wlad yn ei amser ef; safodd gwaith Craig-yr-allt, yr hwn oedd y pryd hwnw yn nwyllaw Meistri. T. W. Booker and Co. Yr oedd y brydles wedi rhedeg allan a methwyd dyfod i ail gytundeb. Bu hyn yn golled anadferadwy i'r ardal a'r achos. Ymadawodd tua 55 o aelodau o'r lle mewn ychydig o wythnosau; yr oedd rhai o honynt yn aelodau defnyddiol a gweithgar, yr hyn a wahaodd yr achos yn fawr. Wedi marwolaeth Caledfryn, bu y lle heb weinidog sefydlog hyd y flwyddyn 1872, pryd y rhoddwyd galwad i'r Parch. W. Nicholson, a'r hon y cydsyniodd, a dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Ngorphenaf, 1872. Cafodd ei bregethu hyawdl ef ddylanwad mawr ar yr ardaloedd cylchynol; ac yn ystod ei weinidogaeth ychwanegwyd rhai ugeiniau at nifer yr aelodau yn nghanen Nantgarw. Ymadawodd Mr. Nicholson yn Rhagfyr, 1876, am *Grove Street, Liverpool*. Cyfnod dedwydd iawn oedd cyfnod gweinidogaeth Mr. Nicholson yn hanes Nantgarw.

Yn y flwyddyn 1879 daeth Mr. C. Tawelfryn Thomas o'r Coleg ar ymweliad â'r Groeswen a'r canghenau, a rhoddodd foddhad mawr i'r Eglwys a'r gynulleidfa. Rhoddasant alwad unfrydol iddo, yr hon a dderbyniodd. Dechreuodd ar ei weinidogaeth ar y cyntaf o fis Ionawr, 1880. Cynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad yr wythnos gyntaf o'r un mis. Y mae yn awr wedi bod yma am yn agos i chwarter canrif. Am

y cyfnod maith hwn y mae wedi bod yn ddiwyd, flyddlawn ac ymroddgar yn holl gylchoedd ei swydd bwysig; yn cydymdeimlo â'r galarus yn eu trallod, yn cynnorthwyo y tlawd a'r anghenus, mor bell ag y caniaa ei amgylchiadau; mae ei bresenoldeb bob amser yn sirioli yr isel eu meddwl; ac, fel ei Athraw, mae ei chwaeth bur, ei gydymdeimlad tyner a'i gymdeithas ddyddorol yn dyrchafu pawb yn nghylchoedd eang ei gydnabyddiaeth; a gweddi yr eglwys sydd o dan ei ofal a'r cylech y mae yn gweini ynddo ydyw, am nodded Rhagluniaeth fawr y nef drosto, a bendith ac arweiniad Ysbryd Duw iddo yn holl gylchoedd ei waith cyhoeddus. Adnewyddwyd Capel Nantgarw yn 1902, yr hyn a gostiodd £200 o bunau, a thalwyd yr oll mewn tri mis; y mae yr adeilad felly yn rhydd o ddyled, ac y mae yn gapel hardd. Gallasem enwi amryw o gymeriadau fu yn perthyn i'r ddiadell yma a fuont yn wasanaethgar iawn gyda'r achos yn y lle, a flyddlawn gyda holl amgylchiadau yr Eglwys. Un a fu yn flyddlawn iawn oedd Mr. John Thomas, Nantgarw; tadcu Thomas Morgan, Ysw., Hamburg. Bu yn llanw y swydd o ddiacôn a phregethwr cynnorthwyol am flynyddau. Dywed y Salmydd, "Y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth." Yr oedd y gwr parchus uchod yn deilwng o gofiant helaeth: a da fuasai genyf pe buasai rhywun wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o wneuthur hyny iddo. Bu yn proffesu crefydd am tua 66 o flynyddoedd. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gan y diweddar Barch. W. Jones, ym Menybontarogwy; a dechreuodd bregethu pan ond 13eg oed, a pharhaodd yn bregethwr teilwng a chymeradwy hyd oni analhuogwyd ef drwy ergyd o parllys yn mis Medi, 1858. Ni allai lefaru yn gyhoeddus wedi hyny; ac, yn wir, ni allodd fyned nemawr o'i dŷ ar ol hyn. Bu fyw yn Nantgarw am tua 43 mlynedd, a bu yn gymhorth mawr i'r achos yno fel aelod, diacon, a phregethwr; bu ef a'r diweddar Barch. Griffith Hughes yn gyfeillion mynwesol tra fuont byw gyda'u gilydd. Bu farw yn 77 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent y Groes Wen ar y 17eg o Fawrth, 1866, pryd y pregethwyd ar yr achlysur gan Caledfryn.

Un arall a fu o ddefnydd a chymorth mawr gyda'r achos yn Nantgarw oedd y Parch. D. J. Beynon, gynt o Lanerchymedd, daeth i'r Nantgarw yn 1840. Bu yma yn cadw ysgol hyd 1843, pryd yr aeth i'w daith fythgofiadwy i Rwsia, a dychwelodd yn ol yn 1844. Yn 1852 ymgymerrodd â'r anturiaeth fwyaf pwysig yn ei fywyd, sef sefydlu Trefedigaeth Gymraeg, yn Texas, America. Ffurfiodd fintai o amaethwyr Cymreig y rhai a brynasant 2,500 erw o dir ar lanau y Texas yn y dalaeth hono; mewn gwlad dda odiaeth, gwlad afonydd a ffynhonau, gwlad gwenith a haidd, gwlad bara heb brinder ynddi. Dyna'r wlad a freuddwydiai am dani; ond erbyn cyraedd y tir dymunol, ac i'r fintai gyraedd pen y daith, gwelsant eu bod wedi cael



Y Parch. JOHN THOMAS.

eu camarwain yn dost. Dychwelodd ef yn ol i Gymru ym mis Mai, 1856, a derbyniwyd ef yn llawen gan ei hen gyffeillion. Ymsefydlodd drachefn yn ei hen gartref yn Nantgarw, ac agorodd ysgol yno eilwaith, ac yno yr arhosodd hyd ddiwedd ei oes. Bu yn *help* mawr i'r praid ieuanc yn y lle, a bu yn ffyddlon gyda phob rhan o waith yr Arglwydd. Bu ei brofiad a'i eiriau yn nerth i lawer brawd a chwaer llesg. Cydnabyddid ei ddefnyddioldeb y pryd hwn gan bawb. Bu farw ar y 26ain o Fehefin, 1872; cafodd angladd barchus, a chladdwyd ef ym mynwent y Groes Wen. Talwyd yr oll o'r costau gan yr Eglwys, a chyfodwyd cofadail ar ei fedd.

Cyfodwyd y rhai canlynol i bregethu yn Nantgarw:—Mr. John Millward. Ni chafodd ond prin ddechreu gyda'r gwaith; yn fuan cafodd ei gymeryd yn gystuddiol o'r cystudd a fu yn angau iddo: yr oedd argoel y buasai yn bregethwr melus a derbyniol iawn. Mr. Richard Millward. Cafodd yntau ei dori i lawr ym mlodau ei ddyddiau; yr oedd yn un hynod o selog gydag achos yr Arglwydd. Mr. Joseph Millward. Dechreuodd ef bregethu yn 1884, a pharha yn bregethwr cymeradwy iawn.


Tonyfelin.

DYWEDIR fod Caerffili wedi bod unwaith yn fwrdeisdref, ond iddi gael ei difreinio gan Harri VIII., am ba achos nis gwyddis. Beth bynag am ddilysrwydd y traddodiad, nid oes amheuaeth nad oedd yn llawer mwy amlwg, enwog ac adnabyddus na'i chwaerdref gymydogathol Caerdydd, yn nhymnor corpholiad rhai o'r eglwysi yr adroddir eu hanes yn y gyfrol hon, a'r adeg y sefydlwyd Eglwys Tonyfelin, yn 1784. Pryd hwnw byddid yn cyfeirio llythyrau at bersonau a breswylent yng Nghaerdydd fel hyn:—John Jones, St. Mary Street, Cardiff, near Caerphilly.

Canghen ydyw Tonyfelin o Eglwys Hengoed, yr hon cyn iddi wneud ei chartref ar Gefn Hengoed a wisgai amryw enwau, y rhai a ddaughosant y ffordd y cerddai, a threigliad ei thrâs.

Yr oedd y Parch. Griffith Hughes wedi ei urddo yn weinidog yn y Groes Wen oddeutu tair blynedd cyn i'r Parch. David Richards, y gweinidog sefydlog cyntaf, gymmeryd gofal Eglwys Tonyfelin.

Bu y gwr da hwn yn gwasanaethu yr eglwys hon am ddau dymhor gwahanol, o 1801—1820, ac o 1834—1836. Bu y Parch. D. Richards yn ddiwyd a llafurus, ac yn fawr ei fri gan ei frodyr. Pregethai yn fynych yn Nhŷ Llwyd, yr hwn sydd yn ymyl y Groes Wen, a byddai yn poeni llawer ar un chwaer, aelod o'r Groes Wen, trwy ei fod yn pregethu ar fedydd, a dywedai ar ol ei wrando ei fod yn dyweud celwydd, ond y diwedd fu iddi hithau gael ei bedyddio gan Mr. Richards yn Nant Cledr. Ym mhen tyr amser ar ol ei bedyddiad ymfudodd i America. Cafodd hir ddyddiau ar y ddaear, a bu hynod ffyddlon. Cerid hi yn fawr gan ei chyfoedion. Enillodd iddi ei hun enw da, a gelwid hi gan ei chymmydogion yn "Modryb Bess." Yn ei dyddiau diweddfaf ymwelid â hi gan y brodyr yn lled gyson, ac yr oeddent yn cael gwledd nefol yn ei chymdeithas. Ar un o'r ymweliadau olaf hyn â hi, gofynodd rhyw frawd iddi, "Pa fath noson ydoedd hi wedi ei chael?" "Noson esmwyth a thawel ryfeddol," ebai hithau. "Tuag wythnos yn ol," ychwanegai, "cevais noson ofnadwy." "Drwg iawn genyf glywed hyn," oedd yr ateb. "Do siwr," meddai Modryb Bess, "fe ddarfu i'r diafol fod mor feiddgar, haerllug, a digywilydd a dyfod i'm hystafell, a bu yn edliw i mi fy mhuchodau, pentyrai hwynt ar eu gilydd, ac



CHRISTMAS EVANS.

ymddanghosent yn fynydd mawr ac uchel." "Ië, ië," ebai y brawd, "sut bu hi wed'yn?" "O, cefais nerth i edrych i wyneb fy Nhad, a gofynais mewn llais gorfoleddus a buddugoliaethus i Satan i ysgrifenu o dan y mynydd mawr, pechod: 'A gwaed Iesu Grist, ei Fab Eif, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod.' Ni welais mo hono byth ar ol hyny!" Bu farw mewn gwth o oedran er ys tua deng mlynedd yn ol yn Cleveland, Ohio.

Dilynyd y Parch. D. Richards gan y Parch. Griffith Davies. Gwr da oedd Griffith Davies, a welodd flinder, a weithiodd yn galed, ac a gerddodd yn drwm.

Dywed chwedloniaeth fod meillion yn tyfu yn ol traed Olwen. Tyfai eglwysi yn ol traed Griffith Davies! Ffrwyth ei lafur ef ydynt y nifer lluosocaf o'r eglwysi sydd gan yr enwad Bedyddiedig heddyw ym Mro Morganwg.

Yn y flwyddyn olaf o'i weinidogaeth yn Nhonyfelin y cynhaliwyd y Gymanfa yn Nghastell Caerfili, sef yn y flwyddyn 1826. Gyda rhoddi caniatad i'r Bedyddwyr gynhal eu Cymanfa o fewn muriau y Castell, rhoddodd Ardalydd Bute gynhorthwy sylweddol trwy gyfrannu £5 tuag at ddwyn traul yr wyl flynyddol. Awdwr llythyr y Gymanfa hon at yr eglwysi ydoedd Griffith Davies, a'i bwng eodd "Cariad Brawdol." Bu y gwr da a gweithgar hwn farw yn gymharol ieuanc, ond nid cyn iddo wneyd gwaith mawr dros ei Dduw. Casglwyd gan yr eglwys tuag at dreuliau y Gymanfa £52. Temptir ni i rhoddi rhestr o'r tranysgrifwyr, ond ni chaniata gofod. Ceir rhestr o'honynt yn llyfr cofnodion Tonyfelin. Fel hyn y rheda hanes gwasanaeth cyhoeddus dau ddiwrnod ei chynhaliad:—

"Dydd Mawrth, Mehefin 6ed, 1826, yn Tonyfelin, am ddau, darllen a gweddi gan W. Thomas. Yn y Castell, am ddau, darllen a gweddi gan J. Roberts, Pontfaen; pregethwyr: D. Roberts a W. Evans, Aberystwyth. Am 6.30, darllen a gweddi gan T. Jenkins; pregethwyr: D. Rees, Caerodor, a D. Richards, Dolgelly (dyma y D. Richards y cyfeiriwyd ato yn barod genym). Dydd Mercher, 7fed, am 7 a.m., gweddi gan R. Edwards; pregethwyr: D. Davies, Caerludd, a Francis Hiley, Llanwenarth. Am 10, gweddi, T. Morris, Casnewydd; pregethwyr: Combes (yn Saesneg), J. Jones (yn Gymraeg). Am 3, gweddi, J. Michael; pregethwyr: J. Evans, Aberhonddu (yn Saesneg), a J. Edwards, Rhuthin. Am 6.30, gweddi, D. Bowen, Felinfoel; pregethwyr: J. P. Davies, Tredegar, a D. Evans, Dolau. Dydd Iau, 8fed, am 9, yn Tonyfelin, gweddi, D. Evans, Cadoxton; "M. Jones" (gwel Llythyr y Gymanfa uchod).

Deuwn yn awr at dro-bwynt, ië, uchel-bwynt yn hanes yr Eglwys yn Nhonyfelin, y dref a'r gymmodogaeth. Yr oedd dyfodiad Christmas


Evans i Gaerfili yn golygu ychwanegiad pwysig a gwerthfawr at y nerthoedd moesol ac ysprydol oeddynt yn barod yn gweithio yn yr ardal. Ceir yn Llyfr Cofnodion yr Eglwys, hanes am Mr. Evans, yn pregethu amryw weithiau yn Nhonyfelin yn flaenorol i 1826.

Y bregeth gyntaf draddodasid gan Christmas, yn ol llafar gwlad, oedd eiddo ei feistr, yr hon a draddodwyd gan yr enwog David Davies, Castellhywel (awdwr Telyn Dewi), i gynulleidfa o ddynion yu y boreu, ond a draddodwyd ganol dydd gan Christmas i gynulleidfa o ddefaid, gwartheg a cheffylau.

EI DDYFODIAD I GAERFFILI.

Ychydig amser cyn iddo gefnu ar Môn, cafodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Nhonyfelin. Fel hyn yr adroddir am y modd y darfu iddo gael galwad—rhoddir yr hanes i lawr yma yn yr iaith yr ysgrifenydd ef—“It was still easier for him to preach wonderful sermons than to become an adept in the mysteries of ministerial removal; he therefore stood, in some respects, peculiarly helpless. He could earnestly pray that Providence would ‘open him a door’ somewhere, through which he might enter, and his great faith sustained him in his perplexity, but he was quite incapable of any helpful politic arrangement. When thus circumstanced, the Rev. B. Price (Cymro Bach), for some time travelling agent in Wales for the Baptist Missionary Society, visited North Wales and had an interview with him, when the following characteristic colloquy took place—‘Well, Mr. Evans, if you have really made up your mind to leave, I know of a place for you.’ ‘Do you indeed! Well done, Ben, and what place is it?’ ‘Caerphilly.’ ‘Well done, Ben, Caerphilly, Caerhilly; well done, Ben. Now, dear brother, write instantly to Caerphilly and tell them I’ll come to Caerphilly.’ ‘No, Mr. Evans, that will never do, it would appear as if you were far too ready to go; it would make you too cheap. I’ll just put it in this way, that if they were to give you a call, you would perhaps accept it.’ ‘Better still; well done, Ben, make myself too cheap, too cheap; yes, certainly it would; well done, Ben. I thank thee, I thank thee, Ben.’ Price wrote, and Christmas Evans was settled in his new sphere, in 1826.”* Yn y lle hwn y priodwyd ef â Mrs. Mary Evans, yr hon a fu yn wir ofalus o hono tra y bu efe fyw. Bu Mrs. Evans fyw yn hir ar ol ei phriod; bu y pregethwr mawr C. H. Spurgeon yn garedig ac yn dynwr wrthi, a dangoswyd mwyneidd dra tuag at y weddw gan eraill. Ymddangosodd a ganlyn yn y *South Wales Daily News* am Rhagfyr, 1895:—“With reference to Christmas Evans’ second marriage, Mr. H. W. Hughes, of Dinas, writes to us as

* Christmas Evans: a Memoir by Rev. D. M. Evans. Page 226.



By kind permission of the Proprietors of the "Evening Express."

Parch. J. P. DAVIES.

follows:—It was the Rev. Thomas Davies, of Argoed, Môn., not Christmas Evans himself as stated, † who rode on horseback to Anglesey, North Wales, to fetch Mary Jones, Christmas Evans' old servant maid, to Caerphilly, to be married. Thomas Davies, Argoed, as he was familiarly called, was in those days an eminent popular preacher and pastor, and was one of Christmas Evans' old co-labourers during their ministrations in the North; and being a tried friend, was entrusted to convey Mr. Evans' message to his betrothed. In connexion with his marriage, it is related, after the ceremony was over, the Vicar of Eglwysilan genially asked for the fee. The renowned bridegroom feeling in his pockets, being momentarily non-plussed, turned to his best man—his chief deacon, Richard Evans—saying, smilingly, 'Frawd Evans, rwy'n fyr!' (Brother Evans, I am short). The good deacon instantly drew his purse, and paid the fee. I had the story 50 years ago from Mr. Evans himself." Brysiwn bellach i gymmeryd golwg ar y modd y dechreuodd ei lafur mawr yn Nhonyfelin. Pan oedd ar ei daith o Langefni, ei hen gartref, ac yn myned tua Brynsiencyn, ar ei ymadawiad trallodus â'i frodyr yn Môn, profodd dynerwech mawr yn ei feddwl, a phresenoldeb Christ fel yn ei ymyl, nes torrodd allan mewn wylo ac ymbil uchel, nes oedd wedi ymddatod oddiwith bob claiarineb, pryd y parhaodd yr ymdrech am rai oriau. Yn yr yspryd hwn y dechreuodd ar ei waith mawr yn Nghaerffili. Nifer aelodau yr Eglwys pan y daeth efe yno ydoedd 69. Derbyniodd yn yr yspaid o dwy flynedd o gylch, saith ugain trwy fedydd. Y mae efe yn coffhau am freuddwyd hynod a welodd ychydig cyn i'r llwyddiant dori allan yn Nghaerffili, yr hwn a gofnodwyd ganddo mewn ysgrifen fel y canlyn, sef ei fod yn gweled ei hun mewn tŷ cyfarfod o'r un dull a'r un yn Nghaerffili; ac yn crogi uwch ben y tŷ yr oedd telynuau lawer, wedi eu hamguddio mewn math o gydau gwyrddion. Yna efe a ddywedodd, "Mi a dynaf i lawr delynuau y nef yma." Erbyn agor y gorchudd, beth a ymddangosodd ond Arch Cyfamod Duw Israel, yn sefyll gyferbyn a'r bwrdd, a llythyrenau euraidd Hebraeg, *Jehofa Cabod*, arni. Yna, galwai allan, "Frodyr! diolchwch i'r Arglwydd, dyma efe wedi dyfod atom, yn ol yr addewidion, ac yn ol ein gweddïau a'n disgwyliadau." Nifer y telynuau welodd Christmas oedd saith ugain, y rhif yn cyfateb yn ol llyfr cofnodion yr Eglwys, i'r nifer a dderbyniodd trwy fedydd.

Gwr enwog ydoedd Mr. Evans am wneyd cyfamodau; gwnaeth ddau yn Môn. Meddai, "Wrth ddychwelyd o Dongwynlais, dros fynydd Caerffili, disgynodd yspryd gweddi arnaf, yn dra thebyg fel y gwnaeth yn Môn. Wylais, ymbiliais, a rhoddais fy hunan i Iesu Grist, a buais megis yn ail sicrhau yr holl bethau ar fynydd Caerffili. Wylais am rai

† Cymharer "Christmas Evans." A Memoir. Page 228.

oriau, ac ymbiliais a Iesu Grist, a thywalltodd fy nghalon y dymuniadau canlynol ger ei fron ar y mynydd. Cefais deimlad o agosrwydd mawr at Grist, megis pe buasai yn fy ymyl; llanwyd fy meddwl â hyder mawr ei fod Ef yn fy ngwranddo, er mwyn pob haeddiant sydd yn ei enw Ef." Dyma y cyfanod ar fynydd Caerffili; bu megis mynydd Moriah i Abraham. Dywedai Tanymarian wrthyf, pe buasai ef yn Faterolwr mai dyma y mynydd addolai efe! Mynydd bach Caerffili!

- "(1) Dyro y flafwr fawr i mi gael fy arwain genyt yn ol dy ewyllys, trwy amneidion dy Rhagluniaeth a'th air, a gogwyddiad fy meddwl gan yr Yspryd, er mwyn dy anfeidrol werthfawr waed. Amen. C.E.
- (2) Caniata, os wyf i fyned o Gaerffili, i'r awel ar adfywiad crefyddol a gefais yma, fy nilyn i Gaerdydd, er mwyn dy enw mawr. Amen. C.E.
- (3) Dyro fendith ar bethau chwervon i'm gloywi, a'm bywhau fwy-fwy, ac nid i'm llethu a'm marweiddio. Amen. C.E.
- (4) Na oddef i mi gael fy sathru o dan draed balchder aelodau* na diaconiaid,* er mwyn dy ddaioni, Arglwydd. Amen. C.E.
- (5) Caniata i mi y flafwr annhrisiadwy o gael bod yn dy law yn foddion i alw pechaduriaid atat, ac i adeiladu y saint, pa le bynag y danfonech fi, er mwyn dy enw. Amen. C.E.
- (6) Os wyf i aros yn Nghaerffili, dyro i mi arwyddion, fel i Gideon gynt, trwy symud ymaith y pethau sydd yn fy nigaloni, ac yn sefyll ar ffordd y llwyddiant i fyned yn mlaen yma, ac yn fy llwfrhau. Amen. C.E.
- (7) Caniata di, Arglwydd y gogoniant, a Phen dy eglwys, i gadw arch yr achos, yr hon sydd eiddo ti, yn Môn a Chaerffili, rhag syrthio i ddwylaw y Philistiaid; na wrthod hi, ond ar frys, arbed hi, a llewyrcha dy wyneb arni, a thrwy dy Yspryd a'th air, a'th Rhagluniaeth, gweithreda i ddwyn pethau yn mlaen yn yr eglwysi a'r cymmodogaethau i'r cyfryw amgylchiadau ag a fyddo yn dwyn cyfnewidiadau mewn swyddogion, a mesurau ag a fyddo yn cyrhaedd at wellhad gwreiddiol yr achos mawr y buost ti farw i'w godi yn ein byd ni; a thrwy wasgaru y rhai sydd dda ganddynt ryfel, a chau safnau y rhai sydd yn dadymchwelyd. Amen. C.E.
- (8) Caniata i roddi i mi arwyddion ffordd erbyn cychwyn i Liverpool, ac oddi yno i Fôn, os ydyw dy ewyllys i mi fyned yno eleni. Amen. C.E.

* Mewn llythyr at William Jenkins, Pencapel, enwir amryw o honynt.



Tŷ A CHAPEL CHRISTMAS EVANS.

(9) Caniata i mi gael ymgeledd dan gysgod y cydymdeimlad sydd ynot ti at y rhai a demtir, a'r gallu diderfyn sydd ynot i gynorthwyo y cyfryw. Amen. C.E."

Ni chaniata amser a gofod i ni ddyfynu y cyfamod hwn yn gyflawn.

"(14) Bydded i'r cyfamod hwn barhau fel cyfamod halen, hyd oni ddelwyf atat i ardal tragwyddoldeb. Yr wyf yn dymuno cymhorth i roddi fy hun i fyny i ti, ac i'th ewyllys. Yr wyf yn dymuno arnat ti gymmeryd fy nghalon, ac ysgrifenu arni barchedigaeth i ti â llaw na all amser na thragwyddoldeb mo'i ddileu. O! bydded i'm pregethau, y gweddill ohonynt, gael eu cymeryd genyt o'm genau, a'r rhai yr wyf yn eu hysgrifenu, bydded iddynt fod er clod i ti, ac nid i mi; i ti yr wyf yn eu cyflwyno. Os bydd dim er dy ogoniant, ac at wasanaeth dy deyrnas ynddynt, cymmer ei ofal, ac amlyga ef i ddynion, onide bydded farw fel dafn o gelwrn yn nghanol poethder Affrica. O, caniata fod defnyn o'r dwfr hwnw, yr hwn yr wyt ti yn unig yn alluog i'w gyfranu, yr hwn sydd yn tarddu i fywyd tragwyddol, yn rhedeg trwy fy holl bregethau. Yn y cyfammod, yr hwn ydyw yr olaf, mae yn dedyg, a ysgrifeni'r rhingom ar y ddaear, yr wyf yn rhoddi fy hun, a'm gwraig, a'r eglwysi, y buais yn pregethu yn eu plith, o dan nawdd dy ras, a gofal dy gyfamod.

(15) Parhaed y cyfamod hwn pan byddwf fi yn glaf neu yn iach, neu mewn unrhyw amgylchiad; canys yr wyt ti wedi gorchfygu y byd, cyflawni y ddeddf, gorphen cyfiawnder cyfiawnhaol, ac wedi llyncu angeu mewn buddugoliaeth, a phob awdurdod yn y nef a'r ddaear yn dy law. Er mwyn dy werthfawrocaf vaed, a'th gyfiawnder perffaith, cofnoda y cyfamod hwn yn llys coffadwriaethau trugaredd faddeuol a'th waed dy hun; dyro dy enw wrtho, yn yr hwn yr wyf yn credu, a thyma finau yn rhoddi fy enw anheilwng wrtho â'm llaw farwol heddyw. Amen. CHRISTMAS EVANS.


Dyddiwyd, Caerdydd, Ebrill 24, 1829."

Gwelir oddiwrth y cyfamod hwn fod gan Christmas olwg fawr ar a gofal mawr am yr eglwysi y bu yn pregethu yn eu plith. "Felly yn cynhwys holl Gymru, a'r holl enwadau, a rhan o Loegr." C. E.

Yr oedd Christmas Evans fel pregethwr ar ei ben ei hun, yn ei gynllun, ei fater, ei arddull, a'i draddodiad. Ysgrifena Dr. Cynndylan Jones, yn ei ragarweiniad i "The Welsh Pulpit of To-day": "Christmas Evans is perhaps the only Welsh preacher with whom the English

public are acquainted, because of the salient points in his character which even strangers could in some measure seize. But Christmas Evans was by no means a typical preacher. In style he was as unique in his own country as in England, and in allegory without a rival, which was the secret of the tremendous power he wielded over his congregations." Ddiarheu fod ei ddull alegoraidd yn rhan o ddirgelwch ei allu dros y gynulleidfa, ond rhaid cymmeryd hefyd i ystyriaeth ei grebwyll byw, ei ddarfelydd cryf a beiddgar, yn nghyd â'i dymher wresog a fflamychol. Ac os bu erioed yn Nghymru *fardd-bregethwr*, Christmas Evans oedd hwnw. Yr oedd ei ddychymyg yn ysgubol, ei ddarluniadau yn fyw, a'i ddrychfeddyliau yn disgyn ar y gynulleidfa fel cawodau o wreichion. Dywedai y Parch. J. Paxton Hood fod y Cymro enwog yn gwastraffu drychfeddyliau. Darfu i Mr. Hood, yn ol ei addefiad ei hun, wneyd arbrawf o rai o bregethau Mr. Evans mewn cynulleidfaoedd Seisnig mawrion, a dywed ef fod eu dylanwad ar y bobl yn orthrechol. Ymddengys bron yn wyrth pa fodd yr ymddyrechafodd efe erioed uwchlaw dyn cyffredin, chwaethach cyfansoddi cynhifer o bregethau medrus, ymdrin â phyngeiau dyrus mewn crefydd a moes, anerch cynulleidfaoedd parchus yn yr iaith Saesoneg, a gwefreiddio y fath ddynion o athrylith a Robert Hall, John Foster, ac Andrew Fuller. Byddai Elias o Fôn a Williams o'r Wern yn wyllo yn hidl wrth ei wrandaw. Rhaid i ni osod y canlynol am dano ef yn pregethu gyda Robert Hall. Yr amgylchiad oedd agor capel newydd* yng Nghasnewydd, Mynwy. "Pregethodd Hall am ddeg boreu Sabboth, a Christmas Evans am ddau y prydawn." Yr oedd Hall, fel arfer, a'i hyawdledd yn orthrechol, y gynulleidfa oll a'i chlust yn hoeliedig wrth ei wefusau hylithr; ond nid oedd neb yn fwy felly na Christmas Evans. Daeth dau o'r gloch, ei oedfa yntau. Yr oedd y capel eto yn orlawn mewn disgwyliad am yr un rhagorfraint, a'r hen hwyf Gymreig yn y fargen. Erbyn bod Christmas Evans yn y pwlpudd yr oedd Robert Hall yn eistedd yn union ar ei gyfer. Yr unig Saesnaeg a gafodd efe oedd darlleniad y testun a phenau y bregeth. Yr oedd y Seraph o Gaerfili yn ei ddillad goreu. Yn ol ei arfer, Y Groes a'i rhyfeddodau, ei hoff destun, oedd testun ei bregeth, ac mor nerthol oedd ei hatdyniad iddo ef, fel y tynai ef allan o hono ei hun yn gyfangwbl, a'i ddyrchu i oruchafion ei ehediadau dychymyngol yn ngoleuni Ysprydoliaeth. Felly yr oedd yn yr oedfa gofiadwy hono, fel yr oedd y gynulleidfa yn ei dderbyn o'r uchelderau i lawr i hinsawdd yr Amen. "Glory be to God," anadlai Hall yn hyglyw, a'r dagrau perlawg yn eueinio ei ddwyrudd! Pan ddisgynnodd Christmas o'r pwlpudd, dilynodd

* Cymerodd hyn le 1829. Gwel Gweithiau C. E., dan olygiaith O. Davies, D.D., MDCXCIII.



TONYFELIN.

Hall ef i'r *vestry*, a chan ddiolch iddo, rhoddodd ei law ar ei ben. "My Jehovah bless you," meddai ef, a chan gymmeryd llaw Christmas yn ei ddwyllaw ei hun, gan edrych yn myw ei lygad eryraidd, a chanu yn iach, efe a ymadawodd.

Beth a gyfrif am fod sais pur fel Robert Hall yn cael ei ddwysbigio dan bregeth Gymraeg, ond y ffaith fod cyfieithydd dydd y Pentecost yn bresenol. Yr oedd Mr. Hughes, Groes Wen, yn digio wrtho ei hun am ei fod yn sangu dan ei draed berlau a gemau a godid i fyny gan Christmas, y rhai a ddefnyddid i egluro rhyw wirionedd neu wirioneddau, ac hefyd i addurno ei bregeth.

Bu gwyr cryfion yn Nhonyfelin yn ei amser, megis William Lewis, Bedwas, John Lewis Davies, a Henry Williams, ac yr oedd y cynaf a'r olaf a enwyd yn hynod yn yr eglwys ac yn y gymydogeaeth o herwydd eu doniau eithriadol mewn gweddi. Cymmerodd Christmas y cyntaf gydag ef i amryw eglwysi y cylch, i'r amcan o ddechreu yr oedfa o'i flaen. Darllenwr mawr oedd John Lewis Davies, ac ysgrythyrwr cadarn. Darllenodd y gwr da hwn ei Feibl dairgwaith-ar-ddeg drosodd. Hoffai Mr. Evans i gael rhyw frawd cryf a gwresog i ddechreu y cyfarfod o'i flaen, ac yma yn Nhonyfelin, lawer gwaith ar nos Sabbothau, galwai ar Henry Williams i ddechreu yr oedfa, gyda'r gorchymyn, "Dôs ar dy union i Galfaria." Byddai yntau yn ufuddhau, gan ddechreu yn ymyl y Groes, a throï o'i hamgylch, a therfynu trwy y gwr fu'n hongian arni, nes gyru y lle ar dân, ac yn nghanol y gwres esgynai Christmas i'r pwlpuad a phregethai nes byddai y bobl yn tori allan i ddioch a moli, wylu a chanu.

Taenodd rhyw un athrod arno. Wrth gyfeirio at hyn mewn llythyr at y Parch. Francis Hiley, yr hwn a anfonwyd o Gaerdydd yn dwyn y dyddiad Hyd. 20, 1828, dywed fel y canlyn:—"Y swm o hono yw fy mod i yn cablu pregethwyr. Pan na byddo cadwyn yr ymadroddion yn cael ei dal yn gyfan mae lliw drwg yn cael ei roddi i bethau, a dybenion gwahanol eu priodoli. Dywedais fod Hughes, o'r Groes Wen" (yr oeddynt yn gyfeillion mynwesol), "wedi bod am 30ain mlynedd yn cael ei ystyried yn ben pregethwr yr ardal, a'i fod yn fwy ddengwaith o hyd na llawer oedd yn cael son am danynt yn fy nghlyw i; ond nad oedd y son am dano ef fel y bu, eithr fod beio ar ei bregethau yn lle eu canmol; ond fod Hughes o dan anfantais o afiechyd a llesgedd corph, ac fy mod yn teimlo drosto, am nad allai neb ddisgleirio heb *animal spirits*. Dyna swm, sylwedd, ac yspryd y cwbl yn nghylch Hughes. Nid oedd genyf amcan i'w ddiraddio, ac nid oedd dim a ddywedais yn cynwys hyny. Dywedais ei fod wedi darllen yr holl awdwyr, ac fod 'nie a nac' pob dadl mor hyddysg iddo a phe wedi eu hysgrifenu ar flaen ei fyseidd!"

Symudodd Christmas Evans i Gaerdydd tua diwedd y flwyddyn 1828. Am ei amgylchiadau yn Nghaerffili a'i ymadawiad oddi yno, rhoddodd y cofnodid hwn: "Ni threulias," medd ef, "ychydig o amser, sef dwy flynedd, mewn mwy o gysur erioed, oblegid fod arch Duw wedi ymddangos, a thelynau o gylch saith ugain wedi canu." O Gaerdydd aeth Mr. Evans i Gaernarfon; bu yno yn ddiwyd yn codi yr achos hyd Mai, 1838. Y tro diweddaf iddo bregethu yn Nhonyfelin oedd Mehefin, Sabboth, 24an. Bu farw Gorphenaf 19eg, 1838. Y geiriau olaf ddiferodd dros eu wefusau hylithr, "Good-bye; drive on!"

Yn y weinidogaeth feunyddiol yn Nghaerffili, dilynwyd Christmas Evans gan John Jones, Llandyssil. Gôf oedd John Jones ar y cyclwyn, ond gofalai am yr eglwys yn Llandyssil. Gwr tal, cryf, heinyf, a cherddwr diail oedd Mr. Jones. Ystyrid ef yn bregethwr poblogaidd. Cyhoeddodd lyfryn yn cynhwys amryw o bregethau, ac y maent yn dal i'w darllen. Ni symudodd ei deulu yma, a dychwelodd yntau yn mhén dwy flynedd.

Bu yn hynod lwyddianus yn nghymodogaith Tongwynlais. Y nesaf i gymmeryd gofal ydoedd John Roberts, Pontfaen (Cowbridge). Bu yma ac yn Mhontfaen ar yn ail o 1832 hyd 1834. Pryd hyn y dychwelodd yr hen fugail, David Richards. Gorphenodd ei yrfa ddaearol yn 1836, a chladdwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Tonyfelin. Erbyn hyn yr oedd gan yr eglwys bregethwyr cynorthwyol. Dechreuodd Morgan Evans a Theophilus Jones bregethu yn amser Christmas. Bu y ddau frawd hyn yn help sylweddol i'r eglwys pan yr oedd heb fugail, megis ag y bu am tua dwy flynedd. Yn y flwyddyn 1842, y sefydlwyd W. L. Evans, a bu yma drachefn am ychydig yn 1876; byr fu ei arosiad y tro cyntaf, ond byrechach fyth yr ail dro. Bu yr eglwys eto heb weinidog o 1844 hyd 1846; ei phregethwr cynorthwyol y pryd hwn oedd J. Davies, erbyn hyn yr oedd Theophilus Jones wedi ymfudo i America, lle y bu yn weinidog am dros hanner can mlynedd, a Morgan Evans wedi ei ordeinio yn fugail ar Eglwys Tongwynlais, cangen o Tonyfelin. Gweinidog nesaf yr eglwys ydoedd y gwr llednais, mwyn a charedig a'r pregethwr coeth a dawnus Daniel Jones. Blinid ef yn fawr gan wenyw Bedwas. Ar ol gwasanaethu Tonyfelin, Bedwas a Bethlehem yn ffyddlon am tua tair a hanner o flwyddi, hunodd yn yr Arglwydd yn 1850. Yn 1851 sefydlwyd Bedwas, cangen eto o Donyfelin. Yn y flwyddyn 1852 sefydlwyd Owen Owens, o Brymbo. Pregethwr anarferol o hyawdl, ac ni fagodd Cymru well areithiwr nag Owen Owens. Yr oedd yn orgyfarwydd yn llenyddiaeth y beirdd Cymreig a Saesneg, a gallai bregethu yn y ddwy iaith. Yr oedd ei ymddangosiad allanol yn gomanding a boneddigaidd, ni fu pregethwr mwy dawnus mewn pulpud

erioed. Gydag ef y cafodd y gweinidog presenol y wers gyntaf erioed mewn ysgol ddyddol. Yr oedd hyn pan yr oedd Owen Owens yn weinidog Eglwys Jezreel Goginan. Dilynwyd Owen Owens gan James Richards, yr hwn a adnabyddir yn gyffredin fel James Richards, Pontypridd. Dechreuodd ef ar ei weinidogaeth yma yn 1857. Mae hwn wedi cael ei alw yn bregethwr pregethwr. Gwrthododd Jones, Talysarn, bregethu ar ei ol yn Mhen-y-dref, Abergwaun, Sir Benfro. Serch fod Richards yn ei gartref, a dim ond blwydd oed fel gweinidog! Ganwyd ef Ionawr, 1804, yn Llanddarog. Ysgotyn oedd ei daid, tad ei fam. Bedyddiwyd ef 1817. Dechreuodd bregethu yn fuan ar ol hyny. Gelwid ef "The boy preacher," ac yr oedd i'r frawddeg ystyr ddwfn. Yr ydym yn cael hanes am dano yn pregethu mewn Cymanfa yn Ynys Môn yn y flwyddyn 1820, pan yn un-ar-bymtheg oed (16). Yn 1821 aeth i Goleg Bradford. Yr oedd wedi bod cyn hyn dan addysg D. Evans yn nhref Caerfyrddin. Yr oedd yn gryf mewn mesuryddiaeth, ac mewn Lladin, Groeg a Hebraeg, yn respectable. Sefydlodd yn Abergwaun, pan yn 21ain oed. Pregethodd ei bregeth gyntaf yno ar Rhagfyr 4ydd, 1825. Yn 1838 clywodd Eglwys Tonyfelin fod Mr. Richards yn symudol, anfonodd y brodyr am dano. Yr oedd yr Eglwys yn Carmel, Pontypridd, heb weinidog; cafodd alwadau oddiwrth y ddwy eglwys. Dyma ei atebiad i'r alwad a anfonwyd iddo gan Tonyfelin:—

"Anwyl Frodyr a Chwirydd,—Derbyniais eich llythyr serchog trwy law ein brawd Mr. Evans, a theimlwyf eich bod wedi gwneuthur i mi anrhydedd trwy yr alwad unol a serchog a roddasoch i mi, i fod yn weinidog i chwi yn efengyl Iesu Grist. Dros ryw amser wedi i mi ddyfod i'r penderfyniad i ymadael ag Abergwaun, nid oedd yn fy meddwl yr un pwrpas amgen na chydysynio â chais Eglwys Caerffili; ond wrth ystyried y doniau gwerthfawr sydd yn eich plith chwi, yn nghyd ag amddifadrwydd yr achos yn Mhontypridd, credwyf, os wyf i symud i'r gymodogaeth yna oll, mai fy nyledswydd eglur yw symud i'r lle olaf. Yr wyf yn dra diolchgar i chwi am eich caredigrwydd a'ch ymddygiad efengylaidd tuag ataf ar fy ymweliad â chwi, a chan obeithio y cawn gydgaru a chyddbarhau yn yr hyder, hyd ryw dro o gydfwynhau." "Y dydd hwn, Mai y 3ydd, 1857, y derbyniais neu y cydsyniais â galwad Eglwys Tonyfelin, Caerffili, hon oedd y drydedd alwad a gefais o'r eglwys hon. Yr achos yn Tonyfelin yn isel iawn; cariad brawdol wedi darfod, a'r gwrandawyr wedi cilio." Yn Mai 15fed, 1864, rhoddodd i fyny ei weinidogaeth. Yn y flwyddyn hon bu Hiraethog yn pregethu yn Bethel, a Dr. Daniel Davies (dall) yn pregethu yn Nhonyfelin, "Bu y ddau yn llettya gyda mi, cefais bleser yn eu cymdeithas." Symudodd Mr. Richards yn ol i Bontypridd i fyw. Bu farw. Yn

Rhagfyr, 1864, yr urddwyd T. E. Rowlands, myfyriwr o Goleg Llangollen, i fod yn weinidog ar yr eglwys. Y rhai a gymmerasant ran yn y cyrddau ordeinio oeddynt Dr. Pritchard, Hugh Jones, Llangollen; J. R. Jones (myfyriwr), ac ereill. Yn 1865 penderfynodd yr Eglwys i adeiladu capel eangach a mwy cyfleus, ac agorwyd y capel newydd yn mis Tachwedd 4ydd, 1866. Cymmerwyd rhan gan y brodyr canlynol yn nghyrrddau yr agoriad:—T. E. Rowlands (pregeth ar y Sul), T. E. James, Glyn-Nedd; Dr. Price, Aberdar; Dr. J. Emlyn Jones, Caerdydd; Evan Thomas, Casnewydd; Dr. O. Waldo James, Dr. W. P. Williams (golygydd Seren Cymru), &c. Yr oedd Mr. Rowlands yn un a anwyld yn fawr, yn bregethwr tlws, tanlyd. Yr oedd ei fesur bob amser yn fyr. Yn y flwyddyn 1869, cynhaliwyd y Gymanfa yma. Caed benthg y castell fel y tro o'r blaen. Pregethwyd gan y rhai canlynol:—H. Gweifyl James, Morrision; T. Thomas, Canton; J. R. Jones, Philadelphia; O. W. James; H. Rees, Treforest; R. A. Jones, Abertawe; J. Rowland, Cwmafon; B. Evans, Castell-Nedd; W. Harries, Heolyfelin; T. E. James, Glyn-Nedd; D. Edwards, Pontardawe; H. Cefni Parry, Docks, Caerdydd; B. Thomas (Myfyriwr Emlyn), a Dr. J. Emlyn Jones. Llafuriodd Mr. Rowlands yma am ddeg o flwyddi, a bu farw Ebrill, 1875. Claddwyd ef yn mynwent Tonyfelin. Codwyd maen coffadwriaethol ar ei fedd gan yr eglwys, a rhai cyfeillion i Eurglawdd, yn mlwyddyn gyntaf gweinidogaeth y gweinidog presenol, yr hwn a sefydlodd yma Rhagfyr 10fed, 1878. Yn y cwrdd sefydlu pregethwyd gan D. Roberts, Llwynhendy; W. Jones, Abergwaen; J. Spinther James, Llandudno; a George Thomas, Salem, Porth. Yn ystod gweinidogaeth y gweinidog presenol yr adeiladwyd y vestry, y trowyd yr hen gapel yn anedd-dai, ac y prynwyd y tir o dan y tai a'r capel, yn nghyd â'r hen fynwent, gan ychwanegu chwarter erw ati. Nifer yr aelodau yn 1878 oedd 110.

Y mae cyfnodau a chyfnodau yn perthyn i hanes Tonyfelin fel ag sydd yn perthyn braidd i bob eglwys, pa un bynag a'i mewn tref neu yntau yn y wlad y ceir hwynt. Bu adegau pan yr oedd yr achos yn isel ac o dan draed y gelynyddion. Dirwasgwyd ef yn fynych; ond wrth ei ddirwasgu yr oedd ei beraroglau yn lledu, a gwelid Sion Duw fel y lili wen ar wyneb y dwr. Gwan oedd yr achos pan y gosodwyd ei babel i lawr y tro cyntaf yn Nhonyfelin, ond cynyddodd, ac aeth yr eglwys yn "lawen fam plant." Dengys y daflen ganlynol sefyllfa yr achos ar wahanol dymhorau. Yma y ceir golwg ar ei lanw a'i drai,

TAFLEN O'R AELODAU.

Blwydd- yn.	Gwyr.	Gwrag- edd.	Cyfan- swm.	Ysgol- heigion.	Athraw- on.	Canghenan.	Gweinidogion.
1784	26	Amryw.
1819	31	54	85	73	8	...	D. Richards.
1824	34	69	103	94	10	...	G. Davies.
1826	65	100	165	105	12	Tongwynlais...	C. Evans.
1829	100	104	204	Nid oes cofnodiad	...	"	J. Jones.
1833	186	"	J. Roberts.
1834	59	87	146	110	12	"	D. Richards.
1835	175	"	"
1839	100	80	11	{ Rhydyfelen a Bedwas	...
1843	198	230	24	{ Bedwas a Rhydyfelen	W. L. Evans.
1848	205	198	29	...	DI. Jones.
1850	200	150	23	Bedwas ..	O. Owen.
1863	120	92	18	...	James Richards.
1866	148	100	18	...	T. E. Rowlands.
1884	159	142	17	...	J. P. Davies.
1891	150	160	17	...	"
1895	Gollwng	ae	loda	i	flurfio	Eglwys i	Senghenydd a
1904	150	180	16	...	Llanbradach. J. P. Davies.

Tynwyd y daflen hon allan (heb gyfrif cangen Tongwynlais) o lyfr cofnodion Tonyfelin a Llythyrâu Cymanfa Morganwg. Gwelir mai lawr ac i fyny y hanes yr eglwys hon. Corpholwyd canghenan o honi ar y dyddiadau canlynol:— Tongwynlais, 1838; Bethlehem, Rhydyfelen, 1849. Nifer ei haelodau oedd 39. Bedwas 1851. Rhif yr aelodau ar ei chorpholiad oedd o 70 i 80. Mount Carmel, Caerfili, 1874. Senghenydd, 1895.

Bu yn dda iddynt ac yn dyner wrthynt cyn iddynt ddisgu cerdded. Cododd amryw o bregethwyr o'r eglwys, y rhai a fu yn ddefnyddiol ac a wnaethant waith mawr a chanmoladwy dros eu Meistr.

- (1) WILLIAM JAMES. Yr oedd hwn yn hanu allan o deulu caredig Pencoed, Pentyrch. Bu farw 1808.
- (2) MORGAN EVANS. Mab ydoedd ef i Richard Evans, "best-man Christmas Evans" ar ddydd ei briodas. Ordeiniwyd ef yn fugail ar Eglwys Aion, Tongwynlas.
- (3) THEOPHILUS JONES. Ymfudodd Mr. Jones i America, a bu yn ddefnyddiol a mawr ei barch yn y wlad hono am dros haner can mlynedd.

- (4) **CALEB HARRIS EDMUNDS.** Mab i'r Parch. James Edmunds, gweinidog Llysfaen, yr hwn oedd yn byw yn Caerfili, ac yn cadw *shop* yno. Adroddir am Hughes o'r Groeswen yn myned i mewn i Faelfa Edmunds, ac ar ol cyfarch eu gilydd, dechreuodd y ddau ddadlau â'u gilydd. Ni nodir pwngc y ddadl. "Pan oedd," sef Hughes, "yn dygwydd ymddiddan â gweinidog Trochwyr, yr hwn hefyd oedd yn siopwr, ar ryw bwnc dadleugar. Yn nghanol gwres y ddadl galwyd ar Mr. — i'r siop. "O," ebe Mr. H., "Yr ydych wedi colli; chwi sydd yn cilio." Ar ddychweliad Mr. —, dywedodd, "Dewch etto." "O na," ebe Mr. H. "nid wyf byth yn caru taro neb ar lawr." Aeth Caleb Harris Edmunds i Athrofa Caerodor, Ionawr, 1830. Gorfodwyd ef gan afiechyd a gwendid i roddi i fyny ei astudiaeth a dychwelyd gartref mis Mawrth. Bu farw yr un flwyddyn, a phregethwyd pregeth angladdol iddo yn Broadmead, Bristol, gan R. Hall. Ysgrifenyddwyd cofiant byr i'r dyn ieuangc addawol hwn gan D. Rhys Stephen.
- (5) **T. TALIESIN JONES.** Mab ydoedd ef i Thomas Jones (Eos Glan Rhymini). Wedi treulio tua phum mlynedd yn Ngholeg Bristol, urddwyd ef yn Blaenwaen, Sir Benfro; aeth oddiyno i Ffestiniog. Symudodd i Jerusalem, Rhymini, y lle y bu farw.
- (6) **THOMAS THOMAS.** Hanai o gyff pregethwrol; nai oedd i'r Parch. Evan Thomas, Casnewydd. Derbyniodd hwn eto ei addysg yn Ngholeg Caerodor. Ordeiniwyd ef yn Nghaerfyrddin. Symudodd o Gaerfyrddin i Loegr, lle y bu farw.

Pan y byddai yr eglwys heb weinidog, llenwid ei phwlpud gan gewri yr enwad, megis Parchn. D. Rhys Stephen; J. P. Davies, Tredegar; Francis Hiley; John Hier, Gwrwst; John Herring; W. H. Jones, Caerfyrddin; Evans, Pontrhydyrun, &c.

Cafodd Tonyfelin ei bendithio â doniau eithriadol, doniau goreu yr enwad, a gwyr cryfion a medrus yn ddiaconiaid. Cerddai y sôn am weddiwyr yr eglwys yn mhell ac agos, a cheisid ganddynt fyned i gynhal cyrddau i Treforest, Gwaelodygarth, Pentyrch, Llantrisant, a manau ereill. Yn amser Christmas Evans, yr oedd Richard Evans; William Jenkins, Pencapel; Thomas Jones (Eos Glan Rhymini); William Llewelyn, brawd i'r diweddar Dr. Llewelyn (meddyg); William Lewis, adweind ef fel William Lewis bach. Yr amser a ballai i mi fynegu am Joseph Davies, per ganiedydd Tonyfelin, John ac Evan Bevan, Thomas

Davies, y Factory, a Harry Williams, Craig yr Allt. Yr oedd gwragedd cyfoethog, duwiol, a haelionus yn aelodau yn Tonyfelin y dyddiau gynt, ac nid yw eu had wedi pallu ar y ddaear hyd heddyw. Coflawm gydag edmygedd a pharch am y chwiorydd, Catherine Llewelyn a Mary Llewelyn, Bedwas. Diolchwn am fod had y duwiol yn cael ei barhau ar y ddaear. Mae Tonyfelin yn enwog am ei gwragedd ffyddlon a charedig, ac yn deilwng ddisgynyddion o'r gwragedd da y dyddiau a fu. Mae y gweinidog presenol wedi claddu dros gant a phymtheg o aelodau; ond er y colliadau, a'r llifeiriant Saesneg mae yr *eglwys* yn amlach o ddeugain o aelodau nag ydoedd yn 1878. Y mae llu o frodyr a chwiorydd wedi myned, ond y mae rhai yn aros, ond wrth aros yn myned yn wanach; nid oes neb yn ddigon mawr i aros byth; ond yr Arglwydd Duw y tadau a'r mamau fyddo ein Duw ninau byth ac yn dragywydd. Amen.

Ebenezer, Rhydri.

SAIF y Rhydri ar gwr dwyreiniol Sir Forganwg, rhyw ddwy filldir a haner o Gaerphili, ar ffordd Casnewydd. Mae yn lle prydferth, a cheir golygfeydd rhagorol oddiar ei fryniau. Dau le o addoliad sydd yn Mhlwyf y Rhydri—yr Eglwys Wladol a Chapel yr Annibynwyr. Cychwynwyd yr achos Annibynol mewn tŷ annedd ger llaw y capel presenol. Enw y tŷ yw Perllan Gollen. Nis gwyddom fawr am gyflwr yr ardal yr adeg hono, ond yr ydym yn sicr o hyn, fod yno dri aelod crefyddol, brawd a dwy chwaer; un yn aelod yn Heol-felin, Casnewydd, a'r ddau arall yn aelodau yn Groes Wen. Enw y brawd oedd David William Davies, ond Dafydd William Dafydd y gelwid ef. Efe oedd yn byw yn Perllan Gollen, a bu perthynas iddo yn byw yno am flynyddau ar ol hynny, ac y mae heddyw yn un o flyddloniaid yr achos da. Mae y tŷ erbyn hyn mewn meddiant eraill, ond cedwir aberth ar yr allor o hyd. Enw un o'r chworiydd oedd Peggy Gibbon.

Cyfarfyddent a'u gilydd yn nhŷ Dafydd William Dafydd. Cynali-ent gyfarfodydd gweddio a chyfeillachau crefyddol. Buont wrthi yn flyddlawn a diwyd am ugain mlynedd heb ychwanegiad at eu nifer. Dyma flyddlondeb teilwng o'r broffes Gristionogol. Ond fe dorrodd gwawr arnynt. Dygodd flyddlondeb ei gwobr trwy arwain pump eraill attynt. Pump ar ol ugain mlynedd o weddio!

Clywais i Dr. Thomas, Liverpool, wneud bywyd y tri hyn yn enghraifft mewn pregeth. Desgrifiodd hwy ar eu gliniau yn gweddio, ac ar eu traed yn siarad; dywedodd am eu diwydrwydd a'u dyfalbarhad, ac am y daith hyfryd o'r Rhydri i'r Groes Wen un boreu Sul, pan ddywedai Dafydd William Dafydd am ei bump *recruit*. Yn y Groes Wen y cawsant eu derbyn yn aelodau eglwysig. Yr enwog Griffith Hughes o'r Groes Wen ofalai am y praidd bychan, a gwnaeth hynny am agos i ddeugain mlynedd. Adeiladwyd y capel cyntaf yn y flwyddyn 1821, tystiolaeth sicr i ddylanwad flyddlondeb. Capel bychan oedd, ac yn ol safon y presenol ychydig oedd y draul. Ond diau fod £40 yr adeg hono gymaint os nad mwy na £300 y dyddiau presenol. Codwyd y capel yn nghyd a thŷ annedd yn gysylltiedig âg ef, a chlir- iwyd y ddyled. Mae y tŷ annedd hwnw yn *vestry* i'r capel presenol.



BERLLAN GOLLEN.



EBENEZER, RHYDRI.

Agorwyd y capel yn Ebrill, 1821, a rhoddodd amryw weinidogion eu gwasanaeth yn rhad ac ewyllysgar. Gwenodd Duw ar yr eglwys fechan, a chynyddodd mewn nifer ac mewn profiad crefyddol. Yn y flwyddyn 1837 annogodd Mr. Hughes yr eglwys i edrych am dyn cymhwys i'w bugeilio. Rhoddodd wahoddiad yn y flwyddyn ganlynol i Mr. J. Jones, mab i'r Parch. M. Jones, Bethesda, Merthyr, a thad y Parch. M. Jones, Tynewydd, Treherbert. Ordeiniwyd ef yn Ebrill, 1838. Bu yn weinidog yn y Rhydri a Phentyrch am flynyddoedd lawer, a dilynodd llwyddiant neillduol ei ymdrechion gonest. Helaethwyd y capel yn 1864. Costiodd £300, a thalodd yr eglwys y ddyled mewn dwy flynedd. Rhoddodd Mr. Jones ofal yr eglwys i fyny yn 1866, a chyfyngodd ei lafur i Bethlehem, Pentyrch, a Tongwynlais. Bu ei gysylltiad â'r Rhydri yn un hapus a llwyddianus, ac nid dymunol oedd ei dori i'r praid. Ymunodd ar ol hyn â'r eglwys yn Adulam, Machen, o dan weinidogaeth ddymunol y Parch. T. L. Jones. Parhaodd yr undeb hyd farwolaeth Mr. Jones yn 1879. Ceir tystiolaeth i effeithiolrwydd gweinidogaeth y ddau Jones ar aelwydydd y Rhydri heddyw, ac mae eu hanes yn perarogli i fywyd o hyd. Yn 1880 rhoddodd yr eglwys alwad i Mr. D. T. Evans, o Glynarthen, Ceredigion. Bu ef yma hyd 1885, pan y gorfodwyd ef gan waeledd ei iechyd i ymddiswyddo. Dychwelodd i'w ardal enedigol, lle y bu farw, a chladdwyd ef yn Nghladdfa Glynarthen. Y gweinidog nesaf oedd y Parch. D. Johns, gweinidog presenol Bethania, Merthyr Vale. Estynodd yr eglwys ei gwahoddiad iddo yn 1889, a bu yma yn llwyddianus hyd 1898. Dyna'r pryd y codwyd y *manse*.

Buasem yn caru son am rai o gymeriadau hynod yr eglwys, ond nid yw gofod yn caniatâu:—Rogers, Pentwynwyn; Richard Evans, Machen; Edmund Morgan, Twynsych. Yr oedd llawer o honynt a'u hanes yn deilwng o'n sylw. Gallai Rogers, fel ffermwr, fod yn ddelfryd i ffermwyr yr oes bresenol. Byddai bob amser yn ei gadair—cadair y capel. Deuai Richard Evans o Machen â'i giniaw yn ei logell. Dim gwledd ar y Sabbath iddo ef—gwledd yr Arglwydd; a byddai Edmund Morgan yn gofalu am angenrhaid yr achos. Buasem yn caru son am bawb, ond mae dylanwad eu bywyd yn mywyd yr oes bresenol yn ddigon o dystiolaeth.

Yn 1900 rhoddwyd galwad i Mr. W. A. Richards o Goleg Caerdydd. Byr fu ei weinidogaeth ef. Yn 1902 rhoddwyd galwad i Mr. D. J. Thomas o Goleg Caerfyrddin, ac efe yw y gweinidog presenol. Aeth yr eglwys i'r draul o £500 y flwyddyn ddiweddfaf. Adnewyddwyd y capel—gosod tô newydd, codi y muriau yn uwch, rhai seti newydd, pwlpudd newydd, ac helaethu yr ysgoldy. Mae heddyw yn gapel hardd, a phob peth yn ddymunol. Agorwyd ef Ionawr 19eg a'r 20fed, 1904. Gwasanaethwyd gan y Parchn. R. Rees, Alltwen, a Towyn Jones,

Cwmaman. Cafwyd cyfarfodydd eithriadol. Gwenai Duw yn hysbys ddigon. Mae cyflwr crefyddol yr eglwys yn bresenol yn ddymunol. Edrychir ymlaen i'r dyfodol mewn hyder. Ymddiriedodd y tadau y gwaith i ni a'n prif ymgais yw bod yn deilwng o'r ymddiriedaeth, bod yn gymeradwy gan Dduw. Arosed bendith y nef ar yr eglwys a'r ardal



Y CLIVES A'R LLOFT.

Bethel, Caerphili.

NID ydym wedi cael allan i sierwydd ym mha flwyddyn y dechreuwyd cynal cyfarfodydd gwelldio gan Annibynwyr Caerphili oeddent yn aelodau yn y Groes Wen. Y mae yn dra thebyg eu bod yn cael eu cadw mor gynar a'r flwyddyn 1820.

Yn nhŷ Morgan Robert, Twyn, y dechreuwyd eu cadw, ac nid yn nhŷ Lewys Edward, fel y dywed *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*. Erbyn 1824 y mae sierwydd fod y "man cyfarfod" wedi newid o dŷ M. Robert i dŷ Lewys Edward (Lewys y Tôwr), Dan-y-Castell, yr *Island*. Safai bwthyn Lewys Edward yng nglŷn â mur y Castell, gyferbyn â'r llecyn yr adeiladwyd y Bethel cyntaf arno.

Nid ydym yn gwybod chwaith paham y symmudwyd o dŷ Morgan Robert i dŷ Lewys Edward. Ymddengus fod M. Robert yn dychwelyd o gyfarfod pregethu yng Nghasnewydd, ac wrth groesi y morfa i gyfeiriad Llansantffraid (St. Mellon's), i ffermdy lle yr arferai weithio wrth ei grefft fel teiliwr, iddo syrthio mor ddwfn i gors leidiog nes methu ymryddhau; a chyn i ymwared ddod iddo daeth llanw y môr am ei draws a boddodd; ac y mae yn bosibl fod a fyno marwolaeth Morgan Robert a symmudiad y cyfarfod i dŷ Lewys Edward.

Ym mhlith eraill fuont a llaw amlwg yng nghychwyniad yr achos Annibynol yma, ac yn ffyddlon iddo tra fuont byw, rhaid enwi W. Richard, Tai'r Pavin; W. Lewis, Pontygwirdy, dau o ddiaconiaid y fam-eglwys yn y Groes Wen. Morgan Shencyn, a Shôn Shencyn (pregethwr), Pencapel; Shôn Thomas (pregethwr), Wernddu, a Rhys ei frawd; Matthew Evans a Dafydd William, Watford; W. Dafydd, Bwlchylechwen; John Williams (Shôn Gwe'ydd), Y Ddraenen; Tomos Matho, Evan Rowland, Evan Edward (Evan o'r Castell, *Red Cow* wedi hyny), Edmund Lewis, Melin Geneu'r Glyn; Shôn Lewis, Pontypandy; Tomos Anthony, Tomos Nicholas, Wm. Edward, Tomos Williams, Ty'nygraig; Shôn Rowland (töwr); Lewys Thomas, Ochrymynydd; Wm. Dafydd (nailer); Wm. Stradling, Wm. Waters (pregethwr); Shôn Rowland, Bedwas Fawr; Evan Shencyn, &c.

Yn achlysurol traddodid pregeth yng Nghaerphili; a chynhelid oedfa'r bregeth yn Neuadd fawr y *Black Lion*, drwy wahoddiad y gwesttywr, Dafydd Lewys Watcyn. Daeth y cyfarfodydd Sabbothol ac

wythnosol mor llwyddianus, nes y maent yn gorfod symmud yn gyfangwbl o dŷ Lewys Edward i ystafell eangach y Neuadd fawr. Mor belled ag y gallwn gasglu, cymmerodd y symmudiad hwn le naill ai yn 1828 neu 1829. Wedi hyn y mae un o'r enw Thomas Morgan yn cymmeryd prydles ar y *Black Lion*, yn ail-adeiladu ac yn helaethu y tŷ, ac yn newid yr enw i *Clive's Arms*, ac ar loft ystablau y gwestty hwn, mewn ystafell gyfleus, y cynhaliwyd y moddion hyd nes yr adeiladwyd y Bethel cyntaf yn 1848.

Ar yr ochr chwith i'r darlun o'r hen *Clive's Arms* gwelir yr ystablau, ac uwchben y rhei'ny yr oedd yr ystafell a elwid "Llofft y Clives," gyda grisiau o'r tu allan i esgyn iddi. Ac er fod pethau fel hyn nid ydym wedi cael lle i gredu fod un cyfathrach cydrhwng "ysbrydoedd y cyfiawn" ar y llofft a'r "ysbrydion yng ngharchar" obry.

Yn ol *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* rhentodd Wm. Richard a W. Lewis, a ddau ddiagon a enwyd eisoes, "Llofft y Clives," at gadw gwasanaeth crefyddol am £5 y flwyddyn, ac agorwyd yr ystafell fel lle i addoli yn Mai, 1832. Yn ychwanegol at weinidog y fam-eglwys am y pryd, tra thebyg mai Shôn Tomos, Wernddu; Shôn Shencyn, Pencapel; W. Waters, John Thomas, Nantgarw; ac eraill o bregethwyr y Groes Wen fyddent yn gwasanaethu yng Nghaerphili, a Morgan Shencyn, Evan Rowland, ac Evan Evans (Evan y panwr), yn codi y canu.

Yr oedd yr hen frawd Evan Rowland yn meddwl cryn dipyn o'i fedr fel codwr canu, a hwyrach ei fod dipyn bach yn eiddigeddus o alluoedd cerddorol y ddau frawd arall; ac os digwyddai fod y moddion wedi dechreu pan gyrhaeddai Evan at y llofft, elai i fewn i'r ystabl o dani i wrando ar y canu, ac i wel'd a elent drwy yr emyn heb dori i lawr; ac os digwyddent fethu eu dau, yna cerddai yntau i fewn yn hunanfeddianol, ail-ddechrenai yr emyn, ac fel un oedd yn fwy na chonewerwr ar bob mesur a thôn, ac o'i ysgwyddau yn uwch na phob codwr canu arall, arweiniai y mawl yn orfoleddus i'w derfyn.

Nid ydym wedi llwyddo i gael allan ym mha flwyddyn y dechreuwyd cadw Ysgol Sul yng nglyn â'r ganghen; tra thebyg iddi i gael ei dechreu yn fuan wedi agor Llofft y Clives; beth bynag y mae genym sierwydd fod yma un yn 1835.

Ni ddylem adael y cyfnod hwn ar hanes yr achos heb goffa enw un Miss Jones, fu yn cadw *boarding school* yn Dan y Twyn, Caerphili. Daeth yma o Lundain ar gymmeradwyaeth Dr. Daniel Edwards (ŵyr y Parch. W. Edwards, Groes Wen). Yr oedd yn Annibynwraig selog, ac er nad oedd yn deall Cymraeg pan ddaeth yma, eto ymaelododd yn y Groes Wen, a bu yn weithgar iawn gyda gwaith y ganghen yng Nghaerphili, yn arbenig gyda'r canu.



BETHEL, CAERFFILI.

A phan fyddai pregeth, a'r pregethwr yn alluog i wneud, traddodai rau o'i bregeth yn Saesneg er ei mwyn. Un nos Sabboth yr oedd Shôn Tomos, Wernddu, yn pregethu, a chan angerdd ei gydymdeimlad â Miss Jones, cymhellwyd ef i roddi rhan o'r bregeth yn Saesneg, ond buan iawn bu gorfod iddo droi yn ol i iaith ei fam, a chyda hyny o Saesneg oedd yn weddill ganddo, rhoddodd floedd—fel y medr pregethwr Cymreig wneud pan fydd yn tywyllu arno, "That's 'nough for you, Miss Jones." Yn fynych ar ol hyn gofynai Miss Jones i'r hen bregethwr disyml, "When are you going to give me *snuff* again, Mr. Thomas?" Yr un modd mewn cyfarfod gweddi gofynid i W. Dafydd i arwain mewn gweddi yn Saesneg, am mai efe oedd yr unig un allasai wneud, ac yr oedd gallu gwneud hyn yn yr oes hono yn gosod rhywfath o arbenigrwydd ar y person oedd yn alluog i wneud.

Bu i'r llwyddiant ddilynodd ymdrechion y frawdoliaeth yn y cyfnod hwn godi awydd cryf am gael capel yng Nghaerphili, ond gosododd yr hen frodyr W. Richard a W. Lewis eu gwynebau fel callestr yn erbyn y teimlad, rhag i'r capel newydd niweidio y fam-eglwys. Er i'r awydd i gael ei ddirwasgu am dymhor hir, eto cryfhau yr oedd, ac yn y diwedd gorchfygodd, ac adeiladwyd y Bethel cyntaf ar ystad Goodrich, ar ddarn o dir yn Heol y Castell, o flaen y brif fynedfa i'r Castell, ac agorwyd ef yn 1848. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. Hughes, Penmain; Jenkins, Salem, Trelyn; Rowlands, Pontypool, &c. Gweithiodd y Parch. Moses Rees yn ddiwyd gyda'r capel newydd, a theithiodd lawer i gasglu at y ddyled.

Nid ydym wedi llwyddo i gael allan yn hollol pa faint gostiodd y capel hwn—rhyw gymmaint dros £300. Mae yn debyg fod y ffermwyr oeddent yn aelodau yn yr eglwys wedi cario yr holl ddefnyddiau at ei adeiladu—a dyma'r ffaith am lawer Bethel yng Nghymru—ac fod Rhys Thomas wedi ei doi yn ddiraul i'r eglwys; a rhoddodd Mr. D. Watkins, Twyn, boneddwr dall, ac un o ffyddloniaid yr achos, £70 a chloc i'r capel newydd. Y mae y cloc hwn yn bresenol yn festri y trydydd Bethel, yn cadw amser rhagorol i genhedlaethau nad adnabuent mor rhoddwr caredig.

Mr. Owens, Gweinidog Soar, Merthyr, oedd ei gynllunydd.

Rhoddir rhif yr aelodau yn 45 pan yn symud i "Lofft y Clives," ac yn 70 pan yn myned o honi i'r capel newydd.

Yr oedd y fam-eglwys, fel llawer i fam-eglwys ar ei hol, a dyna un o wendidau Annibynwyr y gorphenol, beth bynag am Annibynwyr y presenol, yn anfoddlon iawn i godi capel newydd, ac ar ol ei godi i gorphori y ganghen yn eglwys. Ond yn fuan ar ol marwolaeth Mr. Rees, yn Awst, 1856, gwnaed hyny. O farwolaeth Mr. Rees hyd ddyfodiad y Parch. D. Richards, Llanelli, Brycheiniog, yma, bu yr eglwys yn byw ar weinidogaeth achlysurol.

Dechreuodd Mr. Richards ar ei weinidogaeth yma Meh. 29, 1862. Cynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad ar y 15fed a'r 16eg o Fedi o'r un flwyddyn, ac nid yn Awst, fel y dywed y cerrig cofia yn Bethel a Saron. Cymmerwyd rhan yn y cyfarfodydd gan y Parchu, Caledfryn, Groes Wen; W. Griffiths, Llanharan; W. Jenkins, Brynmawr; D. Williams, Blaenau; J. Davies, Pontygŏf; E. Watkins, Llangatwg; J. Thomas, Coed-duon; E. Pritchard, Glandwr; T. Lodwick, Zion's Hill; D. Thomas, Llangynidr; J. Jones, Rhydri; T. L. Jones, Machen; T. Rees, D.D., Abertawe, &c.

Parhaodd Mr. Richards i fugeilio yr eglwys yn fawr ei barch hyd ei farwolaeth ar Ddydd Gwyl Dewi, 1900.

Tua yr adeg yr ymsefydlodd Mr. Richards yn Bethel, yr oedd yma rai hen gymmeriadau hynod ar gyfrif llawer o bethau. Un o honynt oedd W. Edward. Nod uchelgais Wm. Edward oedd cael trefnu ac arwain y cyfarfodydd wythnosol. Un nos Iau yr oedd wedi cael gafael yn awenau y gyfeillach, ac ym mhlith eraill gofynnodd i un hen frawd anlythrenog o'r enw Daniel y Teiliwr i ddwend gair o'i brofiad. Ymddengus fod y diafol yn poenu llawer ar Daniel, ac yr oedd personoliaeth Satan mor *real* iddo ag i Luther gynt:—

"O's gen' ti, Daniel, r'wbeth ar dy feddwl heno?"

"O's, ma gen i shew byd o bethach ar 'y meddwl, ond mi concreis i e heddi! Mae e wedi poenu sypyn arna i, ond mi wades e heddi!"

"Concro pwy, Daniel?"

"Ond y diafol, yr hen boenyn, fel ag yw e."

"Ma'n dda gyda ni glywed dy fod di wedi i wado fe, Daniel, oblegid ychydig iawn o honon ni sy'n fishtri arno fe, 'dw i ddim, ta beth. Ond carca di e, Daniel, hen un ffals iawn yw e. Ma fe wedi cael bagad dan i dra'd cyn hyn. Ma'r Gair yn gweud wrtho ni am wyllo a gweddio; hen lew rhuadwy yw e. Gwylia a gweddia, Daniel."

"Odi, ma gwyllo a gweddio yn bethe o'r gore mewn cwrdd gweddi neu gyfeillach; ond dishgwyl di yma, William Edward; os w't ti am wado'r diafol, ma'n rhaid bod yn iawnda *sharp* gyda hyny, a uso——"

"Dyna ddigon 'nawr, Daniel, 'stedda lawr."

Ym mhen pedair blynedd wedi dyfodiad Mr. Richards yma aed i'r draul o £800 i ail-adeiladu a helaethu y capel. Ei Gynllunydd y tro hwn oedd y Parch. T. Thomas, Glandwr, Abertawe. Ar yr achlysur o'i ail-agoriad pregethwyd gan y Parchu. Caledfryn, Groes Wen; Thomas, Glandwr; a Hughes, Penmain.

Yn 1891 yr oedd rhan o Ystad Goodrich yng Nghaerphili yn y farchnad, ac ym mhlith rhanau eraill, y tir ar ba un y safai Bethel. Nid oedd yr eglwys yn deall pa fodd yr oedd tir y capel yn dod ar werth a hithau yn credu fod ganddi brydles arno. Pan adeiladwyd y



SARON, BEDWAS.

Bethel cyntaf, gofynwyd i W. Lewis, Pontygwindy, un o ddiaciaiaid y Groes Wen, ac un o'r rhai mwyaf blaenllaw gyda'r ganghen, a Goruchwyliwr Ystad Goodrich, i dynu allan brydles am 150 o flynyddau am ardreth flynyddol o £2 10s. Esgeulusodd wneud; a phan fu farw ni feddylodd neb ymholi am y brydles, ac nid oedd neb yn pryderu nad oedd pobpeth yn iawn nes y rhoddwyd y tir yn y farchnad.

Cynhaliwyd cyfarfod arbenig o'r eglwys i ystyried sefyllfa pethau, a gwahoddwyd Mr. Whitcombe, Goruchwyliwr yr Ystad, iddo, ond methwyd a dod i gyd-ddealltwriaeth, a chynhaliwyd ail gyfarfod, ac yn hwnw penderfynwyd anfon Mri. Henry Anthony, Y.H., ac Edmund Jones, dau o'r diaconiaid, i Gloucester i ymddiddan ym mhellach â Mr. Whitcombe, a chydag awdurdod i brynu y tir os na ofynid rhagor na £200 am dano. Llwyddasant i'w brynu am £175.

Yn fuan wedi hyn gwnaeth Ardalydd Bute gais at yr eglwys i werthu y tir a'r capel iddo ef, a chynnygiodd £1,500 am danynt, a chan nad oedd festri wrtho, na lle i godi un, a'r capel eisoes yn dechreu dangos arwyddion dadfeiliad, gwerthwyd yr eiddo iddo am £1,800, a chafodd fargen, os cafodd Ardalydd erioed fargen; a rhoddodd Mr. H. Anthony, Y.H., ddarn helaeth o dir yn rhydd-ddaliol i'r eglwys; ac adeiladwyd y capel presenol arno, yr hwn sydd wedi costio £2,000, ac agorwyd ef ar Sul y Pasg, 1895. Boreu'r Sabboth hwnw traddodwyd y bregeth gyntaf gan yr hybarch weinidog, Mr. Richards. Yn y prydawn pregethwyd gan Mr. T. S. Davies, Coleg Aberhonddu, ac yn yr hwyr gan Mr. T. S. Davies a'r Parch. E. Bush, Earl Shilton—dau o blant yr eglwys.

Yr oedd amrai o aelodau Bethel yn byw yn Bedwas, a daethpwyd i deimlo y dylid cadw moddion yno, am nad ellid disgwyl iddynt ddyfod trosodd i Gaerphili deirgwaith y Sabboth, a phenderfynwyd cadw Ysgol Sul yn y prydawn, a phregeth neu gwrdd gweddi yn yr hwyr. Dechreuwyd yn nhŷ D. Gould (Dewi Aur). Oddiyno symmudwyd i Ysgoldy y Bwrdd, a thra yn addoli yn hon yr adeiladwyd Saron, yr hwn a gostiodd ychydig dros £300, ac a agorwyd yn 1891.

Bu yr hen bererin, Shôn Rowland, Bedwas Fawr, yn flyddlon iawn i Saron tra fu byw. Dylasai canghen fod wedi ei phlannu yn Bedwas hanner can mlynedd yng nghynt nag y planwyd hi.

Y pregethwyr a godwyd yn Bethel ydynt y Parchn. E. Bush a T. S. Davies. Bu y ddau frawd yn derbyn eu haddysg barotoawl yn ysgol y Parch. R. G. Levi, Caerdydd. Oddiyno aeth Mr. Bush i Goleg Nottingham. Ordeiniwyd ef yn Earl Shilton, Swydd Leicester, Medi, 1890. Yn 1900 symudodd i Sunderland, a thrachefu yn 1901 i'w dref enedigol, Caerphili, i fod yn weinidog cyntaf yr Eglwys Annibynol Seisnig, lle y mae yn bresenol yn fawr ei barch. O'r Ysgol Ragbarotoawl

aeth Mr. Davies i Goleg Aberhonddu, ac ar derfyn ei gwrs colegol derbyniodd alwad i Bethel (S.), Cwmbran, ac ordeiniwyd ef yno yn 1896. Symmudodd oddiyno i Briton Ferry (S.), lle y mae yn bresenol yn gwneud gwaith da dros Iesu Grist.

Yn Mehefin, 1870, cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr Cymreig Morganwg yn Nghaerphili, am y tro cyntaf, o dan nawdd Eglwys Bethel.

Cadeirydd y Gymanfa oedd y Parch. J. Davies, Caerdydd.

Ar foreu y diwrnod cyntaf cynhaliwyd y gynhadledd, ac ym mhlith y penderfyniadau eraill a gadarnhawyd ganddi, ceir yr un canlynol ar gwestiwn Addysg Genedlaethol. Mae yr amgylchiadau mor debyg fel y gellid yn hawdd ei ddarllen drosodd eto a'i fabwysiadu yng Nghynhadledd Cymanfa Caerphili, 1904, dim ond newid enw Mr. Henry Richard i Mr. Lloyd George. Dyma'r penderfyniad:—"That this Conference, feeling deep interest in the question of National Education, humbly, but earnestly, requests the representatives of Welsh constituencies to support by their votes, the amendment of Mr. Henry Richards, M.P., now under discussion, believing as it does, that there will be no satisfactory settlement in any other way." Os deil Ymneillduwyr y deyrnas i ymladd brwydr Addysg Genedlaethol fel y maent wedi gwneud oddiar enedigaeth Deddf Addysg 1902 ni fydd eisien penderfyniad tebyg yng Nghynhadledd *trydedd* Cymanfa Morganwg yng Nghaerphili.

Pregethwyd yn y Gymanfa hon gan y Parchn. J. Davies, Soar, Aberdar; J. Thomas, Bryn, Llanelli; Emlyn Jones, Treforris; Thomas, Rock, Cwmafon; Jenkins, Salem; R. Evans, Bethel, Aberdar; Jones, Ffynonbedr; Morgan, Bethesda'r Fro; Williams, Canaan, Abertawe; Davies, Caerdydd (yn Saesneg); Matthews, Castell Nedd; Morgans, Cwmbach; Edwards, Aberdar; Davies, New Inn; T. Rees, D.D., Abertawe; J. T. Evans, Dowlais; Llewelyn, Mountain Ash (neu Aberpenar fel yr adnabyddir y lle yn awr), a J. Bowen-Jones, B.A., Penybont-ar-Ogwy.

Cynhaliwyd y Gymanfa uchod yn y Castell. Fel yr awgrymwyd eisoes, cynhelir Cymanfa Annibynwyr Cymreig Morganwg eleni (1904) yng Nghaerphili, ac o dan nawdd eglwys Bethel, ond nid yn y Castell—gwrthodwyd ei fenthyg gan ei berchenog, Ardalydd Bute. Mae Mab Duw bellach yn hen gyfarwydd â gwrthodiadau dynion.

Daeth y gweinidog presenol yma o Johnstown, Rhiwabon, a dechreuodd ar ei weinidogaeth ar yr ail Sul yn Hyd. 1901, a chynhaliwyd cyfarfodydd ei sefydliad Tach. 19eg a'r 20fed o'r un flwyddyn. Gwasanaethwyd ynddynt gan y Parchn. R. Roberts, Rhosllanerchrugog; O. J. Owens, Ponkey; C. T. Thomas, Groes Wen; J. T. Davies, Efail-isaf; W. I. Norris, ac E. Goronw, Pontypridd; R. Jones, Pencoed; J. Williams, Hafod; D. H. Williams, M.A., Barry; D. G. Rees, Eglwys-

newydd; D. G. Evans, Glantaf; J. Jones, Senghenydd; ac eraill o weinidogion y cylch a'r dref.

Dyma enwau diaconiaid yr eglwys o'i chorphoriad:—Shôn Rowland, Thomas Anthony, Henry Anthony, Y.H., Daniel Thomas, Thomas Thomas, Edmund George, John Evans, Edmund Jones, Jonathan Lewis, David Daniel (Alawgerdd), John Price, M. Hargest, S. R. Williams, W. Roberts, Joseph Howells, Thomas Williams (Bedwas). Y mae y deg olaf yn fyw yn bresenol, ac yn gwasanaethu yr eglwys yn y swydd gyda ffyddlondeb. Yr unig eglwys sydd wedi hanu o Bethel ydyw Eglwys yr Annibynwyr Seisnig, Van Rod; ac er fod y fam-eglwys wedi gollwng nifer dda o aelodau gweithgar allan i ffurfio yr uchod, eto y mae o ran rhif ei haelodau a'i gweithgarwch yn fwy nag erioed. Parhaed Bethel i wireddu yr enw sydd aini hyd nes y byddo wedi cyflawni ei chenhadaeth dros Dduw yn y dref.

Wrth derfynu y braslun hwn o hanes ya eglwys hon, yr ydym yn ymwybodol nad ydym wedi cyffwrdd â'i bywyd a'i gwaith yn eu hagweddol goreu ac ysbrydolaf—pethau a'u gwyneb at Dduw ydynt, ac yn "Llyfr Bywyd yr Oen" y cedwir cof am danynt.

Glandwr-Taf.

YN yr Addoldy uchod, y cyferfydd yr Eglwys Annibynol Gymreig yn y rhanbarth yma o Ddwyrain Morganwg, yr hwn sydd wedi cael ei godi mewn dyffryn hynod o hardd, yn gyfunid o'r golygydd mwyaf deniadol a swynol gerllaw Ffynon-Taf, tua chwe' milldir o dref fawr, boblog, Caerdydd.

Adeiladwyd y capel yn y flwyddyn fyth-gofiadwy 1859, a ffurfiwyd eglwys.

Sierhawyd y tir drwy foneddwr o'r enw Morgan Thomas, Ynysgoi, yr hwn sydd wedi gadael rhodd werthfawr yn ei ewyllys i'r eglwys, sef deg-punt-ar-hugain y flwyddyn at gynal y weinidogaeth. Mae ei fedd a'i gof-adail enfawr, gyda llu eraill yn y fynwent ddistaw gerllaw.

Cafwyd cyfarfodydd bendigedig ar ddydd agoriad y capel.

Dechreuwyd yr oedfa gyntaf o'r gyfres gyfarfodydd gan y Parch. Lewis Powel, Caerdydd.

Pregethwyd gan yr enwogion canlynol:—Y Parch. W. C. Williams (Caledfryn), a'r Parch. J. Stephens, Brycheoed.

Dechreuwyd yr oedfa brydnawnol gan y Parch. H. Oliver, B.A., Pontypridd.


Pregethwyd gyda dylanwad mawr gan y Parch. J. Davies, Mount Stuart, Caerdydd; pan y torodd y gynulleidfa allan i foli ac i ganu, a chanu a wnaethant am dros laner awr o amser. Gwelodd yr hen frawd brwdfrydig John Jenkins (Shôn Crydd) ruddiau hen wrandawr yn wlybion, a gwaeddodd allan "Diolch," a "Bendigedig." "Pentewyn, meddai, wedi ei achub o'r geneuedig dân." "Roedd mam yr hen wrandawr yn bresenol, ac nid hir y bu cyn deall mai ei mhab hi ydoedd. Gweithiodd ei flodd tsg ato, ac yno y bu coffeidio, a molu'r Ceidwad, nes i bawb anghofio ei hunain. *Un o oedfaon y Diwygiad oedd hon!*

Adrodd hanes Diwygiad yr Iwerddon oedd y Parchedig J. Davies pan deimlodd y dorf y dylanwad dieithr o'r nefoedd.

Pregethwyd hefyd yn yr oedfa hono gyda nerth anarferol gan y diweddar Barch. Dr. Rees, Abertawe.

Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr hwyr, pan ddaeth tyrfa o bobl ynghyd i ddiolch am oedfa'r prydawn. Yr oedd yn bresenol ar adeg agoriad y capel, heblaw y gweinidogion a enwyd, y Parchedigion J. Taihirion Davies; J. Jones, Bethlehem; D. Stephens, Glantaf, ac ereill.


Gweinidog cyntaf yr eglwys oedd y Parch. D. Stephens, Glantaf.



Parch. W. REES (Glandwr).



GLANDWR—HEN GAPEL.



GLANDWR CAPEL NEWYDD.

Cafodd y fraint a'r hyfrydwch o weled yr achos yn llwyddo a'r eglwys yn cynnyddu, oblegid derbyniwyd ganddo gynnifer a deugain drwy ddeheulaw cymdeithas yr un Sabbath cymmundeb. "Yn wir ni chyll ei wobr."

Ail weinidog yr Eglwys oedd y Parch. E. Pritchard. Sefydlwyd ef yma yn y flwyddyn 1862. Byr fu ei arosiad, hyd y flwyddyn 1865. Tad-yng-nghyfraith y diweddar foneddwr caredig, cynghorwr trefol, ac ynad heddwch, Mr. Noah Rees, Caerdydd.

Y trydydd weinidog oedd y Parch. Ben Davies—y presenol Dr. Davies, Castell-Newydd-Emlyn. Hon oedd ei eglwys gyntaf. Yma y cafodd ei urddo i'r weinidogaeth. Cymmerodd ofal yr eglwys pan yn ieuanc iawn, a gwnaeth waith arcsol, a thragywyddol, er lles i eneidiau dynion, er adeiladaeth i'r eglwys, ac er gogoniant i Dduw, yn ystod y chwe' blynedd y bu yma. Nid oes eisiau dweyd am dano fel pregethwr, gŵyr pawb erbyn hyn am ei alluoedd, erys përarogl hyfryd ei weinidogaeth bur a'i bregethau iach hyd yr awr hon.

Pedwerydd weinidog oedd y diweddar Barch. W. Rees, o Gwmafon. Urddwyd ef yn weinidog ar Eglwys Siloh, Maesteg, tua'r flwyddyn 1855. Bu yno am yn agos i ugain mlynedd. Cafodd ei sefydlu yma yn y flwyddyn 1874, ac yma y gorphenodd ei yrfa ddaearol. Gwasanaethodd yr eglwys yn flyddlawn am yn agos i wyth-mlynedd-arthugain. Gwr heddychlawn, a bugail nodedig am ei gallineb oedd efe, a bu yn dra llwyddianus yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, cyn i fasnach y lle i arafu, oherwydd cawn ei fod wedi derbyn dros ddau cant o aelodau i'r eglwys mewn byr amser. Cymmerodd ofal o Eglwys Seion, Pontypridd, hefyd am ychydig flynyddau, a sicrhodd y capel yn eiddo i'r enwad Annibynol; ond Glandwr fu maes ei lafur, a chyflwynodd yr eglwys a chyfeillion caredig dysteb deilwng o £150 iddo ar derfyn ei weinidogaeth.

Teimla yr eglwys yn dyledus iawn i'r gweision uchod am eu gwasanaeth a'u gofal yn yr amser a fu, ac i'r brodyr canlynol am eu flyddlondeb a'u pregethau:—Y Parchedigion J. Taihirion Davies; Jones, Ty'nycoed; Mathews, Castellnedd; Griffiths, Alltwen; Williams, Abercwmhoy; Jones, B.A., Caerdydd; a llawer eraill.

Rhai o gewri yr achos yn Glandwr oeddynt y Mri. John Jenkins (Shôn-Crydd), Morgan Thomas, Evan Jenkins, David Joseph, Edward Francis, David Edward, William Llewellyn, William Thomas, David Llewellyn, William Millward, Watkin Rowlands, John Gravel, Edmund Morgan, a llu eraill garem eu henwi, y rhai a aethant oddiwrth eu gwaith at eu gwobr.


Pummed a phresenol weinidog yr eglwys ydyw D. Stanley Morgan, genedigol o swydd Benfro. Cymhellwyd ef i bregethu gan yr

eglwys yn Pisgah, Llandysilio. Urddwyd ef yn weinidog ar yr eglwys hon y 10fed o Chwefror, 1903. Pregethwyd ar "Natur Eglwys" gan y Parch. J. T. Phillips, Nebo, Penfro, ac anerchid y gweinidog ieuanc gan y Parch. J. C. Owen, Llandysilio. Gofynwyd y gofyniadau gan y Parch. J. Taihirion Davies, ac offrymwyd yr Urdd Weddi gan y Parch. J. Williams, Hafod. Traddodwyd pregeth i'r eglwys gan y Parch. H. M. Hughes, B.A., Caerdydd, ac i'r gynulleidfa gan y Parch. T. Bryn Thomas, Tabernacl, Ferndale. Cyflwynodd y ddau frawd caredig, John Howell, Bryndysil, a James Adams, Glantaf, dau o ddiaconiaid Pisgah, Llandysilio, rodd werthfawr o lyfrau i'r gweinidog ieuanc ar ran ei fam eglwys, a derbyniwyd hwynt yn ddiolchgar.

Gwelwyd oddiar yr amgylchiad hwnw gynydd amlwg yn yr eglwys, ychwanegwyd at ei rhif mewn blwyddyn o amser dros ddeugain o aelodau. Adnewyddir y capel yn bresenol, ac eir i ddyled o £1,300; er hyny, gweithia yr eglwys yn egniol o dan fendith Duw, a bwriedir i'r addoldy newydd i ddal dros ddau cant o bobl yn fwy na'r hen.

Cododd yr eglwys hon nifer luosog o bobl ieuanc oeddynt yn addurn i'r gym'dogaeth, yn urddas i'w cartrefi, ac yn golofnau i'r achos. Bechgyn oeddynt yn awyddus iawn am wir ddysgeidiaeth, sychedig am wybodaeth Feiblaidd, a newynog am Dduwinyddiaeth, ymroddgar i efrydiaeth, a llwyr ymgyflwynedig i waith a gwasanaeth yr Arglwydd, ac yn eu plith ceir y Parch. Edward Morgan, presenol o'r America; William Davies yn ei fedd; Gwilym Llewellyn, ei delyn ynte a dorwyd yn gynar; y Parch. Levi Rees, Bradford; a George Rees, U.D.A.; meibion y diweddar weinidog yw y ddau olaf.

Dyma gyfres o ddiaconiaid dewisiedig yr eglwys o'r dechreu: John Jenkins (Shôn-Crydd), ac Evan Jenkins; William Llewellyn, William Thomas, a William Millward; Isaac Thomas, John Phillips, a Gwilym Millward; Lewis Davies, David Llewellyn, John Rowlands, Philip Williams, a Jacob Davies.



NODDFA, SENGHENYDD.

Noddfa, Senghenydd.

LLE newydd a chynnyddol ydyw Senghenydd, yn sefyll ym mhen uchaf Cwm prydferth yr Aber, ac oddeutu pedair milldir a hanner o Gaerffili.

Y mae y lle wedi ei newid yn fawr ym mhob ystyr yn ystod yr un-mlynedd-ar-ddeg diweddaf, oblegid yn nechreu y flwyddyn 1893, nid oedd yma ond ychydig amaeth-dai ac anedd-dai i'w gweled, yn cael eu hamgylchu gan gaeau prydferth, a llawer o goed yn tyfu ar bob llaw.

Bu y flwyddyn 1893 yn ddechreuad cyfnod newydd yn hares y lle, gan mai dyna yr amser y daeth Cwmni yr Universal i agor y Lofa elwir ar eu henw hwynt. O'r amser hwnw hyd yn awr y mae y trigolion wedi cyrhaedd uwchlaw 4,000 mewn rhif, ac y mae ymdrechion egniol wedi eu gwneyd i ddyrchafu y lle yn amgylchiadol, addysgol, moesol, a chrefyddol.

Nis gellir dywedyd pa mor gynar y llewyrchodd goleuni yr efengyl ar y lle hwn, ond 'gwyddom fod rhai o ffyddloniaid Duw wedi bod yn byw yn yr ardal ers ugeiniau (os nad cannoedd) o flynyddau yn ol. Nid oes neb a wyr pa mor aml yr arferent ymgasglu fin hwyr i addoli yr Arglwydd, ac i adrodd eu profiadau crefyddol ar eu pererindod; ond gwyddom iddynt adael dylanwad da ar ol sydd wedi bod yn ysbrydiaeth i ereill ar yr yrfa.

Dywedir fod rhai o ganlynwyr Wycliffe wedi bod yn cynnal achos crefyddol yn Senghenydd am ryw gymaint o amser.

Dywedir hefyd fod yn y lle hwn, ganrifoedd lawer yn ol, Fynachlog (Monastery), yn sefyll wrth odreu Mynydd Craig-yr-Hufen. Ai gwir hyn, nis gwyddom, ond yr ydym yn sicr fod rhai canlynwyr ffyddlon i'r Oen wedi bod yn byw yn y lle, ac iddynt godi amryw allorau i Arglwydd y lluoedd.

Yr ydym yn sicr hefyd fod cyfarfodydd crefyddol wedi eu cynnal yn y tai-annedd canlynol:—Y Waunwen, bwthyn tó gwellt a safai lle y mae y Gwernymilwr Hotel yn awr; Goeldre Isaf (Caerffili Road yn awr). Pandybach (ger y fan lle mae y Leigh Hotel); yn amaeth-dai Maes-diofal, a'r Hen Barc. Y mae rhai yn fyw yn awr ydynt yn cofio oedfaon hyfryd yn rhai o'r tai uchod.

Dywed rhai fod yr efengyl wedi ei phregethu yn Senghenydd gan Rowlands, Llangeitho, Howell Harris, a Williams, Pantycelyn, ac ereill.

Yn y flwyddyn 1893 arferai y bobl oedd wedi dyfod i'r lle, fyned i addoli yng nghapel Annibynol yr Aber a'r Groes Wen, ac yr oedd rhai o honynt wedi ymaelodi yn y lle olaf.

Cawn fod rhai o'r brodyr wedi cyfarfod â'u gilydd nos Lun, Rhagfyr 11eg, 1893, er ystyried y priodoldeb o gychwyn achos crefyddol yn y lle. Penderfynwyd cychwyn achos ar unwaith, a bod eglwys i'w chorffori mor fuan ag y byddai amgylchiadau yn ffafriol.

Y nos Lun dilynol ffurfiwyd pwyllgor adeiladu, a phenderfynwyd derbyn y tir gynygiwyd gan Mr. Bruton am flwydd-dal o £2 17s. 9c.

Yn mis Ionawr, 1894, dechreuwyd cynnal cyfarfodydd crefyddol yn y lle, a chawn i'r Parch. C. Tawelfryn Thomas, ac ereill gynnal cyfarfod gweddi yn nhŷ Mr. David Thomas, nos Fawrth, Ion. 23ain, 1894.

Wedi hyny, cynnaliwyd cyfarfodydd crefyddol gan y gwahanol enwadau yn y Siop Saer (a safai lle y mae Assembly Rooms, Gwern-y-milwr, yn awr), yr hon a roddwyd at eu gwasanaeth yn rhad gan Mr. Josiah Morgan, Caerffili (Porth y pryd hwnw). Pregethwyd yno Nos Fawrth, Chwefror 20fed, 1894, gan y Parch. J. Evans, Eglwysbach. Pregethodd y Parch. J. Johns, Crwys, Abertawe, yn nhŷ Mr. D. Thomas nos Lun, Ebrill 2il, 1894. Pregethwyd yn y Siop Saer gan y Parchn. W. C. Jones, Utica; Evans (B.), Maerdy; C. T. Thomas, Groes Wen; R. Thomas, Penrhiwceiber; Davies (B.), Tonyfelin, Caerffili; J. Williams, Hafod; T. D. Evans, Tyrhos; H. P. Morgan (W.); Pickett, Wis Corris; Davies (W.), Llanidloes; ac ereill.

Nos Fawrth, Ebrill 10fed, 1894, penderfynwyd fod Festri Annibynol Noddfa i'w hadeiladu ar unwaith. Adeiladwyd hi gan Mr. W. Williams, Senghenydd, o dan arolygiaeth fedrus Mr. Joseph Howells, Caerffili, yr hwn wnaeth bob ymdrech i ddwyn y gwaith ymlaen mor rhad ag ydoedd yn bosibl. Gorphenwyd hi yn Gorphenaf, 1894, a chostiodd yr adeilad ychydig dros £200, a thalwyd yr oll ym mhen tair blynedd.

Traddodwyd y bregeth gyntaf yn y festri gan y Parch. C. Tawelfryn Thomas, Groes Wen, nos Sabbath, Gorphenaf 22ain, 1894.

Corphorwyd Eglwys Annibynol Noddfa, nos Lun, Gorphenaf 23ain, 1894, a rhifai yr aelodau 32. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. J. Taihirion Davies a Vincent Stephens. Teg yw nodi i'r eglwys hon gael ei chorffori, a'r festri gael ei hagor, cyn agor Hotel yma; nis gellir dywedyd hyn am bob lle.

Agorwyd y festri dydd Mawrth, Gorphenaf 24ain, 1894. Pregethwyd gan y Parchn. W. Rees, Glandwr; Evans, Antioch, Sir Benfro; J. R. Davies, Caerdydd; W. C. Davies, Llantrisant; a T. Hughes, Cathays.

Nos Lun, Awst 7fed, 1894, dewiswyd diaconiaid cyntaf yr eglwys:—Mri. D. Thomas, David James, Evan Sherrah, a Daniel Jones. Y

Sabbath dilynol oedd Sabbath cymundeb cyntaf yr eglwys, a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. M. Jones, Ty Newydd.

Tachwedd 22ain, 1896, dewiswyd y rhai canlynol yn ddiaconiaid:—Mri. D. Aeron Jones, D. James (Llansamlet), D. Bowen, a D. Gould (Dewi Aur).

Adeiladwyd Capel Noddfa gan Mr. J. Howells, Caerffili, a gorphenwyd ef yn Ebrill, 1898. Y mae yn adeilad eang a gorwych, ac yn cynnwys eisteddleoedd i 700 o bobl. Costiodd yr adeilad £1,800, a bu raid i'r eglwys dalu £262 am y ffyrdd o'i amgylch. Saif yn ymyl y festri ar y darn tir rhwng High Street a gwaelod Stanley Street.

Agorwyd y capel, Sabbath a Llun, Mai 1af a'r 2il, 1898. Pregethwyd yn y cyfarfodydd gan y Parchn. W. R. Bowen, Maesteg, ac S. Roberts, Llanbrynmair.

Y Sabbath blaenorol dewiswyd y rhai canlynol yn ddiaconiaid: Mri. Jacob Jones, D. Dulais Jones, Ed. Davies, a D. Gwynne.

E. Sherrah oedd arolygwr cyntaf Ysgol Sabbothol Noddfa, a G. D. Griffiths ei hysgrifenydd cyntaf.

Yn y danchwa ofnadwy ddigwyddodd yng Nglofa yr Universal, Mai 24ain, 1901, colodd yr eglwys hon aelodau ffyddlon, ac yn eu plith ddau o'r swyddogion: Mr. John Evans, arweinodd ymroddgar canu yr eglwys, a Mr. D. James (Llansamlet), blaenor gweithgar.

Mehefin 30ain a Gorphenaf 1af, 1901, cynnaliwyd cyfarfodydd ordeinio Mr. J. Jones (Penlaneych), Coleg Aberhonddu, yn weinidog cyntaf yr eglwys. Penderfynodd yr eglwys yn unfrydol nos Sabbath, Mehefin 17eg, 1900, i roddi galwad iddo, ond ni ordeiniwyd ef y flwyddyn hono, am fod ganddo flwyddyn arall i'w threulio yn y coleg.

Gwasanaethwyd yn y cyfarfodydd ordeinio gan y Parchn. C. Tawelfryn Thomas, Groes Wen (Llywydd); T. Rees, M.A., Coleg Aberhonddu; Prifathraw D. Rowlands, B.A., Coleg Aberhonddu; B. Evans, Barry; J. Williams, Hafod; J. Taihirion Davies; J. D. Jones, Abercanaid; D. Roberts (B.), Senghenydd; J. Evans, Y.H., Pontseli, Sir Benfro; D. Thomas, goruchwyliwr, ac ereill.

Yn ystod y cyfarfodydd cyflwynodd yr eglwys iddo werth £10 o lyfrau yn rhodd roesawol ar ei ymsefydliad yn eu plith.

Mawrth, 1902, dewiswyd y rhai canlynol yn ddiaconiaid:—Mri. L. Thomas, W. Morse, L. Lewis, W. Edwards, a C. Davies. Swyddogion ereill yr eglwys o'r dechreu:—E. Perkins, Leonard Thomas, D. A. Jones, D. D. Jones, William Evans.

Y mae nifer aelodau yr eglwys yn bresennol yn 230, a cheir agwedd lewyrchus ac addawol ar ei holl sefydliadau. Hyderwn y parhant felly, ac y dilynir ein hymdrechion gan lwyddiant helaethach eto yn y dyfodol agos.

Y Tabernacl, Llanbradach.

DECHREUWYD symud at sefydlu achos a ffurfio Eglwys Annibynol yn y pentref poblog, gwaithfaol hwn, yn y flwyddyn 1892. Yn unol a chais taer ychydig ffyddloniaid drigent yno, aeth y Parch. C. Tawelfryn Thomas, Groes Wen, i bregethu iddynt ar nos Sabboth, yn nhŷ Mr. Nathaniel Evans, laethwr. Galwyd cyfeillach ar derfyn yr oedfa, pryd y datganodd nifer o'r gynulleidfa awydd mawr am gael eu corpholi yn eglwys. Wedi cryn ystyriaeth, yn nechreu 1893, am fod amryw o "lewod" ar y ffordd—anturiodd y Mri. T. Thomas, Ty'nywern; J. Taihirion Davies, Efailisaf; J. Williams, Hafod; D. G. Rees, Eglwys-newydd; W. Rees, Glandwr; C. Tawelfryn Thomas, Groe Wen; a J. Millward, Nantgarw, i Llanbradach er codi i fyny faner Annibyniaeth yn y lle. Daeth amryw bersonau yn mlaen i gyfammod á'u gilydd ac á Duw, er ymfurfio yn eglwys i Grist y noswaith hono yn y *Workmen's Hall*,—megis Nathaniel Evans a'i briod, Isaac Jones a'i briod, R. Roberts, Crydd, Mrs. Matthews, a Stephen Thomas a'i wraig, teulu o Watford—hwynt hwy eu dau yn unig ddarfu lwyddo i gael llythyrau gollyngdod! Addolid am dymor yn nhŷ Nathaniel Evans, ac wedi hyn mewn shop wág, lle y cynhelir yn bresenol y Clwb Ceidwadol. Ysbotyn digon annymunol ar llawer ystyr, ond i'w amcan presenol. Gweinidog cyntaf yr eglwys ydoedd y Parch. T. D. Evans, Tyrhos, ac yn ei amser ef yr adeiladwyd y festri. Ar ei ol urddwyd Mr. Wm. Richard, myfyriwr o Goleg Aberhonddu; ond symudodd yntau yn fuan iawn. A'r trydydd weinidog i'r eglwys gydmarol ieuanc hon ydoedd y Parch. E. Gurnos Jones, Ll.D. (gynt o'r Pyle), ac heb nemawr o rybudd ehedodd ei ysbryd aflonydd at yr Hwn a'i rhoes ar riniog y flwyddyn newydd 1904. Amlygir parch ac edmygedd yr eglwys o'i diweddar weinidog yn ei hymdrech i sicrhau iddo gofgolofn deilwng a chenedlaethol yn mynwent fyth-gysegredig y Groes Wen. Blaenorir gyda'r ymgymeriad a nodwyd gan y Mri. David Davies (pregethwr cynorthwyol), ac Abraham Evans, ac wedi codi y gofgolofn i'r gwas, dylent wedi hyn ymaflyd yn y gorchwyl o adeiladu teml i'r Meistr—deilwng o'r eglwys, y lle, a'r enwad.



TABERNACL, LLANBRADACH.

Abertridwr.

YCHYDIG flynyddoedd yn ol nid oedd Abertridwr ond pentref bychan, a chymharol ddinôd. Saif yng Nghwm-yr-Aber, oddeutu milldir islaw Senghenydd, a thair milldir a hanner o Gaerfili.

Nid oes neb a wyr pa bryd y dechreuwyd addoli Duw yn y lle, ond bu anryw ddyddion da a gwir grefyddol yn byw yn yr ardal hon yn ystod y ddwy ganrif ddiweddar, a rhai, fe ddichon, cyn hyny.

Yma y ganwyd ac y magwyd Shon Cent, yr ysgolor da, a'r dyn duwiol, nad oes neb ond Duw wyr faint o ddaioni wnaeth yn yr ardal.

Dywedir i'r offeirad duwiolfrydig, y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, ymweled â'r lle, ac iddo ef, neu ei gynorthwywr, dreulio dwy flynedd yma i ddysgu y trigolion i ddarllen Gair Duw. Ac nid oes neb a wyr pa mor fynych y clywid yr efengylwyr ffyddlon, y Parchn. William Edwards a Griffith Hughes, Groeswen, yn gwahodd afradloniaid y gymydogoeth i adael "ffordd y glyn" a cheisio "llwybrau cyfiawnder."

Beth bynag, yr ydym yn sier yr addolid yn y lle hwn yn ystod gweinidogaeth y Parch. Moses Rees y Groeswen, yr hwn a sefydlwyd yn weinidog yr eglwys hono yn y flwyddyn 1841. Cynnelid cyfarfodydd crefyddol y pryd hwnw mewn tŷ anedd a safai ar ochr y brif-ffordd (Thomas Street yn awr) yn ymyl y Square (ar y man y saif tŷ Dr. Burke yn bresennol). Weithiau ceid dau wasanaeth ar y Sabbath—ysgol yn y prydawn, a chyfarfod gweddi neu bregeth yn yr hwyr; a chyfarfod gweddi ar noson waith. Pregethodd y Parch. Moses Rees ac ereill lawer tro yn yr anedd hono.

Cynnaliwyd llawer o gyfarfodydd hefyd yn yr Aberfawr, a phregethodd y Parch. Daniel Griffiths, Soar, Castellnedd, ac ereill, lawer gwaith yn yr ystafell gyferbyn a'r ffordd sydd o flaen y tŷ, ac ar y Green o flaen y tŷ ar brydnawn Sabbothau.


Yn 1856 adeiladwyd Capel Annibynol Adulam (y capel cyntaf yng Nghwm-yr-Aber), ac agorwyd ef yn Medi neu Hydref yn yr un flwyddyn, ym mhên ychydig anser wedi marwolaeth Mr. Rees, Groeswen. Un o golofnau cryfaf yr achos yn yr Aber pan adeiladwyd y capel oedd Mr. William Thomas y Gelli, a'i briod, un o ddiaciaoniaid selog Eglwys y Groeswen. Drwy ei roddion hael ef ac ereill, a'i ymdrech i gasglu y tu allan i'r lle, talwyd am y capel yn fuau.

Ym mysg y ffyddloniaid ereill yr oedd y rhai caulynol yn gymeriadau anlwg a dysglær:—Edward Meyrick, Craig-yr-Hafen, yr hwn oedd arweinydd y canu. Yr oedd yn meddu llais swynol, ac yn llawn o ysbryd cynhes. Evan Lewis (Ifan y Gôf). Yr oedd ef yn byw yn y tŷ nesaf i'r hwn y cynnelid y cyfarfodydd ynddo. Adwaenid ef fel gweddiwr mawr ac ysgrythyrwr da. Thomas Meyrick. Bu ef yn byw yn y Waunwen, Senghenydd. Oddiyno symudodd i'r Aber. Yr oedd yntau yn hen Gristion gloew, a gwasanaethgar iawn gyda'r achos. William Edwards (Bili Ty'nyparc), tad yr Anrhydeddus Daniel Edwards, U.D.A., un o farn gywir, a ffyddlon i'r gwirionedd; ynghyd ag ereill fu yn ymdrechgar gyda'r achos, megys: Mri. Phylip Phillips, Garth; Elias Morgan, Pantdrain; Dafydd Richards, Cefn Llwyd; William Lewis, Hendredenny Ganol; William Smith, Cwrtycelyn; Thomas Jenkins, Aberfawr; Noah Evans, Daniel Morgan, Aber; Evan Jenkins, Foel-ddu; a Samuel Williams, Shop; a llawer o chworydd crefyddol, a llafurus iawn gyda'r achos.

Yn ystod gweinidogaeth Caledfryn bu diwygiad cryf yn yr ardal, ac ychwanegwyd amryw aelodau at y rhai addolent yn Adulam, nes yr aeth y capel yn rhy fychan, a bu raid ei helaethu. Pregethwyd ar ail agoriad y capel gan y Parchn. Jones, Crugybar, ac R. Thomas (Ap Fychan).

Un o'r ffyddloniaid amlycaf gyda'r achos yr amser hwn oedd Mr. William Francis, yr hwn oedd yn nodedig o lafurus gyda phob rhan o'r gwaith.

Aelodau o Eglwys y Groes Wen oedd y rhai addolent yma y pryd hwnw, ac elent yno i gymuno bob mis, ac i oedfaon boreu Sabbath. Felly y bu am flynyddau lawer yn ystod gweinidogaeth y Parch. William Nicholson, a'i olynnydd y Parch. C. Tawelfryn Thomas, gweinidog presennol y Groes Wen. Dau wasanaeth gynnelid ar y Sabbath, sef yn y prydawn a'r hwyr. Ond er agoriad y ddwy Lofa sydd yn rhan uchaf y Cwm, y mae trigolion y lle hwn, fel eiddo Senghenydd, wedi cynnyddu yn fawr mewn rhif; ac oddeutu saith mlynedd yn ol, teimlwyd angen dwys am dri gwasanaeth ar y Sabbath, yn lle dim ond dau yn ol yr hen drefn; ac mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn y Groeswen nos Lun, Mawrth 7fed, 1898, penderfynwyd dechreu cynnal gwasanaeth ar foreu Sul, Mawrth 20fed, 1898. Mr. E. Thomas, Aberfawr, oedd yr unig flaenor yn y lle hyd nes y dewiswyd y rhai caulynol Sabbath, Tach. 20fed, 1898:—Mri. M. Morgan, W. Brace, H. Morgan, ac E. Edmunds. Ychwanegwyd Mr. J. Millward attynt, yr hwn oedd yn bregethwr a diacon o'r blaen yn y Groeswen. Cafwyd Cymundeb y Sabbath hwn. Ion. 8fed, 1899, cynnaliwyd y Cymundeb Misol cyntaf yn Adulam. Gweinyddwyd gan y Parch. C. Tawelfryn Thomas, ac yr oedd 31 o



ABERTRIDWR.

gymunwyr yn bresennol. Corphorwyd hwynt yn eglwys y dydd hwnw.

Yn 1901 adeiladwyd capel newydd yn ymyl yr hen i eistedd 680, gan Mr. John Williams, adeiladydd, Bryn Teifi. Costiodd yr adeilad hwn dros £2,200.

Casglwyd yn agos i £100 ddydd lleoliad y meini coffadwriaethol, a gwnaed yr oll waith cyfreithiol gan Mr. W. Spickett, Caerfili, a'r Mri. Francis & Thomas, Caerdydd, am ddim.

Enw y capel newydd ydyw Abertridwr. Mae yn addurn i'r Cwm, ac yn anrhydedd i'r sawl fu yn gweithio arno; ac ni roddes fyl i fewn am yr "extras"—yr hyn gyfrifid i'r eglwys yn fantais o werth £50. Ysgrifenydd yr eglwys o'r cychwyn ydyw y brawd teilwng, Mr. A. J. Williams, Hill Side, un o ragoroion y ddaear. Dychwelwyd haner y "Fee" gan y Cynghorw Iltyd Thomas (y cynllunydd); cafwyd ffafwr lawer gan Mr. J. Rowland; a charedigrwydd diball gan Mr. and Mrs. Thomas, Aber Fawr, er nad oes cysylltiad rhyngddynt a'r eglwys hon.

Traddodwyd y bregeth gyntaf yn y capel newydd gan y gweinidog, nos Sabbath, Ion. 4ydd, 1902.

Cynnaliwyd y cyfarfodydd agoriadol Ion. 12fed a'r 13eg, 1902.

Pregethyd gan y Parchu. J. D. Jones, Abercarnid; Dr. B. Davies, Castellnewydd Emlyn; ac E. Richards, Tonypandy.

Yn 1902 dewiswyd y rhai canlynol yn ddiaconiaid:—Mri. T. Cassam, John Williams, J. John, a T. Jenkins.

Yn 1903 adeiladwyd y festri gan Mr. John Evans, Caerfili, a chostiodd £200.

Hydref 11eg, 1903, hysbysodd y Parch. Tawelfryn Thomas y frawdoliaeth y byddai yn rhoddi i fyny ei ofal gweinidogaethol am yr eglwys ym mhen tri mis.

Tach. 1af, 1903, dewiswyd y rhai canlynol yn ddiaconiaid:—Mri. Daniel Jones, Philip Parry, D. A. Jones, a Lewis James.

Nos Iau, Ionawr 2lain, 1904, cynnaliwyd cyfarfod i anrhegu y gweinidog ar ei ymadawiad, a derbyniodd roddion gwerthfawr gan yr eglwys fel amlygiad o'i pharch iddo, a'i gwerthfawrogiad o'i wasanaeth gwerthfawr yn y gorphenol. Nid yw yr eglwys eto wedi dewis olynnydd iddo. Hyderwn y llwydda i gael gweinidog da yn arweinydd iddi.

Unodd dau bregethwr cynorthwyol newydd â'r gangen y Mri. T. Cassam a John Ellis (yr olaf yn awr yn ysgol ragbarotoawl y Parch. Watcyn Wyn).

Cymanfaoedd y Cylch.

ADWAENIR Cymru, a chenir yn ei chylch fel "Gwlad y Cymanfaoedd," a gellid dweyd am y rhanbarth hon o Forganwg ei bod yn nodedig ar gyfrif nifer a dylanwad y Cymanfaoedd gynhaliwyd ynddi yn y gorphenol. Cynhaliwyd *pedair* yn y Groes Wen, Mehefin y 29ain a'r 30ain, 1803; eilwaith, Ebrill y 12fed a'r 13eg, 1814; drachefn ar y 24ain a'r 25ain o Fehefin, 1828, a'r olaf yn Mai 24ain a'r 25ain, 1843. Arwyr y gyntaf oeddynt:—Y Parchn. D. Davies, Llangattwg; E. Jones, Pontypwl; J. Davies, Bethlehem; Davies, Sardis; Dr. Phillips, Neuaddlwyd; T. Bowen, Castellnedd; Davies, Aber; Steel, Trefgarn; a D. Davies, Mynyddbach. "Yn ddiâu cewri oedd ar y ddaear yn y dyddiau hynny." Yn yr *Ail* Gymanfa enwau y cenhadon fu yn pregethu ydoedd:—Y Parchn. J. Jones, Talgarth (gynt o Lerpwl); Williams, Llanwrtyd; Davies, Alltwen; Williams, Tyncoed; Davies, Abertawe; Jones, Pontypwl; Davies, Caernarfon (Panteg wedi hynny), yn Saesneg; a'r digymar W. Williams o'r Wern. Pregethid yu yr uchelwyl *ddilynol* gan yr enwogion:—J. Williams, Ffestiniog; D. Jones, Hermon; Rowlands, Cwmllynfell; J. Evans, Crwys; T. Davies, Abertawe; S. Evans, Merthyr; D. Davies, New Inn; M. Morgan, Bethesda'r fro; M. Jones, Merthyr; D. Lewis, Aber; William Jones, Penybont; Griffiths, Alltwen; Jones, Abertawe, yn Saesneg, a Davies, Abertawe, yn Gymraeg, gyda'r Dr. Jenkin Lewis, Casnewydd. Y llesarwyr yn y *bedwaredd* Gymanfa gynhaliwyd yn y Groes Wen oeddent:—y Parchn. W. Thomas, Rock; Mathews, Casnewydd; Davies, Mynyddbach; Davies, Ceidio; Watkins, Rhymni; Morgans, Bethesda; Dr. Simson, Caerdydd (yn Saesneg); James, Abersychan; Thomas, Clydach; R. Parry (Gwalchmai), Conwy; J. Davies, Cwmaman; Evans, Castellnedd; Davies, New Inn; Morgans o'r Llwyni; Davies, Cwmbran; Rees, Penmain; a Davies, Abertawe, a'u lle hwy a'r lwyfanau uchel Gymanfaoedd Cymru nid edwyn y naill na'r llall o honynt mwyach.

Pasiwyd penderfyniad yn un o gynhadleddau y *pedair* Cymanfa ag y buom yn cronico eu pregethwyr amlycaf, gwerth galw sylw yr enwad Annibynol a'r eglwysi drwy y sir ato yn y dyddiau hyn, sef y dylai pob aelod perthynol i'r Cynulleidfaolwyr ym Morganwg gyfranu

o leiaf geiniog y flwyddyn at gyllid y Gymanfa; ond gwneyd hyn ni fyddai angen i'r eglwys leiaf ofni estyn gwahoddiad iddi—am y cliriai hyny yr holl draul. Ein hangen ni fel enwad ydyw mwy o gyd-ddealldwriaeth a chydweithio. A baich trwm ar ysgwydd un yn faich bychan a hawdd ei gario ar ysgwyddau llawer. Cymanfa y Rhydri yw y nesaf. Cynhaliwyd hi yn y flwyddyn 1857. Methasom ddod o hyd i hanes y Gynhadledd. Pregethid yno gan y Parchn. W. Rees (Gwilym Hiraethog), T. Rees, D.D., Cendl; J. Davies, Aberaman; J. Mathews, Castellnedd; P. Griffiths, Alltwen; R. Griffiths, Cefn; a J. Daniel, Mynydd Bach—"The last of the Barons." Clywsom iddo ef gall oedfa nodedig, oddiar y testyn:—"Na orchfyger di gan ddrygioni," &c. Tybiwn i'r bregeth ymddangos cyn bod yn faith yn un o Gylchgronau y Enwad.

Yn 1870 y cynhaliwyd y *gyntaf* a'r ddiweddfaf hyd yn hyn yng Ngarffili—a'r sawl bregethent ynddi, ym mysg eraill, oeddynt y Parchn. J. Evans, Bethania, Dowlais; Evans, Aberdare; B. Williams, Canaan; Mathews, Castellnedd; J. Davies, Mount Stuart; Thomas o'r Bryn; Llewellyn, Mountain Ash; E. Jones, Ffynonbedr; Jenkins, Trelyn; W. Emlyn Jones, Treforis; Thomas, Cwmafon; Dr. Rees, Abertawe; Bowen-Jones, B.A., Penybont; a W. Edwards, Aberdar.

Hwyrach y dylem gyfeirio at Gymanfaoedd gynhaliwyd yn Tongwynlais ac Ebenezer, Glantâf; lle y cafodd y Parchn. J. Davies, Cwmaman, a D. M. Jenkins, Treforis (Lerpwl gynt), meddid, oedfaon i'w cofio gan laweroedd, ond palla gofod i mi i fyned ar ol y ddwy Gymanfa hynny. Deled "Arch y Cyfamod i'r golwg," a chlywer "sain telynau Duw" yng Nghymanfa nesaf Caerffili!

Mai 26ain, 1904.

Ein Gwaith a'n Rhagolygon.

GWELIR yn y penodau blaenorol ffeithiau sydd yn dangos nerth a llwyddiant *egwyddorion Anghydfurfaeth* yn nghyd â'r arddeliad mawr fu ar weinidogaeth yr efengyl, drwy bregethiad y *tadau Annibynol*, yn yr ardaloedd hyn. Ymrana y pwnc dyddorol hwn i ddwy agwedd, sef hanes gorchestion ffydd a gwroldeb yr Ymneillduwyr (*Separatists*) cyntefig yn y wlad hon. Yr agwedd arall ar y mater ydyw y llwyddiant godidog fu ar y cyhoeddiad o'r efengyl gan y diwygwyr Annibynol. Yn yr agwedd gyntaf a nodwyd cawn olwg ar frwydr rhyddid crefyddol, yn ymwrthodiad y bobl i blygu i grefydd neu Eglwys Wladol. Yn y flwyddyn 1558 pasiwyd "Deddf Uwchafiaeth" ("*Act of Supremacy*"); darbodion yr hon roddai y Penadur tymhorol yn ben ar Eglwys Crist. Dyna adeg, ac achlysur cychwyniad a chynydd egwyddorion Ymneillduaeth yn Lloegr a Chymru. Yr agwedd arall ar y mater rydd olwg ar y gwaith mawr gyflawnwyd mewn goleuo, moesoli, a dyrchafu, ac achub, a sancteiddio y tyrfaoedd yn yr ardaloedd hyn, fel mewn rhanau eraill o Gymru, er yn foreu. Oddiwyth y nodiad byr yna gwelwn fod ein gwaith yn y presenol yn ymrannu i ddwy ddyledswydd fawr, sef gorphen enill y frwydr o ryddid i'r "Deyrnas nad yw o'r byd hwn," a chyflwyno egwyddorion yr efengyl, yn allu bywiol i achub y bobl. Dyledus yw cadw mewn cof, y gellir codi y bobl i wneud gwrthdystiad yn erbyn crefydd sefydledig, ac eto fethu eu cadw dan lywodraeth achubol yr efengyl.

Gorphwys arnom yn ein gwaith yn nglyn â'r agwedd gyntaf a nodwyd, sef sefyll ym ymhlaid ein ffydd Annibynol, y rhwymedigaethau canlynol:—

1. *Dysgu i'r eglwysi egwyddorion a nodweddion gwahaniaethol yr Annibynwyr.*

Cynhwysir yn y ddyledswydd uchod roddi bywyd a chylchrediad i'r ffeithiau sydd yn nglyn â hanes dechreuol ein Henwad; gosod ger bron eto y benod, ogoneddus a swynol, o hanes egwyddorion, gwroldeb, a buddugoliaeth y Tadau Annibynol, y llwyddiant mawr fu ar Ymneillduaeth yn amser yr eledigaethau creulawn, pryd y cynhyddodd yr Ymneillduwyr o fod yn ychydig wroniaid selog i'r nifer o ugain mil o bobl, y rhai oedd yn parhau beunydd i luosogi ac i ymfudo i wledydd

D. S. Morgan. D. Glyn Jones. E. Bush. D. E. Evans. T. Jones. D. Talfwys Jones. D. J. Thomas.



J. Millward. C. Taweltrr Thomas. J. P. Davies. D. Gwernydd Rees.

eraill i chwilio am orphwysdra ac i ledu eu hegwyddorion. Pa ramant hanesyddol ddeil ei chyferbynu i hanes y *May Flower*, a'r tadau pererinol yn glanio ar y *Plymouth Rock*, er gosod i lawr sylfaen y rhyddid gwladol a chrefyddol edmygir heddyw gan holl wledydd y ddaear, fel y teyrnasa drwy Unol Dalaethau America.

2. *Dadblygu yn yr eglwys y syniad o hawl Crist yn unig i lywodraethu ar ei eglwys ac ar gydwybod dynion.*

Dysgir yn eglur yn y Testament Newydd nad os hawl gan neb dynion tu allan i'r Eglwys, nac o'r tu mewn iddi, i ymyryd â rhyddid cydwybod canlynwr Crist: "I'w Arglydd ei hun" y mae yn gyfrifol! Ceir cyfundebau yn ymwrthod â'r gallu gwladol i lywodraethu eglwys Crist: ond wedi llunio credoau iddynt eu hunain sydd yn cyfyngu ar ryddid barn yr aelod o'r cyfryw gyfundeb, neu eglwys. Y mae hanes boreuol a holl draddodiadau yr Enwad Annibynol yn dysgu fod eiddigedd sanctaidd yn meddiant yr Annibynwyr drwy yr oesau at ddiogelu rhyddid barn a chydwybod i bob aelod yn yr eglwys, yn ogystal ac ymwrthod ag ymyriad y wladwriaeth neu unrhyw allu arall tu allan iddi ei hun. Hawl Crist yn unig i lywodraethu ei eglwys, a rhagorfraint pob eglwys o dan ei arweiniad Ef i lywodraethu ei hamgylchiadau ei hun, ydyw egwyddor sylfaenol Annibyniaeth. Hwn oedd y cyhuddiad a ddygid yn erbyn Richard Fytz a Thomas Rowland, gweinidog a diacon o Eglwys Bridewell, y rhai a garcharwyd yn nghyd a 24 o ddynion a 7 o fenywod; buont feirw o'r plâ yn ngharchar Llundain mor foreu ar flwyddyn 1567; hefyd eu bod yn dal nad cyfiawn i'r gallu gwladol lywodraethu Eglwys Crist oedd y cyhuddiad a ddygodd yr *Attorney General* yn erbyn Greenwood a Barrowe, a John Penry, sef "*Claiming the right of a Church to manage its own affairs.*" "Hawlio ei bod yn gyfiawn i eglwys i lywodraethu ei hamgylchiadau ei hun." Rhoddodd Henry Barrowe, John Greenwood, a John Penry, eu bywydau yn aberth i'r athrawiaeth yna, a dilynwyd hwy gan lu o ferthyron dros y gwirionedd pwysig hwn.

Na ddiffygiwn yn y genhadaeth o ddeffroi yr eglwysi i ofrydiaeth o egwyddorion Anghydfurfiaeth. Manteisia pleidwyr caethiwed gwladol a chrefyddol yn fawr ar ddistawrwydd ac anwybodaeth eglwysi Ymneillduol yn egwyddorion sylfaenol ein flydd.

Ceir llenyddiaeth aruchel wedi ei chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg yn gosod allan y ddadl ym mhlaid rhyddid crefyddol, ac egluro natur ysbrydol teyrnas Crist. Dyledus yw gwneud ymdrech er goleuo yr holl eglwysi yn yr athrawiaeth hon.

3. *Cadw cydwybod yr eglwysi yn effro yn erbyn yr halogrwydd o gysylltu crefydd Crist â gallu bydol.*

Unwaith y ceir cenedl y Cymru a chenedl y Saeson i ymallyd yn

y pwne o ddadgysylltiad o gyfeiriad ysbrydol y cwestiwn, credaf y bydd argyhoeddiad o'r gorthrwm yn yr agwedd yma arno yn sicr o enill y frwydr.

Pan gyfyd trigolion Prydain eu llais yn un llef, nad cyfiawn parhau y cabledd hwn, o ddal teyrnas ysbrydol Crist o dan lywodraeth fydol, i.e. yn aml lywodraeth lygredig, yna y gwreiddir yr adnod: "Y rhai hyn a ryfelant a'r Oen, a'r Oen a'u gorchfyga hwynt."

Y mae estyn i aelodau yr Eglwys Wladol swyddau, sydd ar dir cyfiawn, yn eiddo cyffredinol—honi uwchafiaeth i berson (offeiriad) ar weinidog Ymneillduol—gorfodi Anghydfurfwr i dalu am grefydd yr eglwyswyr mewn degwm yn orthrwm mawr; ond nid yw yr oll yn ddim at y gorthrwm o droi "dyfroedd bywiol" ddylasant gael ei cyflwyno yn bur i'r tyrfaoedd i bydewau llygredig seneddau a llysoedd brenhinoedd. "Dyma y ffeiddra anghyfaneddol yr hwn sydd yn sefyll yn y lle sanctaidd."

Yr ail nodwedd ar ein gwaith, sef sicrhau dyddordeb holl drigolion yr ardaloedd mewn crefydd.

Y mae cyflwr Cymru heddyw yn galw am ddefroad mawr, dim llai, medd arweinwyr y bobl, nag un o hen ddiwygiadau Cymru drosodd eto. Beth yw ein cyflwr? Mwyafrif mawr yn yr eglwysi heb gmyeryd dyddordeb yn ngwaith cyhoeddus tŷ yr Arglwydd. Tyrfaoedd o wrandawyr yn gwrthod ymuno, mwyafrif mawr y bobl yn yr ardaloedd hyn yn ymgadw yn hollol o'r tu allan i bob addoliad cyhoeddus! Pa beth i wneud—beth yw y gwaith?

1. *Rhaid i'r Eglwys i gydymffurfio â thelerau ei llywyddiant,*

Rhaid ymddibynu ar allu dwyfol am lwyddiant crefydd, ac nid ar adnoddau dynol: dal mewn cof parhaol mai "dyfod i waered" o'r nef, i.e. "disgyn o'r nef" y mae y "Jerusalem newydd," ac nas gellir ei hadeiladu hi â meini dynol. Rhaid cydnabod fod pob cyfundeb crefyddol yn Nghymru heddyw wedi gwrthgilio i fesur oddi wrth amodau ei lwyddiant: gellir olrhain dirywiad presenol crefydd Cymru i'r flaith uchod. Gosodir pwys gormodol ar alluoedd dynol. Ymddiriedir mewn gwybodaeth, mewn dylanwad swyddogaeth, a safleoedd, ac yn arbenig mewn cyfoeth daiarol i lwyddo crefydd. Parod ydym i dalu gwarogaeth i ddiwylliant, a swydd, a safle fydol, a chyfoeth daiar, y maent yn bethau dymunol; ond nid yw yr oll ar eu goreu yn ddim tuag at lwyddo crefydd. Rhaid i'r eglwys gredu mai ymweliad o eiddo yr Ysbryd tragywyddol i gynyrchu addoliad i Dduw, ac awydd angerddol i ddad-blygu ei natur sanctaidd yn ein calon, yw hanfod llywyddiant crefydd.

2. *Rhaid i'r Eglwys, os am lwyddo, fyw ei phroffes.*

Rhaid cael cydgord rhwng honiadau crefyddwyr a'u bywyd. Priodolir yn aml fod yr anhawsder ar ffordd crefydd yn codi i fesur o'r

anghysondeb ymddangosiadol sydd rhwng ffeithiau dadguddiad a goleuni natur. Rhwng gwirioneddau gredir sydd yn brofedig mewn gwyddoniaeth a gwirioneddau ysbrydoledig y Bibl; a champwaith yr oesau goleu ddaw a fydd yn ddiau dangos y cydgord perffaith sydd rhwng natur a dadguddiad: ond mwy pwysig, credaf, er llwyddiant crefydd, yw cael pob proffeswr i fyw bywyd tebyg i fywyd Crist, mewn cariad, sancteiddrwydd ac aberth, ger bron y bobl.

3. *Codi dyddordeb y bobl mewn llenyddiaeth grefyddol.*

Dyma faes i gymdeithas newydd ym mro Caerffili. Cymdeithas i godi dyddordeb ieuencyd y cylchoedd mewn llenyddiaeth grefyddol.

4. *Cyflwyno eglurhad mwy cywir ar wirioneddau y Bibl yn yr Ysgolion Sul.*

Ymrana gwirioneddau y Bibl i dair o brif ganghenau, sef, gwirioneddau hanesyddol, gwirioneddau moesol ac ysbrydol, a gwirioneddau prophwydoliaethol. Wrth gwrs y mae lliaws o ganghenau eraill o wybodaethau yn tarddu allan bob un o'r rhai yna drachefn. Y mae dysgedigion mwyaf goleu a chrefyddol yr oes yn ymwrthod â'r esboniad roddid ar yr athrawiaethau gysylltid â'r naill a'r llall o'r canghenau uchod o'r gwirionedd daguddiedig. Y mae y Bibl yn llyfr Duw a dyn, y mae yr ysbrydoliaeth yn ddwyfol, y mae y dadguddiad yn ogoneddus, ond mae yr esboniad meddir yn gyfeiliornus, rhan fwyaf o esboniadau y ganrif o'r blaen. Dywed un doethawr nad oedd eisiau "Bibl newydd" yn Nghymru ond "Esboniad newydd;" i.e. credaf, a goreu oll pa gyntaf i gael yr "Esboniad newydd" allan, yr hwn fydd yn fwy cyson o lawer, a ffeithiau profedig eraill yn myd mawr gwirionedd. Nid oes dim sefydla ffydd y bobl yn y Bibl yn fwy nag eglurhad ar ei wirioneddau yn gyson a rheswm dynol ac ag urddas a mawredd y y "Tad" tragywyddol ddadguddir ynddo.

5. *Rhaid i galon yr Eglwys guro beunydd mewn cydymdeimlad â dyrchafiad a rhyddid y werin.* Rhaid i'r Eglwys brofi i'r byd mai ysbryd y Gwaredwr yn unig all ddwyn oddi amgylch wir ddiwygiadau cymdeithasol.

6. *Perthyna i'r Eglwys Annibynol heddyw broblem plaser ponge fydd yn rhaid iddi os am fyw ei wynebu ag ateb boddhaol, sef "Beth yw rhwymau aelodau o Eglwys Crist yn eu perthynas a chwareuon a phleserau yr oes?"* Nid yw gofod yn caniatáu i mi i draethu ar y materion uchod, dim ond eu hawgrymu yn ostyngedig.

Am ein rhagolygon, credaf, y bydd i'r oesau ar cenedlaethau a ddaw ddilyn yn ôl traed gwroniaid rhyddid crefyddol y wlad, ac y bydd tyrfaoedd afrifed yn gwrando ar "Y garreg yn llefain o'r mur, a'r trawst yn ei hatel o'r gwaith coed," yn nheml y Watford: "Daliwch i fynu faner wen diwygiadau rhyddid a sancteiddrwydd y gorphenol."

The English Congregational Church, Senghenydd.

“WOMAN’S love and devotion, Man’s faith and self-denial;” these were the forces that set in motion the movement which led to the formation of an English Church at Senghenydd on February 28th, 1896. In the years 1894-5, some English-speaking faithful ones settled at Senghenydd, whose love for Congregationalism was so intense that they could not transfer it to any other denomination. Among those were some godly women, who came from Monmouthshire, and it is gratifying to know that they are still amongst us, doing their part as energetically as ever. These sisters had a conversation with some of the officers of the Welsh Congregational Church, and at a meeting held at Noddfa on Sunday, December 1st, 1895, the matter was brought to the notice of the Rev. J. Williams, Hafod, who was officiating there that day. It was then decided that a week-night service should be arranged. This was held on December 23rd, when the Rev. Môn Evans, Porth, preached an English sermon, and at the meeting which followed, the Rev. J. Williams presiding, the following resolution was passed: “That English services be held with the object of forming an English Congregational Church at Senghenydd, and that a start be made as soon as possible.” This was moved by Mrs. E. Williams and seconded by Miss Jones, Stafford House. By the aid of two friends from Noddfa, premises were secured. The first services were held on December 29th, 1895. The premises, known as the “Old Carpenter’s Shop,” were kindly lent by Mr. Josiah Morgan (now of Caerphilly), free of charge. The Church was formed at a special service held at Noddfa Vestry, on the 28th February, 1896, when the late Rev. W. I. Morris, Pontypridd, and Rev. J. Williams, Hafod, officiated; the Rev. C. Tawelfryn-Thomas, Groes Wen, through unforeseen circumstances, was unable to attend. The following were enrolled as members: Mrs. E. Williams, the Misses J. and P. Jones, Mr. and Mrs. D. Harris, Mr. and Mrs. W. G. Llewelyn, Mr. F. George, Miss George, Thomas Cross, and L. Rees. The Rev. Tawelfryn-Thomas was appointed nominal Pastor, Mr. David Harris as



SENGHENYDD (E.) CONGREGATIONAL CHURCH.

Lay Pastor; Mrs. Williams, Treasurer; L. Rees, Secretary. L. Rees found it necessary to resign his office, and W. G. Llewellyn succeeded him.

Services were continued for some time in the old "Siop Saer," but passing into other hands, the Church had to secure other premises, and one of the rooms of the unlicensed Leigh Hotel was placed at the disposal of the infant community. Shortly afterwards they migrated back to the "Siop Saer," and subsequently to a small upper room in the same street and on the same side as the "Siop Saer." The ark rested again for a time, but owing to structural alterations in the above room another move was made to 98, Commercial Street, which afforded shelter for a season. Notwithstanding these changes the Church prospered, and its financial position was not neglected. In order to start a Building Fund, an Eisteddfod was organised by the Officers of the Church (the first Eisteddfod held in Senghenydd), and successfully carried through in March, 1896. A site was secured in Commercial Street (then known as Windsor Road), and a galvanised iron building was erected to seat 200, at a cost of £138 10s., exclusive of foundation walls, which cost £49 8s. 6d. The building was opened for public worship on the 7th and 8th of November, 1896, when the Rev. W. Owen (late of China) conducted the services, the Revs. J. Gwilym Jones, Penarth; J. G. James, B.A., Merthyr; W. G. Jenkins, B.A., Pontypridd, and others taking part.

Steady progress was made in 1897, but in 1898 Mr. Harris, owing to an appointment under the London City Mission, resigned his post, and the good work he had accomplished at Senghenydd, assisted by his wife, was acknowledged with substantial tokens of esteem and respect on their departure to their new sphere of labour. The 21st of May, 1901, was a dark day in the history of Senghenydd—the date of the awful explosion, which affected the progress of the Church. For some time the membership showed a gradual decrease, but the dawn of better days appeared, and the Church began to revive in all its activities. On the 19th July, 1902, the Church selected as its first deacons Simon Worman, William T. Marshall, Henry Angell, and W. G. Llewellyn. The second Eisteddfod was held on the 16th July, 1902, and various movements were set on foot to further the development of the Church. The erection of a boundary wall at a cost of £71 added considerably to the value of the site and the appearance of the building. In 1903 the South Wales Congregational Union Executive sent their special missionary, the Rev. Hugh S. Griffiths (Penarth), to take oversight of the Church for two months, and at the end of this period, owing to the good work done, the Church applied for an extension of Mr. Griffiths'

